



Rhaglen Iwerddon Cymru 2007 - 2013

Rhif CCI: 2007CB163PO062



RHAGLEN CYMRU IWERDDON 2007-13

Tabl Cynnwys

	Rhif Tudalen
Pennod 1 Cyflwyniad	1
• Cyflwyniad	1
• Cyfeiriadau Cyfreithiol	1
• Diffiniad o Ranbarth Cymwys	2
• Cyfagosrwydd	3
• Cydweithredu Presennol a Phrofiadau o Raglenni yn y Gorffennol	4
• Rhaglen INTERREG IIIA Iwerddon Cymru 2000-06	5
• Cysylltiadau Hanesyddol a Diwylliannol	7
• Proses Rhaglennu ar y Cyd	8
Pennod 2 Proffil Rhanbarthol a Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau	10
• Cyflwyniad	10
• Proffil Rhanbarthol - Crynodeb	15
• Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau Rhanbarthol	18
• Casgliad	20
Pennod 3 Cyd-destun Polisi a Strategaeth Ddatblygu	21
• Nodi Heriau Cyffredin sy'n Wynebu Ardal y Rhaglen	21
• Cyd-destun Polisi	24
• Crynodeb o'r Rhag-werthusiad a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol	35
• Strategaeth ar gyfer y Rhanbarth Trawsffiniol	38
• Cyfiawnhau'r Strategaeth a Ddewiswyd	40
• Gwerth Ychwanegol Cydweithredu Trawsffiniol	41

Pennod 4 Blaenoriaethau	44
• Blaenoriaeth 1- Gwybodaeth, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer Twf	44
• Blaenoriaeth 2- Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy	51
• Blaenoriaeth 3- Cymorth Technegol	58
Pennod 5 Cymorth a Chynlluniau Ariannol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop	60
Pennod 6 Cyfatebolrwydd â Rhaglenni/Cronfeydd eraill	62
• Cyfateb i Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)	62
• Cyfateb i Gronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF)	63
• Cyfateb i Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)	63
• Cyfateb i Gronfa Gymunedol Ewrop (ESF)	65
• Cyfateb i'r Seithfed Rhaglen Fframwaith (FP7)	66
• Ffin rhwng yr ERDF a rhaglenni eraill	66
Pennod 7 Themâu Trawsbynciol	68
• Cyflwyniad	68
• Cyfle Cyfartal	69
• Datblygiad Cynaliadwy	71
Pennod 8 Gweithredu	74
• Cyflwyniad	74
• Trefniadau Rheoli a Monitro	74
• Systemau Trin a Rheoli Arian	79
• Gwerthuso	86
• Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd	87
• Hyrwyddo'r Rhaglen a hybu prosiectau o ansawdd	89
• Prosiectau Mawr	91
• Rhanbarthau dros Newid Economaidd	91
• INTERACT II	91

Atodiadau

- Atodiad I - Gweithgorau a gyfrannodd at ddatblygu'r rhaglen newydd 92
- Atodiad II – Sefydliadau a gyflwynodd ymatebion ysgrifenedig ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus 93
- Atodiad III – Tablau Ariannol 94
- Atodiad IV – Categoriaddio cymorth Cronfeydd ar gyfer 2007-2013 96
- Atodiad V – Rhag-werthusiad – Crynodeb Gweithredol 99
- Atodiad VI – Siart Llif Trin a Rheoli Arian 107
- Atodiad VII – Siart Llif Taliadau 108
- Atodiad VIII – Siart o'r Sefydliad ar gyfer Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain 2007 109

PENNOD 1

Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad

Mae'r Rhaglen Weithredol hon yn cynnwys set o gynigion ar gyfer yr ymyriadau a ragwelir o dan amodau maes cydweithredu trawsffiniol amcan Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Fe'i cyflwynir gan yr Awdurdod Rheoli ar ran Llywodraeth Iwerddon a Llywodraeth Cynulliad Cymru (o Ebrill 2007, Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru), o dan yr enw Rhaglen Cymru Iwerddon.

Bydd gan Raglen Iwerddon Cymru gyfanswm cyllideb o tua €70m yn ystod y cyfnod y bydd yn weithredol, a grant o tua €52m drwy'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).

1.2 Cyfeiriadau Cyfreithiol

Yng Ngorffennaf 2006 cymeradwyodd y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop y Rheoliadau sy'n llywodraethu'r Cronfeydd Strwythurol [Rheoliadau EC Rhif 1083/2006 (Rheoliad y Cyngor) a 1080/2006 (Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor)] sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer y genhedlaeth newydd o raglenni gweithredol am y cyfnod 2007-2013. O dan Erthygl 3 Rheoliad Cyffredinol¹ mae polisi Ewropeaidd bellach i'w ddilyn o dan dri Amcan, sef yr Amcan Cydgyfeirio ar gyfer Rhanbarthau llai na 75% o CMC EU25, a'r Amcan Cystadleurwydd a Chyflogaeth sydd o bosibl yn cwmpasu'r holl Ranbarthau eraill yn yr Undeb.

Mae'r Amcan olaf, a'r un sy'n uniongyrchol berthnasol i'r rhaglen hon, yn Amcan Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd newydd. Ei nod yw cryfhau cydweithredu trawsffiniol drwy fentrau lleol a rhanbarthol ar y cyd, gan gryfhau cydweithredu trawsgenedaethol drwy gamau sy'n arwain at ddatblygiad tiriogaethol integredig sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Cymunedol, gan gryfhau cydweithredu rhyng-ranbarthol a chyfnwid profiad ar lefel diriogaethol briodol.

Mae'r Amcan Cydweithredu Tiriogaethol newydd hwn yn cymryd lle'r Fenter Gymunedol INTERREG bresennol, sydd bellach wedi'i phrif ffyrdio. Fel ei ragflaenydd INTERREG, mae maes trawsffiniol penodol i'r Amcan newydd hwn. O dan Erthygl 7 o'r Rheoliad Cyffredinol, mae holl ranbarthau NUTS III y Gymuned ar hyd ffiniau morol sydd ar y cyfan, wedi'u gwahanu gan uchafswm o 150 km, yn gymwys i'w cynnwys o fewn rhaglen drawsffiniol forol. Gan fod y pellter rhwng morlin gorllewin Cymru a morlin dwyreiniol Iwerddon yn llai na 150

¹ Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006 11 Gorffennaf, 2006.

km, mae'r Rhaglen Weithredol Iwerddon Cymru newydd hon yn gymwys ar gyfer cyllid o dan faes trawsffiniol yr Amcan Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, ac o dan y sail gyfreithiol honno y paratowyd y Rhaglen hon. Mae'r Rhaglen wedi'i pharatoi yn arbennig gan roi sylw dyledus i Erthygl 38 o'r Rheoliad Cyffredinol ac Erthygl 12 o'r Rheoliad ERDF².

1.3 Diffiniad o Ranbarth Cymwys

Yr ardaloedd sy'n gymwys i'w cynnwys yn Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Trawsffiniol Iwerddon Cymru yw rhanbarthau NUTS III Dilyn, Canol Dwyrain a De Ddwyrain Iwerddon a Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a De Orllewin Cymru.


Mae'r rhanbarth trawsffiniol yn canolbwyntio ar brif lwybrau'r môr rhwng Iwerddon a Chymru a'r prif fannau mynediad i nwyddau o Iwerddon i Brydain a marchnadoedd Ewropeaidd ac i'r gwrthwyneb h.y. coridor canolog Dilyn/Dun Laoghaire a Chaerghybi a choridor môr y de Rosslare/New Ross/Waterford ac Abergwaun/Doc Penfro/Aberdaugleddau. Mae'r rhain yn borthladdoedd o bwysigrwydd strategol ac yn gysylltiadau hanfodol ar draws ffin forol.

Mae'r Rhaglen yn cynnwys cydweithredu rhwng y rhan o Iwerddon sydd wedi datblygu mwy yn economaidd gan gynnwys y brifddinas, Dilyn, a'r rhannau gorllewinol, mwy gwledig o Gymru sydd ar gyrion datblygiad economaidd a heb gynnwys y brifddinas, Caerdydd.

Wrth ddatblygu'r Rhaglen hon, mae'n bwysig cydnabod bod agweddau ffisegol a sefydliadol cydweithredu trawsffiniol ar ffiniau morol yn eu gwahaniaethu mewn sawl agwedd o'u cymharu â ffiniau ar y tir.

² Rheoliad Cyngor (EC) Rhif 1083/2006 a Rheoliad (EC) Rhif 1080/2006 ar y Gronfa Datblygu Rhanbarth Ewrop.

FFIGUR 1 - MAP RHANBARTH TRAWSFFINIOL IWERDDON- CYMRU



1.4 Cyfagosrwydd

Mae Erthygl 21 o Reoliad (EC) Rhif 1080/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn nodi *"In the context of cross-border cooperation and in duly justified cases, the ERDF may finance expenditure incurred in implementing operations or parts of operations up to a limit of 20 % of the amount of its contribution to the operational programme concerned in NUTS level 3 areas adjacent to the eligible areas for the programme referred to in Article 7(1) of Regulation (EC) No 1083/2006 or surrounded by such adjacent areas. In exceptional cases as agreed between the Commission and Member States, this flexibility may be extended to the NUTS level 2 areas in which the areas referred to in Article 7(1) of Regulation (EC) No 1083/2006 are located.*

At project level, expenditure incurred by partners located outside the programme area as defined in the first subparagraph may be eligible, if the project would have difficulty in achieving its objectives without that partner's participation".

Mae'r hyblygrwydd hwn yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddio grant ERDF mewn ardaloedd cyfagos ac ehangach er budd ardal y Rhaglen yn gyffredinol. Bydd cyfle i adeiladu ar weithgareddau sydd wedi cynnwys gwariant y tu allan i'r ardal gyfagos ac sydd wedi bod o fudd i raglen 2000-2006. Hefyd gan fod Conwy a Sir Ddinbych gyfan bellach wedi'u hystyried fel ardaloedd cymwys i'r Rhaglen Weithredol gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd mwy o gyfleoedd i sefydliadau gymryd rhan ehangach yn ardaloedd cyfagos NUTS III.

Mae cynnwys y ddau awdurdod lleol cyfan o fewn y rhanbarth trawsffiniol fel un uned gydlynol yn ei gwneud yn bosibl i fentrau a gefnogir o dan Raglenni INTERREG II ac III yn yr ardaloedd hynny aeddfedu, ac i rai newydd ddatblygu. Yn ogystal â hyn, mae nifer o gysylltiadau wedi hen ymsefydlu rhwng cymunedau morol a gwledig ardal NUTS III Conwy a Sir Ddinbych a dwyrain Iwerddon fyddai'n ychwanegu'n sylweddol at lwyddiant y Rhaglen yn y dyfodol.

Ar gyfer Rhaglen Cymru Iwerddon, bydd yr ERDF yn ariannu gwariant yn sgil gweithredu rhaglenni neu rannau o raglenni hyd at derfyn ariannol o 10% o swm ei gyfraniad at y Rhaglen yn ardaloedd lefel III NUTS sy'n gyfagos i'r ardaloedd cymwys.

O ran ardaloedd NUTS III Iwerddon y bwriad yw cynnwys ardal Awdurdod Rhanbarthol y De Orllewin ar sail bod arbenigedd sylweddol yn y sectorau Addysg Uwch a Phellach sy'n gallu dod â gwerth ychwanegol i weithgaredd y rhaglen. Amlygir hyn gan gyfraniad Coleg Prifysgol Cork yng nghyfnod y rhaglenni diwethaf.

O ran Cymru, y bwriad yw cynnwys ardaloedd NUTS III cyfagos, Abertawe a Sir y Fflint a Wrecsam. Gellir sicrhau gwerth ychwanegol drwy gynnwys sefydliadau Addysg Uwch a Phellach yn y ddwy ardal NUTS III. Amlygwyd hyn yn Rhaglen 2000-2006 yn achos Abertawe lle bu sefydliadau addysg uwch yn rhan o fentrau trosglwyddo technoleg ac ymchwil. Mae cyfleoedd realistig i gael rhagor o gydweithredu o fewn y sectorau hyn a ffocws ar arloesedd, sgiliau a datblygiad cynaliadwy yn y ddwy ardal gyfagos.

Wrth ystyried cynnwys prosiectau a leolir yn yr ardaloedd cyfagos, bydd strwythurau Rheoli'r Rhaglen yn sicrhau y canolbwyntir adnoddau lle mae gwerth ychwanegol clir i'r cydweithredu trawsffiniol a buddion gwirioneddol i ardal y rhaglen. Cyfiawnheir rhagoriaethau'r prosiectau hynny ar sail achosion unigol.

1.5 Cydweithredu Presennol a Phrofiadau o Raglenni yn y Gorffennol

Mae hanes o gydweithredu anffurfiol rhwng dwy ran y rhanbarth trawsffiniol dros gyfnod hir o amser. Roedd nifer o grwpiau, fel Coridor Canolog y Môr, oedd â ffocws ar gysylltiadau trafndiaeth a Fforwm Môr Iwerddon oedd â ffocws ar faterion amgylcheddol. Yn fwy arwyddocaol, roedd Partneriaeth Môr Iwerddon fu'n sail i'r ymdrech lobïo i ddynodi Iwerddon a Chymru fel ardal forol i'w chynnwys o dan INTERREG II.

Gyda dyfodiad rhaglenni INTERREG IIA a IIIA Iwerddon Cymru datblygodd y cydweithredu hwn i lefel newydd er budd pobl yn ardal y rhaglen. Cymeradwywyd dros 200 o brosiectau ar y cyd yn ystod cyfnod y rhaglenni hyn. Mae pobl a sefydliadau ar draws pob sector o gymdeithas wedi elwa o'r rhaglen sy'n cael ei chydabod fel ffordd hynod effeithiol o greu cysylltiadau â sefydliadau sy'n bartneriaid dramor.

Yn wir yn ystod rhaglen INTERREG III mae sawl sefydliad wedi adeiladu ar bartneriaethau a grëwyd yn ystod y rhaglen 1994-1999. Gobeithio y gellir datblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach a dod â chydweithredu trawsffiniol i lefel newydd.

1.6 Rhaglen INTERREG IIIA Iwerddon Cymru 2000-2006

Trosolwg byr yw hwn o'r gweithgareddau a'r ymyriadau a fu o dan Raglen INTERREG IIIA Iwerddon Cymru yn ystod 2000-2006 ac i weld pa wersi y gellir eu dysgu o ran datblygu'r rhaglen hon. Mae adolygiad mewnol manylach o'r rhaglen ar gael i ymgynghori arno ar www.seregassembly.ie.

Cymeradwywyd Rhaglen Menter Gymunedol INTERREG IIIA Iwerddon Cymru 2000-2006 yn ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 23 Tachwedd 2001 – Penderfyniad C y Comisiwn (2001) 2843.

Nod y Rhaglen oedd hybu datblygiad cynaliadwy'r rhanbarth trawsffiniol drwy ddull integredig tuag at ddatblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mewn ffyrdd y byddai cymunedau lleol yn elwa arnynt. Dilynwyd y nod hon ar draws dwy flaenoriaeth yn cwmpasu chwe mesur.

Blaenoriaeth 1: Hybu Datblygiad Economaidd, Cymdeithasol a Thechnolegol yr Ardal Drawsffiniol

Blaenoriaeth 2: Sicrhau Twf Cynaliadwy drwy Wella Ansawdd Cyffredinol yr Ardal Drawsffiniol

Dyraniadau Ariannol Tachwedd 2006

Blaenoriaeth 1	Cyfanswm Cost Cymwys (€ miliwn)	Grant ERDF (€ miliwn)
Mesur 1 – Datblygu Busnes a Menter	13.01	9.02
Mesur 2 – Datblygiad Gwledig ac Arallgyfeirio	11.86	8.12
Mesur 3 – Addysg, Hyfforddiant a Datblygu Adnoddau Dynol	10.98	7.36
Mesur 4 – Cysylltiadau mewn Technoleg a Chludiant	5.31	3.79
Blaenoriaeth 2		
Mesur 1 – Datblygiad Morol ac Arfordirol a'r Amgylchedd	12.84	8.99
Mesur 2 – Diwylliant, Treftadaeth a Thwristiaeth	14.21	9.64
Blaenoriaeth 3		
Mesur 1 – Rheoli, Gweinyddu a Datblygu Rhaglen	1.68	1.24
Mesur 2 – Rhoi Cyhoedduswydd, Gwerthuso ac Ymchwilio i Raglenni	0.4	0.33
CYFANSWM	70.29	48.49

Daeth y cylch cyntaf ar gyfer cynigion i ben ar 17 Mai 2002 ac agorodd 7 cylch pellach ar gyfer ceisiadau hyd at Fai 2006. Cyflwynwyd dros 200 o gynigion prosiectau ar y cyd yn ystod cyfnod y Rhaglen a chymeradwywyd dros 100 ohonynt ar gyfer cyllid gwerth dros €47m mewn grant ERDF hyd fis Tachwedd 2006. Yn Rhagfyr 2006, defnyddiwyd y grant oedd yn weddill yn y Rhaglen i gefnogi estyniadau cyllid i 11 o brosiectau a gymeradwywyd yn ffurfiol.

Lleolir yr Awdurdod Rheoli a Thalu yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Lleolir Swyddfa Gyswilt y Rhaglen yn swyddfeydd Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain yn Waterford yn ne ddwyrain Iwerddon.

Gwersi a Ddysgwyd a'r Prif Bwyntiau ar gyfer Rhaglen 2007- 13

Mae partneriaeth y rhaglen wedi cael profiad helaeth o weithredu a rheoli Rhaglen INTERREG IIIA Iwerddon Cymru. Mae'r profiad a gafwyd a'r gwersi helaeth a ddysgwyd yn un o'r egwyddorion arweiniol wrth gynllunio a gweithredu'r Rhaglen Weithredol newydd ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-13.

O ran datblygu a rheoli prosiectau ar y cyd bu sawl enghraifft o gydweithredu effeithiol, cydweithio a chyfnewid arfer da yn ystod Rhaglen 2000-2006. Bydd y Rhaglen newydd yn ceisio adeiladu ar arfer gorau a gweithgaredd ar y cyd sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn meysydd fel cyfnewid BBaChau, gwella lefelau sgiliau, menter mewn addysg, ynni cynaliadwy a gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Bydd y Rhaglen hefyd yn ceisio sicrhau gwerth ychwanegol trwy chwilio am feysydd newydd i'w cynnwys fel y nodir yn y strategaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Mae papur cefndir pellach sy'n darparu gwybodaeth fanylach ar y profiad a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd o Raglen INTERREG IIIA Iwerddon Cymru 2000-06 ar gael yn adran Iwerddon Cymru o www.seregassembly.ie.

1.6 Cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol

Y cysylltiad pwysicaf rhwng Cymru ac Iwerddon yw Môr Iwerddon tra bod ffactorau hanesyddol a diwylliannol hefyd yn bwysig iawn. Mae cysylltiad wedi bod rhwng hanes a diwylliant y ddwy wlad ers y cyfnod Mesolithig (7000CC-4000CC); darganfuwyd olion y'r anheddwyr cyntaf a thystiolaeth o'u haneddiadau ar hyd yr arfordir ar ynysoedd ac mewn twyni tywod o gwmpas Môr Iwerddon. Drwy gydol y cyfnod cynhanesyddol parhaodd y patrwm o gysylltiadau, yn arbennig drwy gyfnod y Celtiaid, ac mae gan y ddwy wlad heddiw iaith a diwylliant Celtaidd arbennig. Fel dwy o wledydd Celtaidd y byd, mae cysylltiad mewn sawl ffordd rhwng chwedlau a mythau Cymru ac Iwerddon ac maent bellach yn rhan bwysig o'n cyd-dreftadaeth. Er mai Saesneg yw'r brif iaith yn y ddwy wlad, mae'r Gymraeg wedi dal ei thir yn gadarn o fewn ardal yr INTERREG. Yn rhan Wyddelig y rhanbarth trawsffiniol mae dwy Gaeltacht (ardaloedd lle mae'r Wyddeleg yn cael ei siarad) yn rhannau o Siroedd Waterford a Meath ac yn ystod y blynyddoedd diweddar gwelwyd adfywiad newydd yn y Wyddeleg yn y rhanbarth yn gyffredinol.

Croeswyd yn ôl a blaen ar draws Môr Iwerddon ers y cyfnod canoloesol ac yn aml roedd yn achos cynnwrf mawr a newid hanesyddol. Mae'r cysylltiad wedi bod yn gyson ac ers cyfnod y chwyldro diwylliannol teithiodd nifer fawr o Wyddelod i weithio yn y mwyngloddiau, gweithfeydd dur, dociau a chwareli Cymru.

Yn sgil newidiadau gwleidyddol hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, pan lwyddodd Iwerddon i gael annibyniaeth o reolaeth Prydain, dilynodd Iwerddon drywydd datblygiad ar wahân i Gymru. Mae'r broses ddatganoli a sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi amlygu awydd i adnewyddu ac adfywio'r berthynas rhwng ein dwy wlad. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn yr ymweliad swyddogol cyntaf gan arweinyddiaeth wleidyddol Cymru ers datganoli yn 2000, pan aeth y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru i Ddilyn a phan agorwyd Conswl Iwerddon yng Nghaerdydd.

Ers hyn, bu ymweliadau cyson rhwng y ddwy wlad gan Weinidogion tra lanswyd Rhaglen Iwerddon Cymru 2000-2006 yn ffurfiol ar y cyd gan y Taoiseach a Phrif Weinidog Cymru mewn digwyddiad a gafodd broffil uchel yng Nghastell Dilyn yn Chwefror 2002. Arweiniodd hyn at gyfnod llwyddiannus iawn o gydweithredu rhwng y ddwy wlad a nifer eang o sefydliadau yng Nghymru ac Iwerddon. Datblygwyd dros 100 o brosiectau trawsffiniol ar y cyd sy'n parhau i ddod â budd i bobl y rhanbarth. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i werth nifer o'r prosiectau hyn mewn taflen Rhaglen ar y cyd a gyhoeddwyd yn 2006.

1.8 Proses Rhaglennu ar y Cyd

Ym Mawrth 2006 bu cyfarfod rhwng Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac Adran Gyllid Cynulliad Rhanbarth y De a'r Dwyrain, ac er budd y bartneriaeth, cytunwyd y byddai'r rôl Awdurdod Rheoli ac Ardystio yn cael ei throsglwyddo i Iwerddon ar gyfer cyfnod y rhaglenni newydd. Cytunodd yr awdurdodau Gwyddelig y byddai Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain yn ymgymryd â'r rolau hyn.

Sefydlwyd tasglu rhaglen newydd ar ôl hyn; yn cynnwys swyddogion o'r Cynulliad Rhanbarthol a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru³.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd wedyn rhwng partïon â diddordeb yng Nghymru ac Iwerddon. Cynhaliwyd dau gyfarfod o adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau gwladol yn Nulyn i ddarparu gwybodaeth am y cyfnod rhaglennu newydd ac i gael sylwadau asiantaethau perthnasol ynglŷn â'r hyn y dymument ei gynnwys yn y rhaglen newydd. Mae rhestr o'r adrannau a'r asiantaethau wedi'i chynnwys yn Atodiad I.

Cynhaliwyd proses gyfochrog yng Nghymru, a sefydlwyd Gweithgor Cydweithredu Tiriogaethol, wedi'i gadeirio gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a sefydlwyd i gynllunio a pharatoi ar gyfer Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol oedd yn cynnwys Cymru. Bu i'r Grŵp hwn gyfarfod saith gwaith ac mae wedi chwarae rhan weithgar yn y broses o baratoi blaenoriaethau Rhaglen Cymru Iwerddon, a chyfrannu atynt. Mae rhestr o'r sefydliadau a gymerodd rhan yn y grŵp hwn wedi'i chynnwys yn Atodiad I.

³ Stephen Blair, Cyfarwyddwr Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain, Simon Baily, Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain, Damien O'Brien, Cyfarwyddwr Cynllunio a Strategaeth, WEFO, Mike Pollard, WEFO.

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng cynrychiolwyr y ddwy awdurdodaeth ar 2 Mehefin 2006 a chytunodd y cyfarfod hwn ar y cynnig gan y tasglu ar gyfer y ddwy flaenoriaeth a ddisgrifir yn fanwl ym Mhennod 4 yr Rhaglen Weithredol hon.

Penodwyd Fitzpatrick Associates, Dulyn mewn partneriaeth ag Old Bell 3 a CRG Research o Gymru fel Rhag-Werthuswyr yn dilyn proses dendro yn Ebrill 2006. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng y tasglu a'r gwerthuswyr ym Mehefin, Medi a Thachwedd 2006, yn dilyn hynny bu cyfarfod yn Ionawr 2007 i drafod yr adroddiad drafft terfynol.

Roedd y rhaglen ddrafft hefyd yn agored ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Fe'i cyhoeddwyd ar wefannau WEFO a'r Cynulliad Rhanbarthol ar 14 Rhagfyr am gyfnod o wyth wythnos. Mae sylwadau ac awgrymiadau a dderbyniwyd wedi'u hintegreiddio i'r Rhaglen Weithredol fel bo'n briodol. Mae rhestr o'r sefydliadau a wnaeth gyflwyniadau ysgrifenedig ffurfiol wedi'i chynnwys yn Atodiad II.

PENNOD 2

Proffil Rhanbarthol a Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

2.1 Cyflwyniad

Mae rhaglen Iwerddon Cymru yn cynnwys siroedd Caerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion, Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a thri rhanbarth NUTS III yn Iwerddon, sef Dulyn, y Canol-Ddwyrain a'r De-Ddwyrain. Dylid nodi er y gwnaed pob ymdrech i gysoni ystadegau ar gyfer data Cymreig a Gwyddelig, ni fu hyn yn bosibl ym mhob achos oherwydd y gwahaniaeth yn yr ystadegau rhwng y ddwy awdurdodaeth.

Data Economaidd-Gymdeithasol Sylfaenol ar gyfer Rhanbarth Trawsffiniol Cymru/Iwerddon

Tabl 1 – Cyd-destun Daeryddol⁴

Dangosyddion Daeryddol	Rhanbarth trawsffiniol	Ochr Wyddelig	Ochr Gymreig
Poblogaeth (miliynau)	2.827	2.06** est	767,000*** est
Arwynebedd (km sgwâr)	27,400	16,391	11,009
Dwysedd poblogaeth (unigolyn y km sgwâr)	103.2	125.7	69.7
Prif ganolfannau trefol	2	2	0
Nifer sefydliadau addysg uwch	14	10	4

Ffynonellau: Swyddfa Ystadegau Canolog a Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae rhanbarth trawsffiniol Iwerddon Cymru yn ardal gymharol fach wedi'i lleoli ym mhen gogledd orllewinol yr Undeb Ewropeaidd gyda chyfanswm poblogaeth o 2.827 miliwn. Ei phrif nodwedd yw Môr Iwerddon sy'n ymestyn rhwng dwy ran y rhanbarth, Mae rhannau Gwyddelig a Chymreig y rhanbarth yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig, ond mae lleoliad y brif ganolfan drefol, sef Dulyn yn Iwerddon. yn golygu bod dwysedd poblogaeth uwch yn rhan Wyddelig y rhanbarth. Mae'r rhaniad trefol/gwledig yn y rhanbarth, yn gyffredinol, yn cael ei adlewyrchu mewn ardaloedd heterogenus â dwysedd poblogaeth uchel iawn a'r rhai â dwysedd poblogaeth isel iawn. Mae problemau perifferoldeb yn nwy ran yr ardal.

⁴ Allwedd ar gyfer data - 2006* 2005** 2004*** 2003**** 2002*****

	O Gymru i Iwerddon	O Iwerddon i Gymru
Allforion a gludir ar hyd ffyrdd yn ôl gwlad sy'n dadlwytho (tunelli)	Amherthnasol	1,884,469 tunnell**
Mewnforion a gludir ar hyd ffyrdd yn ôl gwlad sy'n dadlwytho (tunelli)	Amherthnasol	1,111,343 tunnell**
Gwerth allforion/mewnforion (£000)	847,351**	126,771**
Nifer unedau yn cyrraedd (ro-ro)	Amherthnasol	743,000 unedau ro-ro***
Symudiadau Teithwyr Môr	3.26 miliwn***	3.23 miliwn***
Cerbydau â Theithwyr	807,000**	807,000***

Tabl 2 – Cyfeintiau Masnach⁵

Ffynonellau: Cymdeithas Allforwyr Iwerddon; Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Ystadegau Trafnidiaeth Cymru

Môr Iwerddon yw'r brif ffordd o groesi rhwng dwy ran y rhanbarth. Yn y porthladdoedd y naill ochr a'r llall i'r rhanbarth mae llawer o nwyddau, gwasanaethau a phobl yn symud yn flynyddol. Er bod llawer o'r fasnach sy'n dod i mewn i Gymru o Iwerddon o bosibl yn mynd i farchnadoedd pellach i ffwrdd mae'n dal i amlygu pwysigrwydd y cysylltiad trawsffiniol.

Tabl 3 – Economi/Gweithlu

Agenda Lisboa/Dangosyddion Economaidd	Rhan Wyddelig y rhanbarth	Rhan Gymreig y rhanbarth
CMC y pen (cyfanswm) ⁶	€39,016*****	£10,022****
Mynegai CMC y pen (gwlad =100)	110	78.8
Cyflogaeth (miloedd)	991.9**	317.8*
Diweithdra (cyfradd)	4.2**	4.2*

⁵ Allwedd - * 2006 data **2005 ***2004 ****2003*****2002

⁶ Ffigur Gwyddelig yn cyfateb i'r wlad yn gyffredinol

Cyfradd cyflogaeth (% y boblogaeth rhwng 15-64(I) 16-/59-64(W))	69.3%**	71.9%*
Cyfradd gweithgarwch (% poblogaeth rhwng 15-64)	72.5%**	75.2*
Cyfradd diweithdra ymysg pobl ifanc	8%*	10.6*
Gadael ysgol yn gynnar	12.9%	13%
Busnesau (y 1000 poblogaeth)	75**	45
Gwariant ar Ymchwil a Datblygiad ⁷ (%CMC)	1.2%***	1.3%****
Cyfanswm Nifer Ymchwilwyr ⁸	13,653****	6,800****
Nifer Cwmnïau Ymchwil a Datblygu ⁹	858****	37% o fusnesau Cymreig wedi'u nodi fel cwmnïau gweithgar arloesol ¹⁰
Hunangyflogedig ¹¹	15.9%*	17%***
Cyflogaeth mewn gwasanaethau	67%*	75.4%****
Cyflogaeth mewn diwydiant	27.3%*	18.4%****
Cyflogaeth mewn amaethyddiaeth	5.7%*	6.3%****

Ffynonellau: Swyddfa Ystadegau Canolog, Forfas, Eurostat a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol Er ei bod yn anodd gwneud honiadau pendant oherwydd y gwahaniaethau yn yr ystadegau sydd ar gael i bob rhan o'r rhanbarth mae'n dal yn rhesymol dod i gasgliadau cyffredinol.

Mae dwy ran y rhanbarth wedi gwneud cynnydd economaidd sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Bu gostyngiad sylweddol mewn diweithdra yn ardal y rhaglen; mae CMC y pen yng Nghymru wedi cynyddu 25 yn y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â'r UE er bod llawer o gynnydd eto i'w wneud. Hefyd bu twf sylweddol fesul blwyddyn yng nghyfraddau CMC y pen yn Iwerddon yn y blynyddoedd diwethaf.

Un nodwedd sy'n gyffredin i'r ddau ranbarth yw bod lefel gwariant ar Ymchwil a Datblygu yn eithaf isel a bod angen ei gynyddu os yw'r rhanbarth am gystadlu'n effeithiol o fewn yr UE a rhoi sylw i heriau Strategaeth Lisboa.

⁷ Mae'r ffigur CMC ar gyfer Iwerddon yn gyffredinol

⁸ Mae'r ffigur a'r sylwadau cysylltiedig yn Iwerddon yn berthnasol i Ranbarth NUTS II y De a'r Dwyrain (data ddim ar gael ar lefel NUTS III).

⁹ Mae'r ffigur yn Iwerddon yn berthnasol i Ranbarth NUTS II y De a'r Dwyrain

¹⁰ Ffynhonnell: Arolwg Arloesedd Cymunedol

¹¹ Mae'r ystadegau cyflogaeth fel canran o gyfanswm poblogaeth

Rhaid i ddwy ran ardal y rhaglen roi sylw i nifer o heriau er mwyn sicrhau bod ei sylfaen Ymchwil a Datblygu o'r safon uchaf. Yn rhanbarth Rhanbarth NUTS II y De a'r Dwyrain mae nifer yr ymchwilwyr fel cyfran o boblogaeth weithgar dros 18% yn uwch na chyfartaledd EU15. Ond mewn agweddau eraill mae'r rhanbarth ymhell ar ôl cyfartaledd yr UE o safbwynt Gwariant ar Ymchwil a Datblygiad fel canran o CMC ar draws yr holl sectorau.

Er hynny nodwyd bod y gwariant ar ymchwil a datblygu wedi cynyddu mewn termau gwirioneddol dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'r cynnydd o ran canran wedi'i guddio gan y lefelau cadarn o dwf economaidd.

Yn rhan Gymreig ardal y rhaglen mae lefel is o wariant ar Ymchwil a Datblygu yn y sector busnes o'i gymharu â rhanbarthau eraill yn y DU (55%) ac mae'n is na tharged Lisboa, sef 67%.

Mae nifer y bobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig ag ymchwil yn ardal y rhaglen yn cynrychioli'n fras 2.1% o gyfanswm poblogaeth yn yr ardal sy'n is na ffigur Cymru gyfan, sef 2.4%, a ffigur y DU, sef 2.3%. Mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd nifer is o ymchwilwyr yn ei Sefydliadau Addysg Uwch fesul 10,000 poblogaeth na ledled Cymru a'r DU yn gyffredinol.

Nodwedd arall o bwys sy'n gyffredin i ddwy ran y rhanbarth yw lefel gadael ysgol yn gynnar ac yn sgil hynny, y gyfradd uwch o ddiweithdra ymysg pobl ifanc sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn nwy ran ardal y rhaglen.

Tabl 4 – Y Defnydd/Gofynion o ran Ynni yn y Rhanbarth Trawsffiniol

Y Defnydd/Gofynion o ran Ynni ¹²	2003 – Iwerddon	2003 - Cymru
Cynhyrchion Olew/Petrolewm	54.1%	44.4%
Nwy Naturiol	24.9%	38%
Glo	12.9%	1.9%
Mawn	5.7%	n/a
Ynni Adnewyddadwy	1.8%	0.5%
Trydan a fewnforir	0.7%	n/a
Trydan	n/a	13.7%
Tanwyddau weithgynhyrchir	n/a	2.3%

Ffynhonnell: Eurostat a'r Adran Masnach a Diwydiant

¹² Diffinnir ffigurau Gwyddelig fel prif ofyniad ynni yn ôl math tanwydd, diffinnir ffigurau Cymreig fel cyfanswm defnydd ynni (domestig, masnachol, cludiant). Mae'r ffigurau ar gyfer Iwerddon yn cynrychioli ardal NUTS II tra bod y ffigurau Cymreig yn cynrychioli Cymru gyfan.

Tabl 5 – Dangosyddion Amgylcheddol yn y Rhanbarth Trawsffiniol

Dangosyddion Amgylcheddol	Rhan Wyddelig y rhanbarth	Rhan Gymreig y rhanbarth
CO2 allyriadau y pen	10.5	3.9 (2003)
Gwastraff Trefol a Gynhyrchir (kg y pen)	869	632 (2005-06)
Gwastraff trefol sy'n cael ei drin mewn safleoedd tirlenwi (kg y pen)	397	460 (2005-06)

Ffynhonnell: Eurostat a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae polisi a chyflenwad ynni'n rhywbeth sydd wedi cynyddu o ran pwysigrwydd yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod mwy o ffocws ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, sydd â chysylltiad agos â Phrotocol Kyoto. Mae'r ffigurau uchod yn dangos y gofynion ynni yn nwy ran y rhanbarth, a'i dibyniaeth ar olew a nwy naturiol.

Mae'r rhanbarth hefyd yn wynebu heriau ynglŷn â'i berfformiad amgylcheddol cyffredinol. Mae'r ffigurau'n dangos bod y rhanbarth yn wynebu heriau mewn perthynas â'i rwymedigaethau o dan brotocol Kyoto yn ogystal â meysydd fel rheoli gwastraff.

2.2 Proffil Rhanbarthol – Crynodeb

Paratowyd dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a demograffig manwl ar gyfer rhan Wyddelig a Chymreig yr Ardal Cydweithredu Tiriogaethol ac mae i'w weld ar www.seregassembly.ie. Nod yr adran hon yw rhoi darlun bras neu grynodedb lefel uchel i roi trosolwg o broffil rhanbarthol y ddwy ardal. Paratowyd proffil y rhanbarth drwy ddefnyddio'r strwythur a gyflwynir yng Nghanllawiau Strategol y Gymuned ar Gydlyniant.

a) Atyniad Rhanbarth Trawsffiniol Iwerddon Cymru

Mae tueddiadau demograffig yn nwy ran y rhanbarth trawsffiniol wedi amrywio rhywfaint yn y blynyddoedd diwethaf. Yn rhan Wyddelig yr ardal mae twf mewn poblogaeth oherwydd cynnydd naturiol ac oherwydd ymfudo net, tra mai ymfudo'n unig sy'n gyfrifol am y twf yn y rhan Gymreig. Un casgliad cadarnhaol yw bod ymfudo net i ddwy ran yr ardal yn tanlinellu atyniad y ddwy ran fel llyfudd i fyw a gweithio. Ochr yn ochr â'r manteision cadarnhaol hyn, fodd bynnag, mae'r heriau polisi sy'n weddill o letya a chymathu niferoedd mawr o ymfudwyr, nifer ohonynt o wahanol ddiwylliannau. Mae dwy ran y rhanbarth trawsffiniol yn wynebu poblogaeth

sy'n heneiddio fwyfwy a'i oblygiadau i wasanaethau cyhoeddus, a'r mater o'u hariannu yn y dyfodol.

Yn y ddwy ardal bu cryn dwf economaidd yn y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig yn is-ranbarthau Dulyn a'r Canol-Ddwyrain. Ond mewn rhai rhannau o ardaloedd Gwyddelig a Chymreig y Rhanbarth mae'r twf economaidd ymhell ar ôl cyfartaledd yr UE a'u priod gyfartaleddau cenedlaethol. O dynnu sylw at y gwahaniaethau sy'n bodoli, mae gan ran Wyddelig y Rhanbarth lefelau sylweddol uwch o CMC y pen o'i gymharu â'r UE a'i gyfartaledd cenedlaethol ei hun, tra bo'r gwrthwyneb yn wir yn rhan Gymreig yr ardal. Er gwaethaf twf nodedig mewn sawl rhan o'r Rhanbarth cysylltiol, mae pocedi sylweddol o dlodi ac amddifadedd o hyd, mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae perifferoldeb parhaus rhai rhannau o'r Rhanbarth cysylltiol, a chysylltiadau gwael at wasanaethau angenrheidiol ar ben hynny, wedi gwaethygu ymhellach y lefelau hyn o amddifadedd. Mae gan y rhanbarth fodd bynnag nifer o gysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol sydd wedi helpu i greu rhywfaint o ddiddordeb cyffredin rhyngddynt o fewn yr Undeb Ewropeaidd ehangach.

Y nodwedd ffisegol amlwg yn y rhanbarth trawsffiniol yw Môr Iwerddon. O ganlyniad, mae cysylltiadau ffisegol rhwng dwy ran yr Ardal naill ai dros y môr neu drwy'r awyr, y naill a'r llall wedi datblygu'n dda a hynny ers peth amser. Mae cysylltiadau hanesyddol, cymdeithasol a diwylliannol cryf rhwng rhannau Cymreig a Gwyddelig yr ardal wedi'u hatgyfnerthu gan y cysylltiadau cludiant ffisegol hyn. Gwnaed buddsoddiad sylweddol i uwchraddio seilwaith ffyrdd yn nwy ran yr ardal yn y blynyddoedd diwethaf ond mae angen cynnydd pellach sylweddol yn y ddwy ardal er mwyn cyfateb i safonau cyfartalog yr UE, cynnydd yn lefel yr hygyrchedd a lefel cyswllt rhwng dwy ran y rhanbarth a hefyd o fewn yr UE ehangach.

Mae polisiâu ar yr amgylchedd yn nwy ran y rhanbarth trawsffiniol yn tanlinellu pwysigrwydd ystyriaethau amgylcheddol o safbwynt yr economi ac ansawdd bywyd. Mae gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yn dal yn flaenoriaeth uchel yn y ddwy awdurdodaeth. Mae'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy'n dal yn isel o'i gymharu â ffynonellau ynni eraill yn nwy ran y rhanbarth trawsffiniol, ond yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r ganran yn un o'r rhai uchaf ymysg rhanbarthau'r DU. Mae polisi'r Llywodraeth yn y ddwy awdurdodaeth wedi rhoi blaenoriaeth i gynyddu'n sylweddol y defnydd o ynni adnewyddadwy mewn ymgais i gyrraedd eu targedau Kyoto. Mae dwy ran y rhanbarth trawsffiniol yn dibynnu'n fawr ar fewnforio ynni, ac o ystyried natur gyfnewidiol ac ansicrwydd marchnadoedd ynni rhyngwladol, mae hynny'n cynyddu eu natur fregus yn economaidd. Mae hefyd yn rheswm pellach dros eu pwyslais ar gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

Gan fod nifer o ardaloedd gwledig yn y rhanbarth trawsffiniol, mae pryder ynglŷn â materion amgylcheddol gwledig, gan gynnwys afonydd, llynnoedd,

cynefinoedd bywyd gwyllt naturiol, rheoli gwastraff ac ati, yn flaenoriaeth uchel o ran polisi, ac adlewyrchir hyn mewn nifer o wahanol fesurau yn y ddwy awdurdodaeth er mwyn diogelu'r nodweddion a'r meysydd hyn. O blith y rhain, mae lefelau cynyddol gwastraff trefol a'r effaith ar yr amgylchedd wedi datblygu'n broblemau sy'n destun pryder cyhoeddus yn y blynyddoedd diwethaf. Mae pwysau i newid gan y ddau awdurdod rheoleiddio a'r cyhoedd ehangach, sy'n gynyddol bryderus ynglŷn â materion yn ymwneud ag ansawdd bywyd yn ardal y rhaglen.

b) Arloesedd, entrepreneuriaeth a thwf yr economi wybodaeth yn Iwerddon a Chymru

Bu twf sylweddol mewn cyflogaeth mewn diwydiannau uwch-dechnoleg, yn bennaf ar ochr Wyddelig y rhanbarth. Ond mae dwy ran y rhanbarth trawsffiniol yn wynebu heriau tebyg o safbwynt maes cyfan ymchwil, datblygiad technolegol ac arloesedd. Tra bu cynnydd mewn cyflawniadau addysgol ar ddwy ochr y ffin nid oes cynnydd cyfatebol mewn gweithgarwch Ymchwil a Datblygu, yn arbennig ymysg cwmnïau cynhenid. O ran gwariant ar Ymchwil a Datblygu gan BBaChau, mae perfformiad Cymru ac Iwerddon yn gymharol wael o'i gymharu ag economïau datblygedig eraill, ac mae angen gwella llawer os yw'r rhanbarth am geisio cyrraedd y targedau a nodir o dan Agenda Lisboa.

Yn gysylltiedig â hyn mae'r ddwy wlad yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd hybu diwylliant o entrepreneuriaeth a hwyluso'r broses o ddatblygu busnesau arloesol â photensial twf uchel. Bu twf sylweddol fesul blwyddyn mewn busnesau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn Iwerddon yn gyffredinol hyd at 2004 (hyd at 15%) tra bod lefel busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yng Nghymru ychydig yn is na chyfartaledd y DU. Ond pan fo hyn yn cael ei ddadansoddi'n wahanol sectorau, mae'n glir bod llawer o gynnydd i'w wneud i gynyddu lefel busnesau gwasanaeth arloesol, ym mhen ucha'r farchnad yn ardal y rhaglen. Tra bod amaethyddiaeth, cynhyrchu a gweinyddu cyhoeddus wedi'u gorgynrychioli i raddau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae maes busnes a gwasanaethau ariannol wedi'u tangynrychioli. Yn Iwerddon mae amgylchedd gwahanol ond mae heriau er hynny. Er y bu cynnydd clir yn nifer y cofrestradau ar gyfer TAW gan gwmnïau technoleg gwybodaeth (hyd at 12%) bu cynnydd llawer mwy yn y sectorau adeiladu ac eiddo (hyd at 25% a 40%).

O ran seilwaith band eang, mae cyfraddau sy'n ei ddefnyddio'n isel mewn sawl rhan o'r ddwy ardal, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ac ymysg BBaChau. Mae hyn yn arbennig o bryderus o ystyried bod y cyfraddau sy'n defnyddio band eang yng Nghymru ac Iwerddon yn isel o'u cymharu â gwledydd eraill yn yr UE, gan gynnwys nifer o'r Aelod-wladwriaethau newydd. Gan gydnabod y rôl hanfodol sydd gan Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i'w chwarae o ran y gallu i gystadlu ac er mwyn cyflawni amcanion Lisboa, mae polisi llywodraeth yn y ddwy awdurdodaeth wedi

canolbwyntio ar gynyddu nifer y rhai sy'n ei ddefnyddio a mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti. Mae camau penodol gan y llywodraeth yn lwerddon wedi canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ardal fetropolitan sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth band eang i rannau o'r wlad sydd heb fynediad ato.

c) Creu mwy o swyddi a gwell swyddi yn lwerddon a Chymru

Mae amodau'r farchnad waith yn gyffredinol ar draws y rhanbarth trawsffiniol wedi bod yn gadarnhaol yn y blynyddoedd diwethaf. Bu twf sylweddol iawn mewn cyflogaeth yn yr is-ranbarth Gwyddelig (yn arbennig Dilyn a'r Canol-Ddwyrain). Er nad yw mor fywiog â'r rhanbarthau Gwyddelig, mae twf diweddar mewn cyflogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd wedi bod yn arbennig yn y blynyddoedd diwethaf. Bu cynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth y sector gwasanaethau yn nwy ran y rhanbarth trawsffiniol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfraddau diweithdra yn rhan Wyddelig a Chymreig yr Ardal wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf ac maent yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau diweithdra cyfartalog yr UE.

Mae'r angen i roi sylw i ddiffygion sgiliau'r farchnad waith yn cael ei gydnabod yn nwy ran yr ardal, wrth i'w heconomïau wynebu'r heriau o fodloni amcanion Lisboa o safbwynt yr economi wybodaeth ac arloesedd. Er bod gan Ddilyn a'r Canol-Ddwyrain gyfradd gymharol uchel o swyddi sy'n ychwanegu gwerth sylweddol, mae gan rannau eraill o'r ddwy ardal ddiffygion yn y sector hwn. O ganlyniad mae'r rhanbarth yn wynebu problemau difrifol i wella proffil sgiliau gweithwyr gan fod tueddiadau wedi dangos bod y galw am bobl â sgiliau isel yn gostwng yn barhaus. Ategir hyn gan yr ystadegau diweithdra uwch ar gyfer y rhai â sgiliau is.

Yn yr un modd, mae sylfaen Ymchwil a Datblygiad ac arloesedd dwy ran yr ardal ymhell ar ôl cyfartaledd yr UE. Mae cyflogaeth gweithgynhyrchu sy'n cynhyrchu nwyddau sy'n ychwanegu gwerth isel yn dal yn amlwg iawn yn y rhanbarth, ac mae'r sector hwn o dan bwysau cynyddol gan economïau â sylfaen cost is. Un o'r ffactorau allweddol i greu mwy o swyddi a gwell swyddi fydd datblygu swyddogaethau hanfodol mewn sefydliadau fel Ymchwil a Datblygu sy'n dibynnu ar raddedigion prifysgol ag addysg dda, sydd heb fod mor sensitif o ran cost â llinellau cynhyrchu uniongyrchol. Gellir cynorthwyo hyn ymhellach drwy greu mwy o gysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch a phellach y rhanbarth a diwydiant, rhai cynhenid ac aml genedlaethol.

2.3 CRYFDERAU, GWENDIDAU, CYFLEOEDD A BYGYTHIADAU RHANBARTHOL

Paratowyd dadansoddiadau Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) manwl ar gyfer rhannau cyfansoddol y rhanbarth trawsffiniol a bu'n fan cychwyn ar gyfer datblygu dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau trawsffiniol. Gellir eu gweld yn adran lwerddon Cymru o www.seregassembly.ie.

Y dadansoddiadau Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau unigol oedd sail y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau trawsffiniol, a'i nod yw crynhoi prif nodweddion y rhanbarth trawsffiniol, yr hyn sy'n gyffredin rhyngom a beth all fod yn rhan o'r strategaeth ddatblygu ar y cyd ar gyfer y rhanbarth.

Cryfderau

- Amgylchedd naturiol o ansawdd uchel mewn sawl rhan o'r rhanbarth trawsffiniol sy'n atyniadol i unigolion a buddsoddwyr.
- Twf cadarn mewn poblogaeth yn nwy ran y rhanbarth trawsffiniol, a hynny'n bennaf yn sgil ymfudo net.
- Marchnad waith gref Cymru yn ardal y rhaglen wedi'i nodweddu gan gynnydd mewn lefelau cyflogaeth a gostyngiad mewn lefelau diweithdra, er bod lefelau anweithgarwch yn dal yn uchel yng Nghymru.
- Lefelau isel o amddifadedd cyffredinol, er bod rhai pocedi o amddifadedd yn bodoli mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Gwendidau

- Sylfaen Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Thechnoleg gwan o ystyried economi mwy aeddfed, gyda dwy ran y rhanbarth yn dal yn is na chyfartaledd yr UE o safbwynt y rhan fwyaf o ddangosyddion Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Thechnoleg a buddsoddiad isel cysylltiedig yn y maes hwn.
- Heriau ar y cyd o ran addysg a hyfforddiant. Mae angen sicrhau bod cymaint â phosibl o bobl yn cwblhau addysg ail lefel, gwella proffil sgiliau pobl yn y ddwy wlad a chael dull â mwy o ffocws o ran addysg gydol oes.
- Heriau ar y cyd o ran datblygu seilwaith, mae bylchau'n dod i'r amlwg mewn seilwaith yn Iwerddon lle mai buddsoddiad prin yn dal i fyny â lefel twf economaidd, tra bod yr her yng Nghymru'n ymwneud mwy â goresgyn perifferoldeb.
- Heriau ar y cyd o ran cael mynediad at wasanaethau rhynggrwyd cyflymder uchel mewn ardaloedd mwy anghysbell. Tanlinellir hyn gan yr angen am ymyrraeth sector cyhoeddus ar ddwy ochr y rhanbarth trawsffiniol.
- Mae anghydbwysedd clir o fewn y rhanbarth trawsffiniol, er enghraifft gellir cyferbynnu llwyddiant economaidd a gorddatblygu cysylltiedig ardal Dulyn â'r rhan Gymreig o'r rhanbarth sy'n wledig ac ar y cyrion o'i gymharu â gweddill Cymru.
- Mae dwy ran y rhanbarth yn wynebu heriau pwysig er mwyn cyflawni rhwymedigaethau Kyoto a delio â phroblemau ehangach newid yn yr hinsawdd.
- Mae'r rhanbarth yn rhannu ffin forol ac yn wynebu heriau cyffredin o ran meysydd fel ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a phwysau ar yr amgylchedd yn sgil datblygu mewn ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol ymysg materion eraill.

Cyfleoedd

- Potensial i fusnesau gydweithio drwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol a allai arwain at welliannau mewn cynhyrchiant.
- Hybu diwylliant o entrepreneuriaeth a hwyluso'r broses o ddatblygu busnesau arloesol.
- Manteisio i'r eithaf ar fanteision economaidd posibl yn sgil gweithwyr mudol o wladwriaethau sydd wedi'u derbyn.
- Adeiladu ar rwydweithiau sydd wedi'u sefydlu gyda sefydliadau addysg uwch a phellach a BBaChau.
- Gwella proffil sgiliau'r gweithle er mwyn ymateb i heriau globaleiddio ac anghenion Agenda Lisboa.
- Rheoli yr amgylchedd naturiol ac asedau mforol sy'n nodwedd allweddol o'r rhanbarth trawsffiniol ar y cyd.
- Cydweithio i godi ymwybyddiaeth o effaith newid yn yr hinsawdd ar y rhanbarth trawsffiniol.
- Adeiladu ar fesurau ar y cyd sy'n cysylltu addysg a'r gweithle
- Hyrwyddo datblygu economaidd cymunedol, cyfnewid cymunedol ac arfer da, er enghraifft adeiladu ar gydweithio mewn mesurau amgylcheddol ac ynni adnewyddadwy dan arweiniad y gymuned.
- Adeiladu ar weithgaredd yn rhaglen 2000-2006 sydd wedi dangos y potensial ar gyfer cyfnewid cymunedol mewn nifer o wahanol feysydd.

Bygythiadau

- Dirywiad rhyngwladol posibl ym mherfformiad economaidd marchnadoedd allweddol, ac yn arbennig, bygythiad tymor-canolog strwythurau presennol anghynaliadwy economi'r UD.
- Bygythiadau cyffredin i ardal y rhaglen yn sgil newid yn yr hinsawdd fel lefel y môr ac afonydd yn codi, mwy o lifogydd a cholli bioamrywiaeth.
- Ffocws annigonol ar warchod yr amgylchedd, yn ei holl agweddau, a pherygl o golli mantais draddodiadol.
- Nodir bod galw is am unigolion â sgiliau isel yn un o'r prif achosion dros anweithgarwch economaidd uwch ar draws y byd datblygedig. Os na roddir sylw digonol i hyn drwy raglenni addysg a hyfforddiant addas bydd hyn yn arwain at lefelau uwch o broblemau cymdeithasol.
- Gallai poblogaeth sy'n heneiddio arwain at gyfradd gymharol is o unigolion o oed gweithio (cymhareb dibyniaeth uwch) a mwy o bwysau ar nifer o wasanaethau cyhoeddus. Ond gallai tueddiadau ymfudo arafu hyn.

2.4 Casgliad

Mae proffil ar y cyd y rhanbarth trawsffiniol yn darparu cyflwyniad addas ac fe'i hategir gan broffil rhanbarthol manwl sydd ar gael yn adran Iwerddon Cymru ar www.seregassembly.ie. Yn ychwanegol at hyn, mae'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar y cyd yn rhoi darlun clir o'r problemau sy'n ynebu'r rhanbarth trawsffiniol.

Mae'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar y cyd yn nodi'n glir bod y rhanbarth yn wynebu nifer o heriau ar y cyd os yw am ffynnu yn yr 21^{ain} ganrif a llwyddo i roi sylw i'r hyn a nodir yn agenda Lisboa a Gothenburg. Mae'r bennod nesaf yn manylu ymhellach ar hyn, a bydd yn helpu i hysbysu'r strategaeth ddatblygu ar gyfer y rhanbarth trawsffiniol.

PENNOD 3

Cyd-destun Polisi a Strategaeth Ddatblygu'r Rhaglen

Bydd y bennod hon yn amlinellu'r strategaeth ddatblygu ar gyfer ardal y rhaglen. Bydd yn seiliedig ar nifer o ffactorau allweddol fel y dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar y cyd fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol. Bydd yn ystyried yn llawn y cyd-destun polisi ar lefel UE a chenedlaethol i Gymru ac Iwerddon yn y DU a amlinellir yn y bennod hon. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r uchod a sut mae'n uniongyrchol berthnasol i ardal y rhaglen, y nod yw amlinellu strategaeth ddatblygu fydd yn sail i'r blaenoriaethau strategol a ddylai arwain datblygiad y rhanbarth ac yn ffocws canolog i'r rhaglen hon.

3.1 Canlyniadau'r Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau – Nodi heriau cyffredin sy'n wynebu Ardal y Rhaglen

Mae'r dadansoddiad rhanbarthol a'r gyfres o ddadansoddiadau Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau wedi helpu i nodi cyfres o heriau cyffredin sy'n wynebu'r rhanbarth trawsffiniol. Mae rhai o'r heriau'n lleol eu natur ac yn fwy addas i ymyrraeth leol; mae rhai materion yn fwy trawsffiniol eu natur a gellid delio â hwy'n fwy effeithiol ar lefel leol oherwydd amryw o ffactorau. Yn olaf mae yna faterion sy'n amlwg yn drawsffiniol eu natur a gellir delio â hwy'n effeithiol drwy ymyrraeth drawsffiniol.

Her Gyffredin	Lefel Ymyrraeth
<p>Sylfaen Ymchwil a Datblygu – Mae dwy ran y rhanbarth yn dal yn ymhell ar ôl cyfartaledd yr UE o ran y rhan fwyaf o ddangosyddion Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Thechnoleg ac Arloesedd gan gynnwys lefel isel o fuddsoddiad yn y maes hwn.</p>	<p>Cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer ymyrraeth gadarnhaol ar lefel drawsffiniol. Mae rhaglen 2000-2006 wedi dangos y gall cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch a phellach gael effaith gadarnhaol. Gallai meysydd posibl ar gyfer cydweithio gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhannu arbenigedd wrth ddatblygu cynhyrchion a systemau newydd • Hwyluso'r broses o drosglwyddo technoleg i BBaChau ar draws y rhanbarth
<p>Menter - Hybu diwylliant o entrepreneuriaeth a hwyluso'r broses o</p>	<p>Cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer ymyrraeth gadarnhaol ar lefel</p>

<p>ddatblygu busnesau arloesol. Mae ystadegau'n dangos bod Cymru'n cael ei thangynrychioli mewn sectorau allweddol tra bod her i ddatblygu busnesau arloesol yn lwerddon hefyd.</p>	<p>drawsffiniol. Tra bod cynlluniau cefnogi mentrau'n bodoli yn genedlaethol; gallai cyfuno cryfder a gwybodaeth y ddwy wlad sicrhau gwerth ychwanegol drwy fentrau posibl fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynlluniau trawsffiniol ar gyfer lleoli graddedigion mewn BBaChau • Datblygu clystyrau ffisegol neu rithiol • Datblygu busnesau mewn meysydd fel twristiaeth a'r sector creadigol/artistig
<p>Addysg a Hyfforddiant - Mae angen i ddwy ran y rhanbarth wella proffil sgiliau ei weithlu, rhoi sylw i'r bylchau mewn sgiliau, a chael dull â mwy o ffocws o ran dysgu gydol oes mewn ymateb i heriau globaleiddio ac anghenion Agenda Lisboa.</p>	<p>Cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer ymyrraeth gadarnhaol ar lefel drawsffiniol, yn arbennig o safbwynt cydweithio mewn sgiliau lefel uwch. Gallai cronni adnoddau ac arbenigedd sicrhau gwerth ychwanegol gyda mentrau posibl fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hybu dysgu am fentrau mewn ysgolion ac addysg uwch a phellach • Dulliau arloesol i wella sgiliau mewn sectorau allweddol a rhoi sylw i fylchau mewn sgiliau sy'n gyffredin i'r rhanbarth trawsffiniol
<p>Seilwaith - Mae dwy ran y rhanbarth yn dioddef o ddiffygion seilwaith. Yn rhan Wyddelig y rhanbarth prin y mae'r ddarpariaeth seilwaith yn dal i fyny â chyfradd datblygiad tra bod y rhan Gymreig yn wynebu heriau mewn perthynas â pherifferoldeb.</p>	<p>Gellir rhoi sylw mwy effeithiol i hyn ar lefel genedlaethol. Mae rhaglenni ariannu strwythurol 2000-2006 wedi dangos hyn. Hefyd nid yw'r adnoddau'n ddigon helaeth o dan y rhaglen hon i gael effaith effeithiol.</p>
<p>Darparu band eang a mynediad ato – Mae angen darparu mynediad cyffredinol at ryngrwyd cyflymder uchel sy'n hanfodol i ddatblygiad yr economi wybodaeth. Mae ymyrraeth gwasanaethau cyhoeddus ar ddwy ochr y ffin yn dangos hyn.</p>	<p>Gellir rhoi sylw mwy effeithiol i hyn ar lefel genedlaethol. Mae cynlluniau eisoes wedi'u sefydlu yn ardal y rhaglen fel y disgrifir yn y proffil rhanbarthol.</p>
<p>Amddifadedd Cymdeithasol – Mae pocedi o amddifadedd yn dal i fodoli yn ardal y rhaglen.</p>	<p>Gellir rhoi sylw mwy effeithiol i hyn ar lefel genedlaethol. Mae mentrau eisoes wedi'u sefydlu yn nwy ran y rhanbarth.</p>

	<p>Ond gellir sicrhau gwerth ychwanegol trawsffiniol trwy sefydlu mesurau i roi sylw i bryderon cyffredin ynglŷn ag eithrio cymdeithasol ac adfywio. Gellir cyflawni hyn drwy drosglwyddo gwybodaeth a rhannu arfer gorau er mwyn sicrhau manteision sylweddol i'r rhanbarth.</p>
<p>Datblygiad Cymunedol – Mae rhaglen 2000-2006 wedi dangos y potensial ar gyfer cyfnewid cymunedol mewn amryw o wahanol feysydd ac mae'n rhywbeth y gellir adeiladu arno i'r dyfodol.</p>	<p>Cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth effeithiol ar lefel drawsffiniol ynglŷn â mater o bryder cyffredin a chyfleoedd i ddatblygu mewn meysydd fel twristiaeth, cyfnewid diwylliannol a gwarchod yr amgylchedd sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar ardaloedd lleol o safbwynt cymdeithasol ac economaidd.</p>
<p>Newid yn yr Hinsawdd - Mae dwy ran y rhanbarth yn wynebu heriau pwysig a chyffredin er mwyn cyflawni rhwymedigaethau Kyoto a delio ag effeithiau ehangach newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>Cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth effeithiol ar lefel drawsffiniol o safbwynt yr her o newid yn yr hinsawdd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu cynhyrchion ynni carbon isel¹³ • datblygu a chyflwyno/arddangos technolegau ynni adnewyddadwy • datblygu strategaethau priodol ar sail tystiolaeth y gellir eu haddasu i greu cyfleoedd newydd yn hytrach na chael effaith negyddol.
<p>Ymwybyddiaeth Amgylcheddol – Mae'r rhanbarth yn rhannu ffin forol ac yn wynebu heriau cyffredin mewn meysydd fel ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a phwysau ar yr amgylchedd yn sgil datblygiad mewn ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol.</p>	<p>Cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth effeithiol ar lefel drawsffiniol i hybu datblygiad adnoddau cynaliadwy er budd cymunedau lleol, ac i ychwanegu gwerth atynt, ac i warchod a hybu'r amgylchedd naturiol.</p>
<p>Anghydbwysedd rhyng-ranbarthol - Mae anghydbwysedd clir o fewn pob rhan o'r rhanbarth, er enghraifft</p>	<p>Gellir rhoi sylw mwy effeithiol i hyn ar lefel genedlaethol. Nid yw'r ffaith bod ffin forol yn golygu y bydd yn anodd</p>

¹³ Mae Adroddiad Stern UK (2006) yn awgrymu bod y farchnad fyd-eang ar gyfer cynhyrchion ynni carbon-isel yn debygol o fod yn werth o leiaf \$500 biliwn y flwyddyn erbyn 2050.

<p>gorddatblygu a llwyddiant economaidd ardal Dilyn tra bod y rhan Gymreig yn amlwg yn wledig ac ar y cyrion o'i chymharu â gweddill Cymru.</p>	<p>delio'n llwyddiannus â'r mater hwn, er, drwy gydweithredu mae rhai mesurau y gellir eu cymryd fel y gall y rhanbarthau elwa ar gryfderau economaidd y naill a'r llall gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd.</p>
---	--

3.2 Cyd-destun Polisi

Ar ôl nodi'r heriau cyffredin sy'n wynebu'r rhanbarth trawsffiniol mae angen edrych ar y cyd-destun polisi ar lefel UE a chenedlaethol er mwyn darparu'r cyd-destun ar gyfer y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y rhaglen ac i sicrhau y bydd y strategaeth a ddatblygir yn cydymffurfio'n llawn â pholisïau a strategaethau'r UE yn ogystal â pholisïau cenedlaethol.

3.2.1 Y Cyd-destun Polisi Ewropeaidd

Polisi Cydlyniant ar gyfer 2007 – 2013

Dull strategol y Comisiwn yw sicrhau bod y polisi cydlyniant yn cyfrannu at flaenoriaethau Cymunedol eraill. I'r perwyl hwnnw, cyflwynodd Ganllawiau Strategol y Gymuned drafft ar Gydlyniant i'w mabwysiadu gan y Cyngor. O dan y Rheoliadau a fabwysiadwyd gan y Cyngor, mae polisi Cydlyniant i'w weithredu drwy dri amcan. Yr hyn sy'n berthnasol i'r Rhaglen hon yw bod y Fenter Gymunedol INTERREG flaenorol wedi'i phrif ffrydio a'i bod bellach o dan yr Amcan Cydweithredu Tiriogaethol newydd. Y nod yw cryfhau cydweithredu trawsffiniol drwy fentrau lleol a rhanbarthol ar y cyd, yn ogystal â hybu cydweithredu rhyng-ranbarthol a thrawsgenedlaethol.

O dan y strwythurau polisi Cydlyniant newydd bydd cyllid yn canolbwyntio ar weithredu polisïau Cymunedol - Lisboa, Gothenburg a'r Strategaeth Cyflogaeth Ewropeaidd - gyda ffocws arbennig ar arloesedd a'r economi wybodaeth, yr amgylchedd ac atal risg, cynyddu gallu gweithwyr i ymgyfaddasu a mentrau, a hybu mynediad at gyflogaeth.

Strategaeth Lisboa¹⁴

Ar 2 Chwefror 2005, cynigiodd y Comisiwn ddechrau newydd ar gyfer **Strategaeth Lisboa** gan ganolbwyntio ymdrechion yr Undeb Ewropeaidd ar ddwy brif dasg – sicrhau twf cryfach, fyddai'n para, a chreu mwy o swyddi a gwell swyddi. Rhoddodd Cyngor Ewropeaidd Mawrth 2005, yn ogystal â Senedd Ewrop a'r partneriaid cymdeithasol Ewropeaidd, gefnogaeth lawn i gynnig y Comisiwn i ail-lansio ac addasu Strategaeth Lisboa.

Nod partneriaeth Lisboa ar gyfer twf a chyflogaeth yw moderneiddio economi'r UE er mwyn sicrhau model cymdeithasol unigryw'r UE yn wyneb marchnadoedd

¹⁴ Common Actions for Growth and Employment - The Community Lisbon Programme

byd-eang cynyddol, newid technolegol, pwysau amgylcheddol, a phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r strategaeth hon hefyd i'w hystyried yng nghyd-destun ehangach y gofyniad datblygiad cynaliadwy, sef bod yn rhaid bodloni gofynion presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Prif flaenoriaethau Lisboa yw :

- Gwybodaeth ac arloesedd ar gyfer twf
- Gwneud Ewrop yn lle mwy deniadol i fuddsoddi a gweithio ynddo
- Creu mwy o swyddi a gwell swyddi

Strategaeth Gothenburg

Cwblhaodd Cyngor Ewropeaidd Gothenburg ym Mehefin 2001 strategaeth Lisboa drwy ychwanegu dimensiwn amgylcheddol. Diffiniwyd datblygiad cynaliadwy fel bodloni anghenion y genhedlaeth bresennol heb gyfaddawdu ar rai cenedlaethau'r dyfodol, a delio â pholisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mewn modd sy'n cefnogi'r naill a'r llall. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, sicrhau cludiant cynaliadwy, rhoi sylw i fygythiadau i iechyd cyhoeddus, rheoli adnoddau naturiol yn fwy cyfrifol ac integreiddio polisi amgylcheddol i bolisïau Cymunedol eraill.

Canllawiau Cymunedol Strategol

Mae'r Rheoliad Cyffredinol¹⁵ yn cynnwys darpariaeth i Gyngor fabwysiadu dogfen Ganllawiau Strategol drosfwaol. Cytunodd y Cyngor Ewropeaidd ar hyn ar 6 Hydref 2006. Nod hyn yw darparu fframwaith i Aelod-wladwriaethau er mwyn gallu dadansoddi rhaglenni buddsoddi cenedlaethol a rhanbarthol a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol a Chydlyniant yn ôl y cyfraniad a wneir ganddynt i amcanion Lisboa a Gothenburg, gan ganiatáu i Aelod-wladwriaethau lunio rhaglenni mewn modd sy'n adlewyrchu sefyllfaoedd rhanbarthol a lleol.

Mae'r canllawiau strategol yn amlinellu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y cyfnod 2007-2013. Nod y rhain yw hybu ac annog arloesedd, yr economi wybodaeth, menter, ymchwil a datblygiad, a TGCh. O dan y canllawiau strategol, nod y Polisi Cydlyniant yw cefnogi'r cam o greu mwy o gyflogaeth o ansawdd gwell, a buddsoddi mewn lefel sgiliau a gallu gweithwyr a busnesau i addasu. Bydd hefyd yn cefnogi'r dasg o wella atyniad Aelod-wladwriaethau a'u rhanbarthau er mwyn gwella hygyrchedd ac ansawdd a lefel gwasanaethau ar gael i'w dinasyddion.

Mae'r canllawiau strategol yn amlinellu'r angen i Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau ganolbwyntio ar dair o flaenoriaethau er mwyn asesu cyfraniad rhaglen i amcanion Strategaeth Lisboa. Y tair blaenoriaeth yw ¹⁶:

- Gwella atyniad Aelod-wladwriaethau, rhanbarthau a dinasoedd drwy wella hygyrchedd, sicrhau bod ansawdd a lefel gwasanaethau'n ddigonol a chadw'r amgylchedd,

¹⁵ RHEOLIAD EC Rhif 1083/2006 o Senedd Ewrop a'r Cyngor

¹⁶ Canllawiau Strategol y Gymuned tudalen 14.

- Annog arloesedd, entrepreneuriaeth a thwf yr economi wybodaeth drwy gapasiti ymchwil ac arloesedd, yn cynnwys technolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd,
- Creu mwy o swyddi a gwell swyddi drwy ddenu mwy o bobl i gyflogaeth neu weithgarwch entrepreneuriaidd, gwella gallu gweithwyr a mentrau i addasu a chynyddu buddsoddiad mewn pobl.

O safbwynt cydweithredu trawsffiniol yn benodol, mae'r canllawiau strategol yn nodi mai *"the ultimate objective of cross-border cooperation in Europe is to integrate areas divided by national borders that face common problems requiring common solutions."* Mae'r Canllawiau hefyd yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio'r cymorth ar y prif flaenoriaethau i gefnogi twf a chreu swyddi. Drwy wneud hyn dylai'r cydweithredu ganolbwyntio ar gryfhau'r gallu'r rhanbarth ffiniol i gystadlu ac ar leihau gwahaniaethau economaidd a chymdeithasol.

Y Fframwaith Rheoleiddio

Ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru rhaid i ymyriadau'r ERDF fod yn gyson â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr Amcan Cydweithredu Tiriogaethol. Fel y nodir yn Erthygl 6 o Reoliad ERDF, bydd yr ERDF yn canolbwyntio'i chymorth ar y blaenoriaethau canlynol:

'datblygu gweithgareddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol trawsffiniol drwy strategaethau ar y cyd ar gyfer datblygiad tiriogaethol cynaliadwy, ac yn bennaf:

- a) trwy annog entrepreneuriaeth, yn arbennig datblygu BBaChau, twristiaeth, diwylliant a masnach drawsffiniol;*
- b) trwy annog a gwella'r dasg o ddiogelu a rheoli ar y cyd adnoddau naturiol a diwylliannol yn ogystal ag atal risgiau naturiol a thechnolegol;*
- c) trwy gefnogi cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a gwledig;*
- d) trwy leihau arwahanrwydd drwy well mynediad at gludiant, gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu a gwybodaeth, a systemau a chyfleusterau dŵr, gwastraff ac ynni trawsffiniol;*
- e) trwy ddatblygu cydweithio, capasiti a chyd-ddefnyddio seilweithiau yn arbennig mewn sectorau fel iechyd, diwylliant, twristiaeth ac addysg.*

Hefyd, gall yr ERDF gyfrannu at hybu cydweithredu cyfreithiol a gweinyddol, integreiddio marchnadoedd llafur trawsffiniol, mentrau cyflogaeth lleol, cyfleoedd cyfartal a chydraddoldeb rhywiol, hyfforddiant a chynhwysiant cymdeithasol, a rhannu adnoddau dynol a chyfleusterau ar gyfer Ymchwil a Datblygiad Technolegol".

Mewn gwirionedd mae'r meysydd thematig uchod yn darparu'r templed i'r Aelod-wladwriaethau a'r Rhanbarthau allu creu eu Rhaglenni Gweithredol eu hunain yn seiliedig ar eu hanghenion penodol eu hunain.

Persbectif Ariannol UE 2007-2013

Daeth y Cyngor Ewropeaidd i gytundeb yn Rhagfyr 2005 ar Bersbectifau Ariannol 2007 - 2013. Roedd y cytundeb hwn yn cynnwys y swm ariannol cyffredinol gan yr UE ar gyfer polisi Cydlyniant ac yn nodi sut byddai'n cael ei ddosbarthu rhwng yr amcanion a ddiffiniwyd o'r newydd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol. O ganlyniad, paratodd y Comisiwn ddyraniadau ariannol dangosol i'r holl Aelod-wladwriaethau ar gyfer rhaglennu camau Polisi Cydlyniant. Cyfanswm y dyraniadau ar gyfer Iwerddon yw €901 miliwn, ac mae €85 miliwn o'r swm hwnnw wedi'i neilltuo ar gyfer yr Amcan Cydweithredu Tiriogaethol fydd yn cael ei rannu rhwng y meysydd Ffiniol a Thrawsgenedlaethol. Yn y DU, dyrennir €563m i Gydweithredu Tiriogaethol.

Yn dilyn trafodaethau Awdurdodau Cenedlaethol y DU ac Iwerddon ar ddyraniadau dangosol i raglenni, y canlyniad yw dyrannu cyllideb o tua €52 miliwn o ERDF ar gyfer Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-13 sy'n debyg i swm rhaglen 2000-2006.

Ar gyfer y Rhaglen Weithredol, y brif ystyriaeth yw a ddylid canolbwyntio'r arian cyfyngedig iawn sydd ar gael ar nifer cyfyngedig iawn o gamau er mwyn sicrhau canlyniadau gwahaniaethadwy yn y meysydd a ddewiswyd. Neu o ystyried diddordebau cyfreithiol a phryderon buddiolwyr posibl, ac yn wir, ddarpariaethau'r rheoliadau llywodraethu a'r cwestiynau a godwyd gan wasanaethau'r Comisiwn yn ystod y deialog a fu tra bod y Fframweithiau Cyfeirio Strategol Cenedlaethol yn cael eu paratoi, a ddylid defnyddio'r arian sydd ar gael i gefnogi ystod ehangach o weithgareddau. Hefyd mae ystyriaethau megis maint a disgwyliadau ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni ar y lefel gyllidol hon yn codi.

3.2.2 Cyd-destunau Polisi Cenedlaethol

Fframweithiau Cyfeirio Strategol Cenedlaethol

Mae'n ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth baratoi Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol fel offeryn cyfeirio ar gyfer paratoi'r rhaglenni gweithredol ar gyfer y cyfnod 2007-2013. Mae'r rheoliadau'n nodi bod y ddogfen Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol yn amlinellu cyfeiriad strategol y Cronfeydd Strwythurol, y cysylltiad rhwng blaenoriaethau Cymunedol a pholisïau cenedlaethol a rhanbarthol, a'r themâu blaenoriaeth a ddewiswyd i dderbyn cymorth gan y cronfeydd. Ar sail hynny y paratowyd y Rhaglen Weithredol hon.

IWERDDON - Mae'r Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol, a baratowyd gan yr Adran Gyllid, yn amlinellu'r strategaeth ar gyfer dyrannu'r arian ar gael

gan yr Undeb Ewropeaidd drwy Raglenni Gweithredol. Ei bwrpas yw darparu strwythur trosfwaol sy'n fodd i ddatblygu rhaglenni gweithredol a sicrhau cysondeb â pholisïau Cymunedol a chenedlaethol.

Mae ffactorau economaidd yn ganolog i ddatblygu rhanbarthau llwyddiannus a chystadleuol. Prif amcan y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol yw cefnogi a hwyluso'r ffactorau economaidd hyn drwy Raglenni Gweithredol. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i'r ffactorau hyn weithio mewn ffordd gydlynol i sicrhau bod synergedd o ymyriadau a mentrau polisi eraill, yn arbennig, y rhai a ariennir o dan y Cynllun Datblygu Cenedlaethol/Fframwaith Cefnogi Cymunedol, a'r Cynllun Datblygu Cenedlaethol newydd, y Rhaglen Datblygu Gwledig, ac ymyriadau sector preifat a pholisi cyhoeddus eraill.

Mae'r Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r ffactorau canlynol o berfformiad rhanbarthol cynaliadwy, cystadleurwydd a chyflogaeth:

- Sgiliau pobl – addysg a hyfforddiant (ESF)
- Mynediad at seilwaith economaidd a thechnolegol (ERDF)
- Hwyluso a chefnogi entrepreneuriaeth ac arloesedd (ERDF)
- Gwarchod yr amgylchedd (ERDF)
- Datblygu trefol cynaliadwy (ERDF)

CYMRU - Er nad yw Cydweithredu Tiriogaethol wedi'i gynnwys yn benodol gan Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU, mae'r cyd-destun polisi Cymreig o fewn y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol yr un mor berthnasol i gydweithredu trawsffiniol.

Bydd strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwario dyraniadau ei Gronfeydd Strwythurol yn y dyfodol yn adlewyrchu Canllawiau Strategol y Gymuned a blaenoriaethau polisi domestig fel y nodir mewn nifer o brif ddogfennau strategol ar gyfer datblygiad economaidd, gan gynnwys Cymru: Economi yn Ffynnu, y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, Cynllun Gofodol Cymru, Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru – Dechrau Byw'n Wahanol, y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru a Creu'r Cysylltiadau. Mae manylion y strategaethau hyn wedi'u hamlinellu yn yr adrannau canlynol.

Strategaethau Gofodol

IWERDDON - Mabwysiadwyd Strategaeth Ofodol Genedlaethol gyntaf Iwerddon gan y Llywodraeth yn 2002. Mae'r Strategaeth hon yn diffinio strategaeth ddatblygu ofodol hir dymor, y dylai polisïau cenedlaethol eraill gadw ati. Mae amserlen 20 mlynedd i'r strategaeth, a'i nod yw cael dewis ehangach o weithgareddau. Mae'r Strategaeth Ofodol Genedlaethol yn galw, yn arbennig, am ganolbwyntio buddsoddiad a thwf posibl ar rwydwaith o naw porth cenedlaethol, cystadleuol¹⁷ (dau yn y rhanbarth trawsffiniol) wedi'u cefnogi gan amryw o

¹⁷ Dulyn, Waterford,

ardaloedd trefol eraill o bwys fel naw canolbwynt ychwanegol (dau yn y Rhanbarth) er mwyn hybu datblygiad eu rhanbarthau ehangach.

Er mwyn gweithredu'r Strategaeth Ofodol Genedlaethol nawr mae angen i'r "Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol" fod yn eu lle ledled y wlad. Bydd y Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol ar ffurf dogfen unigol a bydd yn gweithredu fel fframwaith rhanbarthol ar gyfer y cynlluniau datblygu ar lefel dinas, sirol neu drwy'r cynllun sirol neu ddinas, a chynlluniau lleol eraill hefyd.

CYMRU – Mae *Cynllun Gofodol Cymru*¹⁸ yn darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu cydweithredol yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i bartneriaid er mwyn sicrhau twf a datblygiad economaidd cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru. Mae'n gosod cyfnod o 20-mllynedd ar gyfer datblygu ac integreiddio'r buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer datblygu cymunedau mewn modd cynaliadwy drwy Gymru. Bydd polisiau datblygu economaidd yn ystyried gwahaniaethau o ran lleoliad a blaenoriaethau. Mae'r Cynllun yn pwysleisio'r angen i weithredu'n gydgyssylltiedig ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trawsffiniol a rhyng-ranbarthol.

Datblygiad Economaidd

IWERDDON - Mae'r *Cynllun Datblygu Cenedlaethol 2007-2013* yn ddogfen strategol lefel uchel fydd yn amlinellu o fewn fframwaith economaidd a chyllidol cynaliadwy y dyraniadau buddsoddi saith mlynedd aml-flwyddyn dangosol ar gyfer y gwahanol feysydd yn y sectorau. Yn wahanol i'r cyfnod ariannu presennol lle mae rhaglenni Cronfa Strwythurol yr UE wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y Cynllun Datblygu Cenedlaethol, yn y cyfnod nesaf bydd y Cynllun Datblygu Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan eu hadnoddau cenedlaethol eu hunain.

Ceisiodd y *Rhaglen Diwygio Cenedlaethol* a gyflwynwyd gan Iwerddon yn Hydref 2005 ddwyn ynghyd ystod eang o bolisiau a mentrau. Y nod wrth weithredu'r rhain oedd cynnal twf economaidd cryf Iwerddon a'i berfformiad o ran cyflogaeth. Y Rhaglen Diwygio Cenedlaethol yw cyfraniad Iwerddon at ail-lansio Agenda Lisboa dros y cyfnod hyd at 2008¹⁹.

Towards 2016 – Ym Mehefin 2006, daeth trafodaethau rhwng y Llywodraeth, cyflogwyr, undebau llafur a Phartneriaid Cymdeithasol i ben yn llwyddiannus gyda chwblhau *Towards 2016*, Fframwaith y Cytundeb Partneriaeth Cymdeithasol 10-mllynedd, 2006-2015. Blaenoriaeth a ffocws polisi tra phwysig y Cytundeb yw adeiladu economi a chymdeithas gadarn trwy gynnal fframwaith

¹⁸ *Cynllun Gofodol Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/?lang=cy>

¹⁹ COM (2005) 24, Communication of the European Council "Working together for growth and jobs – dechrau newydd i Strategaeth Lisbon.

polisi macroeconomaidd cefnogol er mwyn hybu cynhyrchiant a chystadleurwydd.

CYMRU – Mae'r fframwaith strategol ar gyfer cefnogi datblygiad economaidd wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun *Cymru: Gwlad Well*²⁰, rhaglen bolisi strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn arbennig, rhaid i gamau i hyrwyddo datblygiad economaidd ddigwydd ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r rhaglen strategol hon – sef gwella ansawdd bywyd i bawb drwy wella cyfiawnder cymdeithasol, gwella'r amgylchedd, iechyd ac addysg, yn unol â *Chynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru – Dechrau Byw'n Wahanol*²¹.

Mae'r strategaeth datblygu economaidd wedi'i hamlinellu yn *Cymru: Economi yn Ffynnu*²², a adolygwyd yn 2005 i osod y fframwaith strategol ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007–2013. Y weledigaeth ynddi yw economi sy'n ffynnu ac sy'n gallu sicrhau twf cadarn a chynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i bawb, ac mae gan y strategaeth gysylltiad agos â strategaeth Lisboa ar gyfer twf a swyddi.

Hyfforddiant a Sgiliau

IWERDDON – Nod Awdurdod Hyfforddiant a Chyflogaeth Iwerddon 'One Step Up' yw annog gweithwyr i gynyddu eu lefelau gallu a hyrwyddo ethos o ddysgu gydol oes yn y gweithle. Bydd hyn yn sicrhau bod lefelau sgiliau a chymwysterau yn y gweithle'n cyfateb i ofynion adnoddau dynol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyfer twf economaidd parhaus a mantais gystadleuol. Bydd hefyd yn galluogi gweithwyr i ymdopi â newidiadau cyson a pharhaus mewn arferion gwaith.

CYMRU - Mae *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn cael ei ategu a'i gefnogi gan y ddogfen *Y Wlad sy'n Dysgu 223* a'r *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*²⁴ sy'n amlinellu rhaglen fanwl i gynyddu lefelau cyflogaeth â sgiliau yng Nghymru, gydag adran ar weithio gyda chyflogwyr a gweithwyr i wella sgiliau. Mae'r *Wlad sy'n Dysgu* yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Y flaenoriaeth yw adeiladu ar brif elfennau'r rhaglen

²⁰ *Cymru: Gwlad Well* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://www.wales.gov.uk/themesbettercountry/index.htm>

²¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru*:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypubs/sustainscheme;jsessionid=FD3733C3E0866069FF7F44E3AE8B7870.www2?lang=cy>

²² Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Economi yn Ffynnu*:

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038231141/4038211251/403821125/4038211251/wave?lang=cy>

²³ Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu 2* dogfen ymgynghori, Ebrill 2006:

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403821/the_learning_country_2/Learning_Country2_English.pdf?lang=cy

²⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*:

<http://www.learning.wales.gov.uk/pdfs/c5104-seap-report-e.pdf - search='Skills and Employment Action Plan 2005 Welsh Assembly Government'>

hon drwy gefnogi'r pwyslais cryfach ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc sy'n symud drwy addysg uwchradd gan adeiladu ar *Lwybrau Dysgu 14-19*²⁵

Llywodraeth y Cynulliad a'r rhaglenni *Ymestyn Hawliau ac Ymgeisio yn Uwch*²⁶, y strategaeth ar gyfer ehangu mynediad at addysg uwch.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU a'i asiant Canolfan Byd Gwaith i sicrhau bod polisi cyflogaeth nad yw wedi'i ddatganoli yn ategu ac yn cyd-fynd â pholisïau domestig ar gyfer sgiliau a hyfforddiant er mwyn cefnogi'r broses o integreiddio rhai sy'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar i'r gweithle.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

IWERDDON – Yn ddiweddar lansiodd y Llywodraeth ei Strategaeth newydd ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg ac Arloesedd hyd 2013, a fydd yn sbarduno twf economaidd, yn parhau i greu swyddi o safon uchel sy'n talu'n dda ac yn hwyluso symud ymlaen yn gymdeithasol. Amcan y Strategaeth newydd hon yw gosod Iwerddon ar flaen y gad o ran creu a defnyddio gwybodaeth newydd ar gyfer cynnydd economaidd a chymdeithasol, o fewn diwylliant a symbylir gan arloesi. Ymhlith y blaenoriaethau strategol a nodwyd yn y strategaeth gellir cynnwys amaethyddiaeth, bwyd ac iechyd, ac ymchwil morol ac amgylcheddol ynghyd ag ymchwil ynni.

CYMRU – Mae cynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad *Cymru o blaid Arloesi* yn pwysleisio pwysigrwydd cyfleu manteisio arloesi i fyd busnes, yn ogystal ag arfogi pobl yn well i arloesi. Mae hefyd yn canolbwyntio ar gynyddu galluoedd sefydliadau uwch a phellach yng Nghymru i'r eithaf, yn arbennig drwy annog datblygu, trosglwyddo a masnacheiddio technoleg, a chysylltiadau agosach rhwng y byd academaidd a busnesau. O fewn y Cynllun hefyd cydnabyddir yr angen i gynorthwyo busnesau â phosibiliadau twf cryf.

Lansiodd Llywodraeth y Cynulliad yr ymgynghoriad ar ei *Strategaeth Wyddoniaeth* gynhwysfawr ar 23 Tachwedd 2006 sydd â dylanwad allweddol hefyd ar hyrwyddo amcanion *Cymru o blaid Arloesi*. Mae'n cyfeirio'n benodol at feysydd a ystyrir yn bwysig i ddatblygiad economaidd yng Nghymru; sef, systemau ynni carbon isel, gofal iechyd a gwyddorau corfforol a chymdeithasol/gwybyddol sy'n gosod sail ar gyfer adnewyddu economaidd a chymdeithasol cyson. Rhoddir sylw pellach i agweddau masnacheiddio hyn yn y *Cynllun Gweithredu Arloesi* diwygiedig.

²⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19:

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/40382121/reachinghigher-e.pdf?lang=cy> ac

²⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth addysg Ymgeisio yn Uwch,:

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/40382121/reachinghigher-e.pdf?lang=cy>

Mae'r *Gronfa Datblygu Gwybodaeth* sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r UE yn darparu cymorth ariannol i alluogi sefydliadau addysg uwch a phellach yng Nghymru i greu diwylliant o entrepreneuriaeth ac arloesi, i ddatblygu sgiliau staff a myfyrwyr o fewn eu sefydliadau ac i hwyluso trosglwyddo gwybodaeth i ddiwydiant.

Entrepreneuriaeth a Datblygu Menter

IWERDDON - Sefydlodd y Tánaiste a'r Gweinidog dros Fenter, Masnach a Chyflogaeth Grŵp Strategaeth Menter i ddatblygu cyfeiriad newydd ar gyfer yr agenda polisi menter. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf 2004 dan yr enw '*Ahead of the Curve - Ireland's Place in the Global Economy*'.

Gosododd y grŵp ei ddadansoddiad yng nghyd-destun gweledigaeth dymor canolig o'r cyfleoedd i'r economi. Yn sgil llwyddiant Iwerddon yn datblygu cwmnïau cynhenid ac fel lleoliad proffidiol ar gyfer buddsoddi mewnol, roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion allweddol a gynlluniwyd i sicrhau mantais gystadleuol ac i lunio'r amodau angenrheidiol ar gyfer mentrau cryf a pharhaol yn Iwerddon hyd 2015.

Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar gydweddu arbenigedd sefydledig Iwerddon mewn gweithgynhyrchu gyda gallu cynhwysfawr mewn gwerthiant a marchnata ac ymchwil a datblygu.

CYMRU – Mae'r *Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth*²⁷ wedi gwneud cynnydd da mewn cynorthwyo busnesau newydd sy'n cychwyn, annog mwy o bobl ifanc i ystyried gweithio ar eu liwt eu hunain fel dewis gyrfa a hyrwyddo ymddygiad mwy mentrus gan gwmnïau sy'n bodoli'n barod. Bydd yn hollbwysig adeiladu ar sail y mentrau hyn a sicrhau cysondeb hefyd ag awydd Llywodraeth y Cynulliad i gynorthwyo sectorau neu weithgareddau a fydd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf ac yn dangos potensial cryf o ran twf.

Menter yw'r *Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau*²⁸, a elwir yn BAB i wella sgiliau, cryfder ariannol a strategaeth fusnes cwmnïau yng Nghymru. Mae'n darparu cyngor a chymorth i gwmnïau â photensial uchel o ran twf, heb ystyried lleoliad, maint na sector. Datblygwyd y fenter hon fel rhan o strategaeth Llywodraeth y Cynulliad Cymru : Economi yn Ffynnu sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd arloesi mewn sefydlu amgylchedd lle gall busnesau ffynnu.

²⁷ Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

²⁸ Ffigurau Iwerddon yn cael eu diffinio fel y gofyniad ynni crai yn ôl y math o danwydd, Ffigurau Cymru'n cael eu diffinio fel cyfanswm yr ynni a ddefnyddir (domestig, masnachol, trafniadaeth). Mae ffigurau Iwerddon ar gyfer ardal NUTS II tra bod ffigurau Cymru'n rhoi'r darlun ar gyfer Cymru gyfan.

Cynlluniwyd *Llygad Busnes* fel y lle cyntaf i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd am wella a bod yn fwy cystadleuol fynd am gymorth. Mae'n darparu gwybodaeth ddiuedd ar draws ystod eang o bynciau busnes gan gynnwys gwerthiant a marchnata, cyllid a threthi, materion yn ymwneud â staff, rheolaeth a gweinyddiaeth.

Strategaethau Datblygu Cynaliadwy

IWERDDON – Nod y *Polisi Datblygu Cynaliadwy Cenedlaethol*, a gyhoeddwyd yn 1997, oedd "*ensure that economy and society in Ireland can develop to their full potential within a well protected environment, without compromising the quality of that environment and with responsibility towards present and future generations and the wider international community*"²⁹.

Yn 2002 cynhyrchwyd 'Making Ireland's Development Sustainable'³⁰ gan Adran yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol ar gyfer Uwchgynhadledd y Byd Johannesburg ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae'r adroddiad yn edrych ar y cynnydd a wnaed yn ystod y deng mlynedd ers Uwchgynhadledd y Ddaear Rio de Janeiro. Mae hefyd yn nodi sawl cyfeiriad polisi cyffredinol.

CYMRU - Mae *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru - Dechrau Byw'n Wahanol*³¹ yn hyrwyddo datblygiad sy'n bodloni anghenion y dyfodol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion hwy eu hunain. Mae'r cynllun yn ceisio gwella safon bywyd i bawb trwy hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, gwella'r amgylchedd, iechyd ac addysg.

Mae'r *Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy* yn amlinellu cynigion mwy manwl ar gyfer gweithredu ar draws datblygu mewn meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Y nod cyffredinol yw datblygu economi sy'n ymateb i gyfleoedd datblygu cynaliadwy, yn lleihau'r galw ar yr amgylchedd i'r eithaf ac yn cynyddu dosbarthiad y buddion i'r eithaf.

Strategaethau Newid yn yr Hinsawdd

IWERDDON - Mae'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Genedlaethol yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y ffordd fwyaf effeithiol a chyfiawn gan barhau i gefnogi twf economaidd ar yr un pryd â pharatoi Iwerddon ar gyfer yr ymrwymadau mwy uchelgeisiol y bydd eu hangen ar ôl 2012. Mae'n gofyn am weithredu ym mhob sector, cyn gynted ag

²⁹<http://www.environ.ie/DOEI/DOEIPol.nsf/wvNavView/Sustainable+Development:+A+Strategy+for+Ireland?OpenDocument&Lang=#1>

³⁰ Making Ireland's Development Sustainable – Review, Assessment and Future Action (DEHLG)

³¹ *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypubs/sustainscheme.jsessionid=FD3733C3E0866069FF7F44E3AE8B7870.www2?lang=cy>

sy'n bosibl ac mewn modd cynaliadwy. Mae'r Strategaeth wedi'i seilio ar egwyddorion sylfaenol datblygu cynaliadwy sydd wedi'u hamlinellu yn *Sustainable Development: A Strategy for Ireland*, ac yn cymryd cyfrif o'r angen i ddiogelu datblygu economaidd a chystadleurwydd.

CYMRU – Mae *Strategaeth Amgylcheddol* newydd *Cymru*³² yn amlinellu fframwaith ar gyfer creu amgylchedd ffyniannus sy'n cyfrannu at les cymdeithasol ac economaidd pobl Cymru. Mae'r cynllun gweithredu ategol yn amlinellu manylion camau penodol a fydd yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r angen i ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy trwy hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ynghyd â chynhyrchu ynni carbon isel. Nodir camau mwy manwl yn *Strategaeth Ynni Cymru 2003*³³, *Arbed Ynni Cymru*³⁴, Ynni Cymru: Trywydd ar gyfer Dyfodol Ynni³⁵, Llywodraeth y Cynulliad yn ogystal â *Chynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd*³⁶ ac *Yn Gall gyda Gwastraff*³⁷.

Strategaethau Cymdeithasol

IWERDDON – Mae Adran Materion Cymunedol, Cefn Gwlad a'r Gaeltacht yn ariannu, ac mewn rhai achosion yn gweinyddu, amrywiaeth o raglenni cymorth ar gyfer datblygu cymunedol fel y gall grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol a chymunedau lleol gymryd rhan weithredol mewn nodi a chwrdd â'u hanghenion datblygu eu hunain, gan weithio ochr yn ochr ag asiantaethau statduol ac eraill sy'n gysylltiedig â mentrau datblygu lleol.

CYMRU – Nodir amcanion strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer mentrau cymdeithasol yn y *Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru*. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar greu amgylchedd sy'n annog mentrau cymdeithasol newydd ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer twf; gwneud mentrau cymdeithasol yn well busnesau, sefydlu gwerth mentrau cymdeithasol; ac annog datblygu cyfleoedd newydd.

Mae *Cymunedau'n Gyntaf* yn rhaglen flaengar bwysig gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n ceisio lleihau tlodi a helpu i wella bywydau pobl sy'n byw yn yr ardaloedd tlotaf. Nod y rhaglen yw cynnwys pobl leol mewn gwella eu

³² *Strategaeth Amgylcheddol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru* **ANGEN RHOI E-GYFEIRIAD Y WEFAN**

³³ *Strategaeth Ynni* Llywodraeth Cynulliad Cymru :

<http://www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/consultations/ewrm-ltr-e.htm>

³⁴ *Arbed Ynni Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://www.businessenvironment.wales.gov.uk/documents/esw-e.pdf>

³⁵ Trywydd ar gyfer Dyfodol Ynni dogefn ymgynghori:

<http://www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/consultations/ewrm-map-e.pdf>

³⁶ Cynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://www.businessenvironment.wales.gov.uk/documents/be-action-plan-e.pdf>

³⁷ *Strategaeth Wastraff* Llywodraeth Cynulliad Cymru – *Yn Gall gyda Gwastraff*.

<http://www.wales.gov.uk/subienvironment/toc-e.htm#s2>

hardaloedd a'u prosiectau eu hunain, gan ddod â chyllid a chymorth i mewn, gofalu fod gwelliannau'n para, annog hyblygrwydd, mentro ynghyd â dulliau newydd o ddelio gyda phroblemau a chynnwys pawb sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud rhywbeth am broblemau eu cymuned.

3.2.3 Casgliadau ar Gyd-destun Polisi a Goblygiadau i Strategaeth Ddatblygu'r Rhaglen Weithredol

Mae'r cyd-destun polisi y mae'r rhaglen hon yn gweithredu o'i fewn yn dangos y cydlyniant rhwng polisiâu ar lefel UE a hefyd ar lefel genedlaethol yng Nghymru ac Iwerddon. Mae'r polisiâu cenedlaethol yn benodol yn adlewyrchu ymdrech benderfynol ar ran yr aelod-wladwriaethau unigol i ymateb i heriau agendau Lisboa a Gothenburg. O ganlyniad bydd hyn yn cael dylanwad sylweddol ar y strategaeth ddatblygu drawsffiniol.

3.3 Crynodeb o'r Rhag-werthusiad ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

3.3.1 Rhag-werthusiad

Cyflawnwyd y Rhag-werthusiad o'r Rhaglen Weithredol gan Fitzpatrick Associates. Mae Crynodeb Gweithredol o'r gwerthusiad sy'n nodi argymhellion y cloranyddion wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 a gallwch ddarllen y Rhag-werthusiad Llawn ar wefan yr Awdurdod Rheoli www.seregassembly.ie.

Mae asesiad y cloranyddion o'r Rhaglen Weithredol yn gadarnhaol at ei gilydd. Mae o'r farn fod y ddogfen yn llifo'n rhesymegol, yn cydymffurfio â blaenoriaethau polisi UE a chenedlaethol, yn amlygu heriau cyffredin i faes y rhaglen ac yn cynnwys datganiad clir o amcanion a strategaeth ddatblygu a fydd yn ceisio adeiladu ar lwyddiant y rhaglenni INTERREG blaenorol gan ddysgu gwersi hefyd o'r rhaglenni hyn. Yn ymarferol, roedd y rhag-werthusiad yn broses ailadroddol ddwyffordd i raddau helaeth a bu'n gymorth mawr i'r Awdurdod Rheoli wrth baratoi'r Rhaglen Weithredol.

Gwnaeth y cloranyddion nifer o argymhellion yn ystod y broses werthuso, a lle bo hynny'n briodol, ymgorfforwyd yr argymhellion hyn yn y Rhaglen Weithredol ddrafft cyn y broses ymgynghori gyhoeddus. Lluniodd y cloranyddion eu hadroddiad terfynol ar sail y fersiwn ddrafft a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2006.

Yn eu hadroddiad terfynol, gwnaeth y cloranyddion nifer o argymhellion o dan chwe phennawd. Ystyriwyd pob un o'r argymhellion cyn cwblhau'r Rhaglen Weithredol yn derfynol a nodir crynodeb o'r ystyriaethau isod.

Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

Gwnaed argymhelliad gan y cloranyddion eu bod am weld mwy o dystiolaeth i gefnogi'r casgliadau o'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig gan ei fod yn hysbysu'r strategaeth ddatblygu a'r ymrwymadau blaenoriaeth. Mae'r awdurdodau rhaglennu wedi rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Ni chwtogwyd dogfen y Rhaglen Weithredol er mwyn crynodeb gan fod y dystiolaeth yn weddol fanwl. Cymerwyd y dystiolaeth o ddwy ddogfen; proffil rhanbarthol manwl o ardal y rhaglen ac adolygiad mewnol o Raglen INTERREG IIIA 2000-06. Y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen hon oedd un o'r ffactorau a hysbysodd y dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar y cyd. Mae'r dogfennau hyn ar gael yn www.seregassembly.ie.

Sail resymegol y Rhaglen

Gwnaeth y cloranyddion ddau argymhelliad ynglŷn â'r sail resymegol dros ymyriad fel y nodir yn yr heriau cyffredin sy'n wynebu ardal y rhaglen. Yn gyntaf, fe ddywedon nhw y gallai rhai o'r honiadau a wnaed ynglŷn â'r achos dros ymyrryd fod wedi'i seilio ar dystiolaeth i raddau helaethach. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan yr awdurdodau rhaglennu a darparwyd mwy o fanylion yn rhan hon y Rhaglen Weithredol a gefnogir ymhellach gan yr adolygiad manwl a'r gwersi a ddysgwyd o Raglen 2000-06 (sydd ar gael yn www.seregassembly.ie) oedd hefyd wedi'i defnyddio fel sail i'r rhan hon o'r ddogfen.

Yn ail, roedd y cloranyddion hefyd o'r farn fod y drafodaeth ar y sail resymegol dros ymyriad yn tueddu i fod yn gyffredinol ei natur ac y gellid cyflwyno'r sail resymegol dros y Strategaeth Ddatblygu a'r Blaenoriaethau a ddewiswyd yn fwy eglur.

Mae'r awdurdodau rhaglennu o'r farn bod y strategaeth a'r blaenoriaethau'n cael eu cyflwyno yn y ffordd fwyaf clir ac uniongyrchol posibl yn y cam hwn. O ganlyniad i hynny, ni newidiwyd y Rhaglen Weithredol. Ond rhoddir sylw llawnach i'r pwynt hwn wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer pob blaenoriaeth.

Cydlyniant y Strategaeth a Pholisïau Allweddol

Gwnaeth y cloranyddion un argymhelliad yn y maes hwn gan nodi mai ar lefel gyffredinol yn unig y gwelir y cydlyniant â pholisïau allweddol. Fodd bynnag, fe ddywedon nhw y gellid rhoi sylw i hyn fel rhan o'r cynllun gweithredu manwl ar gyfer pob blaenoriaeth. Mae'r awdurdodau rhaglennu'n fodlon ymdrin â'r argymhelliad hwn wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

Cyfatebolrwydd

Mae'r cloranyddion yn nodi nad yw'n gwbl glir sut y bydd buddsoddi o dan raglen Iwerddon Cymru yn wahanol i raglenni ERDF, ESF ac FP7 eraill sy'n derbyn cymorth. Ond maen nhw'n nodi y rhoddir peirianweithiau ar waith i sicrhau

cyfatebolrwydd. Bydd yr awdurdodau rhaglennu'n rhoi sylw pellach i hyn wrth baratoi cynlluniau gweithredu manwl.

Canlyniadau ac Effeithiau a Ddisgwylir

Gwnaed nifer o argymhellion gan y clorinyddion mewn perthynas â pharatoi dangosyddion ar gyfer y rhaglen. Mae'r awdurdodau rhaglennu wedi ystyried yr holl bwyntiau hyn wrth ddrafftio'r rhaglen. Y pwysicaf o'r rhain yw bod nifer y dangosyddion lawer iawn yn is o gymharu â Rhaglen 2000-06 a'r rhaglen ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006.

Trefniadau Gweithredu

Gwnaeth y clorinyddion nifer o argymhellion ynglŷn â hyn. Mae swyddogaeth y Pwyllgor Llywio wedi ei hegluro nawr ym Mhennod 8 y rhaglen. Datblygir prosesau dethol ac arfarnu prosiectau manwl fel rhan o gynllun gweithredu manwl a ddatblygir ar y cyd rhwng WEFO a'r Cynulliad Rhanbarthol. Bydd y cynllun hwn yn gweithio hefyd ar gryfhau'r bartneriaeth rhwng y ddau sefydliad er mwyn sicrhau fod y rhaglen newydd yn cael ei darparu mewn modd llyfn a bydd hefyd yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â threfniadau trosglwyddo data electronig.

3.3.2 Aseiad Amgylcheddol Strategol

Troswyd y Gyfarwyddeb Aseiad Amgylcheddol Strategol yn gyfraith yn Iwerddon yng Ngorffennaf 2004 a'i hamcan yw darparu lefel uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni penodol gyda golwg ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Yr Awdurdod Rheoli a luniodd yr Adroddiad Sgrinio ar gyfer y Rhaglen Weithredol ddrafft a chytunwyd ar y cynnwys gyda chydweithwyr yng Nghymru. Mae copi o'r adroddiad sgrinio ar gael ar www.seregassembly.ie. Yn dilyn ymgynghoriadau gyda'r awdurdodau amgylcheddol dynodedig yn nwy ran y maes rhaglen gwnaed penderfyniad nad yw'r Rhaglen Weithredol yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, ac felly nid oes angen Aseiad Amgylcheddol Strategol pellach o dan y Gyfarwyddeb Aseiad Amgylcheddol Strategol, fel y mae wedi ei throsi'n gyfraith yr Aelod-wladwriaeth.

Er mwyn bod yn gwbl sicr mai dyma'r sefyllfa cyfarfu tasglu'r rhaglen gydag awdurdodau'r amgylchedd yng Nghymru ar 9 Tachwedd 2006. Roedd canlyniadau'r cyfarfod fel a ganlyn:

- Ni chymeradwyir unrhyw brosiectau allai gael effaith negyddol ar safle Natura 2000 a safleoedd dynodedig eraill

- Bydd pryderon amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio'n llawn ym meini prawf dethol y prosiect

Mae'r adran ar ddatblygu cynaliadwy ym mhennod 7 y Rhaglen Weithredol wedi cael ei haddasu'n unol â hyn er mwyn sicrhau y bydd safleoedd dynodedig yn cael eu diogelu'n iawn.

3.4 Strategaeth ar gyfer y Rhanbarth Trawsffiniol

Mae gan Iwerddon a Chymru brofiad cadarnhaol o ddatblygu cydweithredu trawsffiniol. Nod prosiectau cydweithredu trawsffiniol ar y cyd o dan y rhaglenni INTERREG IIA (1994-99) ac INTERREG IIIA (2000-2006) blaenorol oedd cynyddu lefel y cysylltu â'r integreiddio yn y rhanbarth drwy ddull integredig o weithredu tuag at ddatblygiadau economaidd, cymdeithasol a thechnolegol. Er bod y rhaglen INTERREG gyntaf yn y rhanbarth wedi canolbwyntio mwy ar ddatblygu seilwaith ffisegol y rhaglen a lefel y cysylltu, roedd y rhaglen ddilynol yn canolbwyntio mwy ar gydweithredu rhwng pobl a sefydliadau a cheisio datblygu rhwydweithiau fydd yn para.

Mae prosiectau ar y cyd a ariannwyd o dan INTERREG II ac INTERREG III yn tystio i'r lefelau cydweithredu rhwng sefydliadau yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n cynyddu ac yn dyfnhau'n gyson. Mae rheoli rhaglen wedi datblygu'n bur sylweddol hefyd dros y cyfnod ac yn brawf ynddo'i hun o gydweithredu trawsffiniol hynod effeithiol.

Mae Rhaglen Iwerddon Cymru (2007-2013) yn cyflwyno cam nesaf cydweithredu trawsffiniol yn yr ardal, gan adeiladu ar sail yr hyn a gyflawnodd y ddwy raglen a'i rhagflaenodd. Yn y cyfnod hwn bydd y broses o gydweithredu, sy'n ymestyn mor bell yn ôl ag 1994 ar y Rhaglen INTERREG IIA, yn ceisio dysgu'r gwersi o'r rhaglenni blaenorol a llwyddo i sicrhau lefelau dyfnach o gydweithredu trawsffiniol.

Gyda golwg ar themâu sy'nnganolog i bolisiau strategol UE a Chenedlaethol mae'n dilyn y dylai'r strategaeth ddatblygu ar gyfer y rhaglen gydweithredu drawsffiniol hon fod yn gyson â'r themâu hynny. Nid yw'r strategaeth yn cymryd cyfrif o'r Canllawiau Strategol Cymunedol ar Gydlyniant, Fframweithiau Cyfeirio Strategol Cenedlaethol yr Aelod-wladwriaethau unigol, y cyd-destun polisi cenedlaethol yn y ddwy aelod-wladwriaeth na'r gwersi a ddysgwyd o werthusiadau blaenorol.

Ar yr un pryd rhaid i'r strategaeth roi sylw i anghenion a nodweddion penodol y rhanbarth trawsffiniol sy'n arbennig ar gyfrif y ffaith fod iddo ffin forol. Rhaid i'r strategaeth dargeddu ei adnoddau hefyd gan ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig gyda'r gyllideb a ddyrannwyd.

Bydd Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-2013 yn delio â'r materion hynny y gellir ymdrin â hwy orau trwy ymyriadau ar lefel drawsffiniol fel y nodir yn Adran 3.1 y bennod hon. Dyma'r materion ble gall y ddau ranbarth ei wa fwyaf o gydweithredu trawsffiniol. Er enghraifft mae datblygu cynaliadwy, gwarchod yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd yn faterion sy'n galw am ymateb cydgysylltiedig gan nad materion lleol neu ranbarthol sy'n cael effaith leol yn unig ydynt. Gellir dweud yr un peth am yr holl agenda cystadleurwydd ac arloesi y dylanwadir yn drwm arni nawr gan y ffaith mai un farchnad Ewropeaidd sengl sydd yna sy'n gweithredu mewn amgylchedd masnach byd-eang wedi globaleiddio. Mae angen cydweithredu trawsffiniol oherwydd trwy weithredu gyda'i gilydd ar y materion hyn gall rhanbarthau ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau sy'n codi.

Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar yr angen i gryfhau'r economi wybodaeth trwy ddarparu hinsawdd sy'n fwy ffafriol i arloesi a chyfrannu felly at gynnal cystadleurwydd maes cydweithredu Iwerddon Cymru. Bydd yn ceisio cynnal adnoddau naturiol a diwylliannol y rhanbarth yn ymarferol a lliniaru effeithiau amgylcheddol negyddol ar y diriogaeth, gan gynnwys hyrwyddo dulliau arloesol tuag at reoli risgiau naturiol a thechnolegol yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd. Bydd hefyd yn chwilio am ffyrdd o gynnal a datblygu cymunedau er budd pobl leol yn ardal y rhaglen. Mae'r rhaglen yn ceisio canolbwyntio ei adnoddau ar y meysydd hyn yn arbennig er mwyn sicrhau'r lefel fwyaf effeithiol o ymyrryd o dderbyn maint y gyllideb sydd ar gael.

Mae'r strategaeth drawsffiniol ar y cyd yn ymateb i gryfderau a gwendidau maes rhaglen drawsffiniol Iwerddon Cymru trwy amlinellu amcan trosfwaol a thrwy ddiffinio echelinau blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod rhaglennu 2007-2013. At hyn, oherwydd bod Menter Gymunedol INTERREG wedi'i gosod ym mhrif ffrwd y polisi Cydlyniant nawr, mae'r rhaglen wedi ei hysgrifennu o safbwynt mwy strategol a lefel Blaenoriaeth er mwyn ystyried gofynion Polisi Cydlyniant yr Undeb. Nodir yr echelinau blaenoriaeth yn ôl targedau, a'u mesur yn ôl dangosyddion allbwn a chanlyniadau, a fydd o gymorth i fesur y cynnydd mewn perthynas â'r sefyllfa sylfaenol ac effeithlonrwydd y targedau wrth weithredu'r blaenoriaethau.

Amcan y Rhaglen

Mae amcan cyffredinol Rhaglen Weithredol Iwerddon Cymru ar ddatblygiad tiriogaethol trawsffiniol (2007-2013) fel a ganlyn:

Trwy ddull integredig tuag faterion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a thechnolegol nod Rhaglen Cydweithrediad Tiriogaethol Iwerddon Cymru yw datblygu'r rhaglen drawsffiniol ymhellach a

- Chyfrannu tuag at ei chystadleurwydd ehangach a'i datblygiad cynaliadwy.
- Gwella ei lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn gyffredinol.

- Sicrhau datblygiad mwy cydlynol, cytbwys a chynaliadwy ym maes cydweithredu Cymru Iwerddon, a chyfrannu trwy hynny at gystadleurwydd cyffredinol y diriogaeth Gymunedol mewn byd wedi globaleiddio.

Bydd yr amcan hwn yn cael ei ddwyn ymlaen a'i gyflawni trwy ddwy flaenoriaeth weithredol.

Blaenoriaeth 1 Gwybodaeth, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer Twf

Mae'r Flaenoriaeth hon wedi ei rhannu'n ddwy thema gysylltiedig ond ar wahân fel a ganlyn:

Thema 1 – Arloesedd a chystadleurwydd

Thema 2 – Sgiliau ar gyfer cystadleurwydd ac integreiddio cyflogaeth

Prif ffocws y flaenoriaeth hon fydd sut y gall y rhanbarth trawsffiniol wneud cyfraniad gwirioneddol tuag at gyflawni amcanion Agenda diwygiedig Lisboa o greu mwy o swyddi gwell a chreu amgylchedd sy'n gallu meithrin arloesi a'r economi wybodaeth. Mae'n amlwg o'r dadansoddiad fod hon yn ardal sy'n flaenoriaeth bwysig i ddwy ran y rhanbarth trawsffiniol yn ogystal â'r UE. Datblygir y pwnc hwn ymhellach yn y bennod nesaf.

Blaenoriaeth 2 Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy

Mae'r Flaenoriaeth hon wedi ei rhannu'n ddwy thema gysylltiedig ond ar wahân fel a ganlyn:

Thema 1 – Newid yn yr Hinsawdd a Datblygiad Cynaliadwy

Thema 2 – Adfywio Cymunedau'n Gynaliadwy

Prif ffocws y flaenoriaeth hon fydd sut y gall y rhanbarth trawsffiniol fynd i'r afael ag agenda Gothenburg a gwneud cyfraniad gwirioneddol tuag at adeiladau dyfodol mwy cynaliadwy i'r rhanbarth. Mawr dwy ran y rhanbarth yn wynebu heriau cyffredin o ran newid yn yr hinsawdd a datblygiad cynaliadwy a hefyd mewn perthynas â datblygiad cynaliadwy. Datblygir y pwnc hwn ymhellach yn y bennod nesaf.

3.5 Cyfiawnhau'r strategaeth rhaglen a ddewiswyd

Dewiswyd y strategaeth oherwydd y gall fynd i'r afael â'r heriau cyffredin sy'n wynebu'r rhanbarth trawsffiniol yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Mae'n amlwg yn mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd a heriau cyffredin y rhanbarth trawsffiniol ac yn cydymffurfio'n llawn â pholisïau a rhanbarthau UE, cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol.

Rhaid i'r rhaglen hefyd ystyried faint o adnoddau sydd ar gael ac yn sgil hynny bu'n rhaid teilwrio ac addasu'r strategaeth hefyd i roi'r canlyniadau gorau posibl gyda'r symiau oedd ar gael.

Rhaid i'r rhaglen gymryd cyfrif hefyd o'r gwahanol bartneriaid sy'n bodoli yn y rhanbarth sydd mewn sefyllfa i wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael. Mae profiad o gyfnodau rhaglennu blaenorol wedi dangos fod cymysgedd digonol o sefydliadau yn y rhanbarth hwn all amsugno'r lefel cyllid sydd ar gael. Dyma oedd un o'r ystyriaethau dan sylw wrth ddewis y strategaeth hon yn hytrach na rhai eraill. Cadarnhawyd hyn hefyd gan y profiad o ddelio gydag ystod o noddwyr a dderbyniodd gyllid o dan Raglen INTERREG IIIA Iwerddon Cymru.

Mae dwy ran y rhanbarth wedi nodi'n glir fod angen datblygu ymyriadau cadarn ac arloesol i fynd i'r afael â heriau agendau Lisboa a Gothenburg ac er bod y rhain yn cael sylw mewn rhaglenni domestig mae gwerth ychwanegol amlwg i'r gael o gydweithredu ar draws ffiniau aelod-wladwriaethau y rhoddir sylw iddo yn yr adran nesaf. Mae angen gwirioneddol hefyd i gydweithredu ar y materion hyn gan fod yr hyn a arferai fod yn faterion o bryder domestig yn unig yn cynnwys dimensiwn rhyngwladol cynyddol.

3.6 Gwerth ychwanegol cydweithredu trawsffiniol

Ar lefel gyffredinol, mae cydweithredu trawsffiniol yn ceisio hyrwyddo gwell integreiddio o fewn yr Undeb trwy ffurfio grwpiau o ranbarthau Ewropeaidd trwy ymwneud awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a sefydliadau eraill. Mae'n cynnig y fantais o sefydlu cysylltiadau â gweithredu ar lefelau rhyngranbarthol, trawsffiniol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ddarparu gwerth ychwanegol trwy hynny i bolisiau a rhaglenni.

Mewn egwyddor dylai canlyniad ymdrechion ar y cyd o'r fath fod yn fwy na chyfanswm ei rannau. Gall mentrau ar y cyd ystyried mynd i'r afael â rhwystrau ar draws ffiniau cenedlaethol ac annog rhwydweithiau, rhannu profiad rhwng gwahanol grwpiau, datblygu clystyrau gwybodaeth a chysylltiadau sefydliadol cryfach rhwng sefydliadau addysg uwch a busnesau. Gall cynlluniau o'r fath helpu i sicrhau synergau rhwng gwahanol bolisiau, rhaglenni a mentrau ar wahanol lefelau o ran maint.

Mae gwerth ychwanegol penodol cydweithredu tiriogaethol trawsffiniol yn arbennig o amlwg yn achos prosiectau â'r nodweddion a ganlyn:

- Mae natur y mater dan sylw yn golygu na ellir mynd i'r afael ag ef yn foddhaol o fewn un wladwriaeth genedlaethol;
- Oherwydd hynny rhennir amcanion y prosiect a'r cynllun gwaith rhwng partneriaid o wahanol wledydd;

- Mae cydweithredu rhwng partneriaid yn gwella ansawdd y canlyniadau o gymharu â'r cyflawniadau a fyddai'n bosib i bartner yn gweithio ar ei ben ei hun;
- Mae canlyniadau'r prosiect yn berthnasol i'r ardal gydweithredu ehangach ac felly gellir eu trosglwyddo i rannau eraill o'r rhanbarth;
- Mae cydweithredu'n cael ei integreiddio'n fertigol, yn llorweddol ac yn ddaearyddol wrth geisio sicrhau datblygiad cynaliadwy a chystadleurwydd economaidd.

Gan ganolbwyntio ar ranbarth trawsffiniol Iwerddon Cymru, mae'r heriau sy'n gyffredin iddo a amlinellwyd ar ddechrau'r bennod hon yn rhoi rhai o'r prif resymau dros y gwerth ychwanegol mewn cydweithredu trawsffiniol. Rhanbarth morol yw hwn wedi'i wahanu gan Fôr Iwerddon ac mae rheswm yn dweud felly na all cydweithredu mewn rhai meysydd fel seilwaith ddarparu gwerth ychwanegol ar sail trawsffiniol gan eu bod yn faterion y gellir mynd i'r afael â hwy'n well o fewn un wladwriaeth genedlaethol ac nid oes unrhyw fantais wirioneddol i'r wlad arall gysylltiedig mewn cydweithredu ar y materion hyn.

Ond wrth wynebu her fel diogelu'r amgylchedd neu wella sylfaen ymchwil a datblygu mae rhesymau llawer cryfach dros hyrwyddo cydweithredu trawsffiniol sy'n gallu rhoi gwerth ychwanegol a manteision gwirioneddol i'r boblogaeth yn yr ardal. Mae'r rhain yn faterion sy'n peri pryder yn gyffredinol ac mae gwerth ychwanegol gwirioneddol mewn cydweithredu ar sail drawsffiniol. Y rheswm am hyn yw y gall cydweithredu rhwng partneriaid wella ansawdd canlyniadau o gymharu â'r hyn y gallai partner yn gweithio ar ei ben ei hun ei gyflawni. Gallant hefyd fod yn berthnasol i'r ardal gydweithredu ehangach ac mae posibilrwydd y gellir eu trosglwyddo i rannau eraill o'r rhanbarth.

Bydd gwerth ychwanegol trawsffiniol yn sylfaenol i gyflenwi'r rhaglen ym mhob cam. Bydd y rhaglen hefyd yn ceisio dod â'r meddyliau a'r talentau gorau yn y rhanbarth trawsffiniol ynghyd i ganolbwyntio ar gyflenwi prosiectau arloesol a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth a chyflenwi ar strategaeth y rhaglen. Trwy gyfuno adnoddau fel hyn dylai fod yn bosib cyflenwi mwy o brosiectau o well safon nag ar sail genedlaethol.

Un enghraifft arbennig o werth ychwanegol trawsffiniol o raglen 2000-06 oedd y mesur Datblygu'r Môr a'r Arfordir a'r Amgylchedd. Daeth gwahanol grwpiau o arbenigwyr gwyddonol ac amgylcheddol o ddwy ran y rhanbarth at ei gilydd i gydweithredu ar reoli, monitro a diogelu adnoddau naturiol ym Môr Iwerddon. Ni allai eu cydweithrediad ar faterion fel mapio cynefinoedd, monitro a gwarchod rhywogaethau sydd mewn perygl a rheoli agregau sydd yn y môr yn gynaliadwy byth fod wedi bod mor llwyddiannus, os byddai wedi digwydd o gwbl, ar sail aelod-wladwriaeth. Bydd rhaglen 2007-13 yn canolbwyntio ar sicrhau bod y math hwn o werth ychwanegol trawsffiniol yn ganolog i bob prosiect a gefnogir.

Bydd gwerth ychwanegol trawsffiniol hefyd yn ganolog i reoli a gweinyddu'r rhaglen. Roedd perthynas waith agos a chadarnhaol rhwng swyddogion yn ardal y rhaglen ar bob lefel o reoli'r rhaglen ac ar Bwyllgorau Monitro a Llywio'r Rhaglen. Heb gydweithredu a chydweithio agos o'r fath byddai wedi bod yn anodd dros ben i reoli rhaglen 2000-2006 yn effeithiol. Bydd y strwythurau diwygiedig a amlinellir ym Mhennod 8 yn ceisio parhau i ddatblygu'r bartneriaeth gwella cydweithredu trawsffiniol eto fyth wrth reoli a chyflawni'r rhaglen.

Amcan Cyffredinol y Rhaglen

Trwy ddull integredig tuag at faterion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a thechnolegol mae Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Trawsffiniol Iwerddon Cymru yn ceisio datblygu'r rhanbarth trawsffiniol a:

- Chyfrannu at ei wneud yn fwy cystadleuol ac at ddatblygiad cynaliadwy
- Gwella ei les economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol
- Llwyddo i sicrhau datblygiad mwy cydlynol, cytbwys a chynaliadwy ardal gydweithredu Iwerddon Cymru, a chyfrannu felly at ba mor gystadleuol yw'r diriogaeth Gymunedol yn gyffredinol mewn byd wedi globaleiddio.

Blaenoriaeth 1 Gwybodaeth, Arloesedd a sgiliau ar gyfer twf

Rhennir y flaenoriaeth hon yn ddwy thema ar wahân ond gysylltiedig fel a ganlyn:

Thema 1 – Arloesedd a chystadleurwydd

Thema 2 – Sgiliau ar gyfer cystadleurwydd ac integreiddio cyflogaeth

Blaenoriaeth 2 Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy

Rhennir y flaenoriaeth hon yn ddwy thema ar wahân ond gysylltiedig fel a ganlyn:

Thema 1 - Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Cynaliadwy

Thema 2 – Adfywio Cymunedau'n Gynaliadwy

PENNOD 4

Blaenoriaethau

Yn y bennod hon amlinellir y blaenoriaethau fydd yn cyflawni'r strategaeth ddatblygu ar gyfer y rhanbarth yn fanwl. Bydd y bennod wedi ei rhannu'n dair adran fel a ganlyn:

Adrannau 4.1-4.5 - Blaenoriaeth 1 – Gwybodaeth, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer Twf

Adrannau 4.6-4.10 Blaenoriaeth 2 – Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy

Adrannau 4.11-4.16 Blaenoriaeth 3 – Cymorth Technegol

BLAENORIAETH 1 - Gwybodaeth, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer Twf

4.1 Amcanion Blaenoriaeth

- Yn unol ag amcanion Agenda Lisboa, datblygu gwybodaeth, ymchwil a datblygu/arloesi a sylfaen entrepreneuriaidd economi'r rhanbarth trawsffiniol gyda golwg ar hybu twf a chystadleurwydd y Rhanbarth.
- Gwella gallu'r rhanbarth trawsffiniol trwy ddarparu ymyriadau wedi'u targedu i ddatblygu sgiliau a galluoedd y boblogaeth a'r gweithlu gyda golwg ar ddarparu lefelau cyflogaeth uwch a meithrin cystadleurwydd.

Rhennir y Flaenoriaeth yn ddwy thema gysylltiedig ond ar wahân fel a ganlyn:

- Thema 1 – Arloesedd a chystadleurwydd
- Thema 2 – Sgiliau ar gyfer cystadleurwydd ac integreiddio gwaith

Mae'r dewis o themâu yn adlewyrchu eu pwysigrwydd i ddatblygiad parhaus y rhanbarth trawsffiniol ac yn ceisio ymdrin â'r materion critigol o ddarparu'r amodau sy'n ei gwneud yn bosib i fentrau ffynnu'n fewnol a dod yn fwy cystadleuol yn allanol gan wella sylfaen sgiliau a gwybodaeth yr ardal ar yr un pryd. Dylai'r ddwy thema weithio gyda'i gilydd a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ardal drawsffiniol.

4.2 Sail resymegol dros Ymyriad Cronfeydd Strwythurol

Daw yn amlwg o'r proffil rhanbarthol a'r heriau cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad fod gwella sylfaen ymchwil a datblygu'r rhanbarth trawsffiniol, hyrwyddo entrepreneuriaeth a busnesau arloesol a datblygu systemau addysg a hyfforddiant sy'n ymateb i anghenion cymdeithas fodern yn hollbwysig er mwyn sicrhau twf cyson a ffyniant y rhanbarth trawsffiniol. Atgyfnerthir hyn gan bolisïau strategol yr Undeb Ewropeaidd, yn arbennig Strategaeth Lisboa a Chanllawiau Strategol y Gymuned sy'n cyfeirio'n benodol at greu mwy o swyddi a swyddi gwell, annog arloesi, entrepreneuriaeth a'r economi wybodaeth. Mae'r ddwy wlad wedi mynd â'r polisïau hyn yn eu blaenau yn eu priod Fframweithiau Cyfeirio Strategol Cenedlaethol. Trwy ddefnyddio ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag anghenion busnes, yn arbennig cwmnïau bach cynhenid, a helpu i ddatblygu gweithlu symudol, gwybodus medrus, gellir mynd i'r afael â'r amcanion polisi hyn yn llwyddiannus ar draws y rhanbarth.

Mae'n amlwg y gellir elwa'n sylweddol o gydweithredu ar y materion hyn ar sail drawsffiniol. Mae'r rhanbarth yn weddol fach ac ymylol mewn perthynas â gweddill y DU ac mae'n sicr o fod ar ei hennill o gydweithredu ar faterion sy'n peri pryder i'r naill ac i'r llall. Trwy ddod â'r talentau gorau ynghyd ar sail drawsffiniol gallwch ehangu'r gronfa arbenigedd a defnyddio heriau a safbwyntiau gwahanol ar gyfer heriau cyffredin. Mae gan y rhanbarth asedau addysgol ac ymchwil cryf yn arbennig yn ei Sefydliadau Addysg Uwch, datblygu mentrau ac asiantaethau hyfforddiant a thrwy ddod â'r rhain at ei gilydd ynghyd â harneisio profiad ac arbenigedd grwpiau busnes a BBaChau, mae rhanbarth yn sicr o fod ar ei ennill.

4.3 Grwpiau Targed/Buddiolwyr

Mae'r rhaglen yn ceisio gweithredu mewn modd cynhwysol, gan barchu cyfle cyfartal, ac annog cymaint ag y bo modd o boblogaeth yr ardal i gymryd rhan. I'r pwrpas hwnnw, bydd yn ystyried ceisiadau gan bob sefydliad sydd wedi cymhwyso'n briodol sy'n abl i ddatblygu a chyflenwi prosiectau all hyrwyddo ei amcanion strategol ar lefel rhaglen a blaenoriaeth.

Bydd y Rhaglen yn chwilio am geisiadau gan y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol. Dyma enghreifftiau o fathau o sefydliadau dan y penawdau bras hyn allai wneud cais am gyllid sef sefydliadau addysg bellach ac uwch, awdurdodau lleol, cymdeithasau diwydiant ac asiantaethau menter, cyrff a noddir gan y wladwriaeth, cyrff gwirfoddol a chymdeithasau a grwpiau datblygu cymunedol.

4.4 THEMA 1 – Arloesedd a Chystadleurwydd

4.4.1 Sail resymegol dros Ymyriad Cronfa Strwythurol

Mae'r rhanbarth trawsffiniol yn wynebu heriau cyffredin mewn cysylltiad â datblygu economi arloesol, seiliedig ar wybodaeth. Ar hyn o bryd mae dwy ran y rhanbarth trawsffiniol yn dioddef gan sylfaen Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Thechnoleg weddol wan o gymharu ag economïau mwy aeddfed; mae'r ffigur cymharol isel sy'n cael ei wario ar Ymchwil a Datblygu fel canran o CMC yn ardal y rhaglen yn dangos hyn. Mae angen cynyddu lefel yr ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch a phellach i'r eithaf hefyd er mwyn cael effaith wirioneddol ar gystadleurwydd yr ardal. Mae angen cryfhau diwydiant cynhenid hefyd a'u hannog i weithio gyda'i gilydd a chreu syniadau newydd er lles y naill a'r llall. Gellir gwneud hyn trwy rwydweithiau, fforymau gwahanol sectorau a chadwyni cyflenwi. Trwy gydweithio yn y gwahanol ardaloedd hyn gall dwy ran y rhanbarth gyfuno a rhannu eu harbenigedd er lles yr economi'n fwy cyffredinol o fewn y rhanbarth trawsffiniol a hefyd o fewn y priod aelod-wladwriaethau.

4.4.2 Prif Amcanion

- Datblygu dulliau ar y cyd o feithrin ymchwil ac annog cydweithredu mewn datblygu technoleg ymhlith busnesau ac mewn sefydliadau addysg uwch a phellach a hwyluso trosglwyddo technoleg i ddiwydiant a BBaChau yn y rhanbarth trawsffiniol.
- Datblygu amgylchedd entrepreneuriaidd cryfach trwy gefnogi clystyrau trawsffiniol a chanolfannau rhagoriaeth mewn sectorau allweddol.
- Gwella hyfywedd, perfformiad ac arbenigedd busnes yn drawsffiniol drwy gefnogi arloesedd yn nhermau datblygu cynnyrch a phrosesau a gwella systemau busnes.
- Datblygu rhaglenni arloesi ar y cyd â'r nod o helpu BBaChau i fod yn gynhyrchiol a chystadleuol.
- Hwyluso datblygu sectorau twf a mentrau posibl gan gynnwys mentrau cymdeithasol yn y rhanbarth trawsffiniol.

4.4.3 Gweithrediadau Dangosol

- Dulliau arloesol tuag at ddatblygu rheolaeth, mentora arweinyddiaeth a rhwydweithiau cymorth mewn BBaChau.

- Creu clystyrau rhithiol neu gorfforol yn yr ardal drawsffiniol.
- Targedu trosglwyddo gwybodaeth uwch dechnoleg a thechnoleg benodol rhwng sefydliadau addysg uwch a phellach Cymru ac Iwerddon. Gallai'r sectorau gynnwys bwyd a diod, hamdden forol ac arfordirol, diwydiannau creadigol, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol a gwyddorau ymhlith eraill.
- Mentrau twristiaeth niche cydweithredol o gylch marchnadoedd gyda photensial twf a datblygu cynnyrch ar y cyd.
- Cydweithrediad diwylliannol ag agwedd fwy trefnus gan ddangos fod manteision economaidd gwirioneddol i'r rhanbarth. Byddai'n rhaid i fentrau fel hyn gyd-fynd â blaenoriaethau Strategaeth Lisboa a chynyddu gwerth economaidd ac chynaliadwyedd hirdymor.
- Datblygu diwylliant entrepreneuriaidd ar draws pob sector, gan gynnwys y sector cyhoeddus, a mynd i'r afael â heriau anweithgarwch trwy ddatblygu a rhwydweithio mentrau cymdeithasol yng Nghymru ac Iwerddon.

4.4.4 Targedau/Dangosyddion

Dylai'r dangosyddion allbwn a chanlyniadau a nodir adlewyrchu cyfraniad yr ERDF yn unig.

Allbynnau

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
Nifer y prosiectau ar y cyd sy'n ceisio hyrwyddo a datblygu arloesedd mewn BBaChau gan gynnwys cysylltiadau â sefydliadau AU/AB	0	11
<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y prosiectau ar y cyd sy'n ceisio hyrwyddo a datblygu entrepreneuriaeth a datblygu busnesau newydd gan gynnwys clystyrau busnes trawsffiniol 	0	11
<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y BBaChau sy'n derbyn cymorth 	0	300

Canlyniadau

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
• Nifer y rhai newydd a gafodd eu creu	0	10
• Nifer cynnyrch/prosesau newydd a ddatblygwyd	0	15
• Nifer swyddi newydd uniongyrchol gros a grëwyd	0	20

4.5 THEMA 2 – Sgiliau ar gyfer cystadleurwydd ac integreiddio cyflogaeth

4.5.1 Sail resymegol dros Ymyriad Cronfa Strwythurol

Roedd yr heriau cyffredin a wynebai'r rhanbarth trawsffiniol hefyd yn cydnabod fod hyfforddiant ac addysg yn faes addas dros ben ar gyfer cydweithredu trawsffiniol. Mae hyn yn cysylltu'n daclus â Chanllawiau Strategol y Gymuned sy'n pwysleisio'r angen i greu mwy o swyddi a rhai gwell. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw gyda gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda a gwelir hyn yn gynyddol fel yr allwedd i ddenu swyddi ymchwil a datblygu arloesol i'r rhanbarth.

Mae dwy ran y rhanbarth trawsffiniol wedi nodi materion cyffredin ble gall cydweithredu greu budd gwirioneddol fel datblygu sgiliau medrus, y dull tuag at ddatblygu dysgu gydol oes a gwella ansawdd addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg uwch a phellach, datblygu addysg ddoethurol a gwella mynediad at hyfforddiant i grwpiau dan anfantais er mwyn hwyluso integreiddio cyflogaeth effeithiol. Trwy gydweithio ar y materion hyn dylai fod yn bosib sicrhau lefelau uwch mewn datblygu sgiliau, cyflogaeth a chydlyniant cymdeithasol.

Un o'r prif elfennau a fydd o gymorth i gyflawni hyn yw'r sefydliadau addysg uwch a phellach o'r radd flaenaf sydd â hanes nodedig eisoes o gydweithredu mewn rhaglenni INTERREG blaenorol ac sydd hefyd yn cydweithio ar raglenni megis rhaglen Fframwaith DG Research. Mae eu prosiectau wedi dangos gwerth ychwanegol clir ar draws nifer o wahanol sectorau ac mae'r rhaglen hon yn gyfle gwirioneddol i fynd â'r cydweithredu hwn gam ymhellach. Bydd asiantaethau'r wladwriaeth yn yr ardal yn ogystal â'r sector gwirfoddol a chymunedol hefyd yn gallu darparu safbwyntiau a dulliau amgen o fynd i'r afael â'r heriau hyn.

4.5.2 Prif Amcanion

Prif amcanion y Thema hon yw:

- mynd i'r afael â materion sgiliau cyffredin i BBaChau, yn arbennig i wella sgiliau rheoli a datblygu sgiliau i gwrdd ag anghenion yr economi sy'n newid nawr ac yn y dyfodol.
- cael mwy o werth economaidd o'r cymwysterau lefel uwch sydd ar gael yn y rhan fwyaf o'r ardal drawsffiniol.
- datblygu dulliau cyffredin tuag at ddarparu hyfforddiant a datblygu sgiliau sy'n caniatáu integreiddio mewnfudwyr a grwpiau eraill sydd dan anfantais arbennig i waith.
- datblygu sgiliau a mynd i'r afael â bylchau sgiliau fydd yn hwyluso twf economaidd mewn sectorau busnes allweddol yn y rhanbarth trawsffiniol gan gynnwys sectorau twristiaeth, morwrol, amaeth, ynni a phetrogemegau a sectorau gyda photensial ar gyfer twf megis busnesau cysylltiedig ag ymchwil a datblygu.
- cydweithredu ar sail drawsffiniol i wella'r systemau dysgu a datblygu'r gweithlu i gwrdd yn well ag anghenion y rhanbarth trawsffiniol gan ganolbwyntio ar bob un o lefelau'r system addysg a dysgu gydol oes.

4.5.3 Gweithdrediadau Dangosol

- Dulliau arloesol o wella perfformiad BBaChau drwy gynyddu sgiliau a datblygu cysylltiadau uniongyrchol gyda busnesau a darparwyr hyfforddiant.
- Cyfnewid arfer da mewn meysydd fel datblygu rheolaeth a darparu hyfforddiant sgiliau cyffredinol ehangach.
- Dulliau arloesol o wella sgiliau mewn sectorau allweddol gan gynnwys: sgiliau allweddol yn y diwydiant twristiaeth cysylltiedig â datblygiad a thwf cynnyrch marchnad niche a sgiliau gwasanaeth cwsmer; sgiliau yn y sectorau ynni ac amgylcheddol mewn cysylltiad â ffynonellau ynni adnewyddadwy, fel ymateb i her newid yn yr hinsawdd.
- Datblygu systemau a phrosesau i gynyddu gwneud defnydd cynhyrchiol o sgiliau lefel uwch a gradd, gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau trawsffiniol rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch a busnesau lleol; mentrau ar y cyd mewn hyfforddiant ôl-radd a threfnu cyrsiau hyfforddiant arbenigol.
- Gwella rhaglenni dysgu menter arloesol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch gan gynnwys integreiddio'n effeithiol o fewn cwricwla, er mwyn cynyddu nifer y cwmnïau lleol twf uchel.

- Gwella cydweithredu rhwng ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, darparwyr hyfforddiant preifat a sefydliadau eraill i agor llwybrau ac ehangu'r ddarpariaeth cyfleoedd dysgu sydd ar gael i bobl ifanc fynd i'r afael â thangyflawni a goresgyn rhwystrau rhag cyfranogi'n llawn yn y farchnad lafur.
- Rhaglenni ar y cyd i integreiddio mewnfudwyr sydd newydd gyrraedd a grwpiau eraill dan anfantais i brif lif y gweithlu.
- Cydweithredu i ganfod tueddiadau mewn anghenion sgiliau yn y dyfodol yn yr ardal drawsffiniol.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer lleoedd i raddedigion ar draws ffiniau mewn BBaChau.

4.5.4 Targedau/Dangosyddion

Dylai'r dangosyddion allbwn a chanlyniadau a nodir adlewyrchu cyfraniad yr ERDF yn unig.

Allbynnau

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
Nifer y prosiectau hyfforddi cydweithredol sy'n mynd i'r afael ag anghenion sgiliau BBaChau a diwydiant yn y rhanbarth trawsffiniol	0	9
Nifer y prosiectau ar y cyd sy'n ceisio gwella a chryfhau systemau dysgu a datblygu gweithlu	0	4
Nifer y prosiectau ar y cyd sy'n ceisio darparu hyfforddiant ac addysg i fewnfudwyr a grwpiau dan anfantais	0	5
Nifer y buddiolwyr sy'n cynnal cyrsiau hyfforddi/modiwlau trawsffiniol	0	500

Canlyniadau

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
Nifer y buddiolwyr sy'n derbyn cymwysterau ardystiedig	0	350

Blaenoriaeth 2 – Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy

4.6 Amcanion Blaenoriaeth

- Mynd i'r afael â'r heriau cyffredin a achosir gan newid yn yr hinsawdd trwy reoli ein hadnoddau ffisegol a naturiol mewn modd amgylcheddol gynaliadwy .
- Darparu cyfleoedd i bobl y rhanbarth trawsffiniol adnewyddu ac adfywio eu cymunedau'n gynaliadwy.

Datblygir hyn trwy gyfrwng dwy thema.

Thema 1 – Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Cynaliadwy

Thema 2 – Adfywio Cymunedau'n Gynaliadwy

Mae'r dewis o themâu'n adlewyrchu eu haddasrwydd ar gyfer cydweithredu trawsffiniol a'u pwysigrwydd canolog hefyd i ddatblygiad y rhanbarth trawsffiniol yn y dyfodol. Mae agenda Gothenburg yn amlinellu'r llwybr datblygu cynaliadwy'n glir i'r UE a adlewyrchir ym mholisiâu cenedlaethol rhannau cyfansoddol ardal y rhaglen.

4.7 Sail resymegol dros Ymyriad Cronfa Strwythurol

Diffiniwyd datblygu cynaliadwy yng Nghyngor Ewropeaidd Gothenburg fel bodloni anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu rhai cenedlaethau'r dyfodol, ac ymdrin â pholisiâu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mewn ffordd sy'n cefnogi'r naill a'r llall. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd, sicrhau trafndiaeth gynaliadwy, mynd i'r afael â bygythiadau i iechyd y cyhoedd, rheoli adnoddau naturiol yn fwy cyfrifol ac integreiddio polisi amgylcheddol i bolisiâu Cymunedol eraill³⁸.

Mae'n eglur o'r proffil rhanbarthol a'r heriau cyffredin sydd wedi dod i'r amlwg o hyn fod y rhanbarth yn wynebu heriau cyffredin mewn cysylltiad â datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd a datblygu cymunedau cynaliadwy. Atgyfnerthir hyn gan bolisiâu strategol yr Undeb Ewropeaidd, yn arbennig Strategaeth Gothenburg a Chanllawiau Strategol y Gymuned sy'n cyfeirio'n benodol at wneud rhanbarthau'n fwy atyniadol trwy warchod eu potensial amgylcheddol. Atgyfnerthwyd y themâu hyn ymhellach yn y priod Fframweithiau Cyfeirio Strategol Cenedlaethol yn ogystal â pholisiâu cenedlaethol manwl ym maes newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy.

³⁸ Competitiveness, sustainable development and cohesion in Europe – From Lisbon o Gothenburg

Mae llawer i'w ennill o gydweithio ar sail drawsffiniol ym maes newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn faterion rhyngwladol sy'n effeithio i'r un graddau ar ddwy ran y rhanbarth. Y peth mwyaf amlwg yw bod y rhanbarth yn rhannu adnodd cyffredin ym Môr Iwerddon. Prif ffocws un mesur o raglen 2000-2006 oedd yr amgylchedd morol ac mae'n dangos fod gwerth ychwanegol amlwg i gydweithredu trawsffiniol fel yr eglurwyd yn barod. Yn ychwanegol at hyn mae'r her anferth o wynebu newid yn yr hinsawdd a'r priod gyfrifoldebau o dan Brotoocol Kyoto. Mae effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn debygol o fod yn debyg ac mae'r rhanbarth yn sicr o elwa o geisio datblygu dulliau newid ar sail gydweithredol ar y cyd i ymdrin â hyn.

Un nodwedd sy'n rhoi cefnogaeth allweddol i Ganllawiau Strategol y Gymuned yw cydlyniant cymdeithasol a chadernid y cymunedau yn y rhanbarth trawsffiniol y mae llawer ohono wedi ei gynnwys yn Nimensiwn Tiriogaethol y Polisi Cydlyniant. Mae rhaglen 2000-2006 wedi dangos y gall cynnwys y gymuned â'r sector cymdeithasol ym maes datblygu cymunedol ddod â gwerth ychwanegol gwirioneddol i gymunedau mewn ardaloedd trefol a gwledig. Ni fyddai prosiectau cymunedol sydd wedi'u cynnal wedi digwydd o gwbl heb gymorth gan raglen Iwerddon Cymru 2000-2006. Mae cefnogaeth i sefydliadau ym maes mentrau economi gymdeithasol, twristiaeth a datblygiad diwylliannol ynghyd â glanhau a chynnal a chadw ardaloedd arfordirol yn tystio i sbardun ac egni cymunedau lleol yn yr ardal drawsffiniol. Mae'r adolygiad o raglen 2000-06 sydd ar gael yn www.seregassembly.ie yn rhoi gwybodaeth bellach o safbwynt ymwneud y sector gwirfoddol a chymunedol. Mae'r thema hon yn gyfle gwirioneddol i yrru'r egni hwnnw yn ei flaen a chynyddu a gwella lefel y cydweithredu trawsffiniol. Er mwyn hwyluso cydweithredu bydd trefnir olynydd i Gynllun Rhwydweithio Iwerddon Cymru yn fuan.

4.8 Grwpiau targed/Buddiolwyr

Mae'r rhaglen hon yn ceisio gweithio mewn modd cynhwysol, gan barchu cyfle cyfartal, ac annog y cyfranogiad ehangaf posibl ymhlith poblogaeth yr ardal. Gyda hynny mewn golwg bydd yn ystyried ceisiadau gan bob sefydliad sydd wedi cymhwyso'n briodol sy'n abl i ddatblygu a chyflawni prosiectau all hyrwyddo ei hamcanion strategol ar lefel rhaglen a blaenoriaeth.

Bydd y Rhaglen yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol. Dyma enghreifftiau o fathau o sefydliadau dan y penawdau bras hyn allai wneud cais am gyllid sef sefydliadau addysg bellach ac uwch, awdurdodau lleol, cymdeithasau diwydiant ac asiantaethau menter, cyrff a noddur gan y wladwriaeth, cyrff gwirfoddol a grwpiau a chymdeithasau datblygu cymunedol.

4.9 Thema 1 – Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Cynaliadwy

4.9.1 Sail resymegol dros Ymyriad Cronfa Strwythurol

Newid yn yr Hinsawdd yw un o'r newidiadau pwysicaf sy'n wynebu'r byd, a bydd angen i ddwy ran y rhanbarth trawsffiniol leihau cyfanswm y nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu gollwng er mwyn helpu i gyfyngu graddau newid yn yr hinsawdd; ar yr un pryd ag addasu i'w effeithiau. Mae gan Lywodraeth y DU darged i leihau allyriadau CO₂ o 20% erbyn 2010 a 60% erbyn 2050. Mae Llywodraeth Iwerddon wedi gosod targed i leihau allyriadau CO₂ i 13% uwchlaw lefelau 1990 yn y cyfnod 2008-2012. Ar hyn o bryd mae'r hinsawdd yn newid yn llawer cynt nag y mae wedi gwneud o'r blaen, ac mae'r newid yn y tymheredd yn adlewyrchu'r cynnydd mewn carbon atmosfferig yn sgil gweithgaredd dynol.

Mae hwn yn fater sy'n debygol o gael yr un faint o effaith ar ddwy ran y rhanbarth trawsffiniol. Gallai effeithiau posibl fel canlyniad uniongyrchol i newid yn yr hinsawdd, fod yn lefelau môr uwch a newidiadau mewn patrwm tywydd er enghraifft, a allai arwain at berygl mwy o lifogydd, colli bioamrywiaeth, mwy o beryglon iechyd pobl, a newidiadau mewn cyflenwadau bwyd a thwristiaeth. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at risgiau uwch i fusnesau a chostau uwch fel premiymau yswiriant. Gallai Cymru ac Iwerddon hefyd brofi effeithiau anuniongyrchol yn sgil newid yn yr hinsawdd ar rannau eraill o'r byd, er enghraifft pobl yn mudo o ardaloedd agored i niwed, a rhywogaethau'n symud o ardaloedd deheuol.

Carbon deuocsid (CO₂) sydd â'r gyfran fwyaf o allyriadau o ddigon. Ni all systemau naturiol gymhathu swm y CO₂ sy'n cael ei ollwng ac felly mae crynodiadau o'r nwy yn codi. Am y rheswm hwn, ffocws y gweithredu fu gostwng allyriadau carbon deuocsid a bydd hynny'n parhau.

Dim ond rhan o'r ateb i arafu newid yn yr hinsawdd yw cynaliadwyedd amgylcheddol. Er mwyn atal ac yn y pen draw gwrthdroi'r golled mewn adnoddau amgylcheddol dylai pob Aelod-wladwriaeth gynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob maes polisi.

Mae nifer o feysydd y gellir rhoi sylw iddynt gan ddefnyddio'r rhaglen drawsffiniol ble gall Cymru ac Iwerddon gydweithio i gymhwyso'r egwyddor 'meddwl yn fyd-eang gweithredu'n lleol'. Mae'r rhanbarth trawsffiniol yn cynnwys nifer fawr o sefydliadau, megis sefydliadau addysg uwch, adrannau llywodraeth ac asiantaethau sydd â hanes o gydweithio er budd y rhanbarth. Nod y rhaglen fydd adeiladau ar sail y profiad hwn i gynyddu eu profiad o ragoriaeth wyddonol ac amgylcheddol er budd pawb yn y rhanbarth trawsffiniol.

Yr her allweddol fydd datblygu ymyriadau wedi'u targedu sy'n cefnogi cymunedau, awdurdodau cyhoeddus, a'r sector busnes i sylweddoli'r manteision anferth sy'n deillio o ddatblygu mwy cynaliadwy a newid agwedd tuag at yr amgylchedd.

NI fydd gweithrediadau a gaiff eu dewis i dderbyn cymorth grant o dan y thema hon yn cynnwys cymorth ar gyfer unrhyw weithgareddau fel y rhestrir hwy o fewn Atodiad II y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (2001/42/EC) na "phrosiectau" fel y'u diffinnir gan Erthygl 1 o Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol na'r rheini sydd wedi eu rhestru yn Atodiad I a II o'r Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (85/337/EEC).

4.9.2 Prif Amcanion

- Datblygu mentrau ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a dylanwadu ar ymddygiad pobl mewn perthynas â'r amgylchedd a defnyddio ynni.
- Ymgysylltu ar lefel gymunedol wrth ddatblygu prosiectau peilot a phrosiectau ar raddfa fach i leihau'r ynni a ddefnyddir ac allyriadau carbon a llwyddo i gael effaith ymarferol ar lefel leol.
- Harneisio talentau a gallu ar y cyd y rhanbarth mewn addysg bellach ac uwch a'r sylfaen ymchwil a datblygu i ymladd bygythiad newid yn yr hinsawdd trwy ddatblygu technolegau arloesol.
- Ymchwil bellach i adnoddau ynni adnewyddadwy a phrosiectau peilot i arddangos sut i'w cymhwyso'n ymarferol a'u trosglwyddo i gymunedau busnes a chymunedau ehangach.
- Chwilio am ffordd gyffredin ymlaen ar warchod amgylchedd arfordirol a morol i'w mwynhau yn y dyfodol gan gydbwysu gwarchod yr amgylchedd a budd economaidd.
- Cydweithredu ymhellach ac adeiladu ar sail gwaith llwyddiannus a wnaed yn barod o dan Raglen INTERREG IIIA Iwerddon Cymru i ddod â gwerth ychwanegol i warchod y fioamrywiaeth ac ecosystemau yn yr ardal drawsffiniol.

4.9.3 Gweithrediadau Dangosol

- Ymgyrchoedd cyhoedduswydd a chynlluniau gweithredu trawsffiniol i hyrwyddo newidiadau mewn ymddygiad o ran defnyddio ynni'n effeithlon.
- Hyrwyddo a datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy ac amgen, yn arbennig o fewn cymunedau Iwerddon a Chymru, gan annog atebion megis ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr, er enghraifft pŵer tonnau a'r llanw, ynni'r haul, micro-ynni a gwres a phŵer cyfunedig.

- Hyrwyddo a datblygu biodanwydd a phrosiectau eraill cynaliadwy neu garbon isel eraill cysylltiedig â mathau cynaliadwy o ddefnydd tir yn y rhanbarth trawsffiniol.
- Datblygu galluoedd ar draws Iwerddon a Chymru i ganfod a mesur effeithiau/senarios (cadarnhaol a negyddol) newid yn yr hinsawdd yn lleol a datblygu strategaethau a phrosiectau peilot wedi'u seilio ar dystiolaeth y gellir eu haddasu i droi'r hyn allai fod yn effeithiau negyddol yn gyfleoedd newydd.
- Gwella amgylchedd morol a thir arfordirol, gan gynnwys dulliau rheoli ymarferol (ee. Cynllunio Gofodol Morol) gan weithio gyda rhanddeiliaid lleol a chynnwys cymunedau.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd twristiaeth cynaliadwy gan gynnwys ymchwil a datblygu i warchodfeydd natur morol yn y môr a gwarchodfeydd natur eraill, yn gysylltiedig â datblygu twristiaeth gynaliadwy'n unol â safonau eco cenedlaethol. Ymchwil a rheoli bygythiadau niwsans i dwristiaeth yn sgil newid yn yr hinsawdd.
- Rheoli/gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau mewn dyfroedd arfordirol ac yn y tir/gwlyptiroedd ac ati'n gynaliadwy, a gwaith ymchwil cysylltiedig i reoli dŵr a pheryglon llifogydd integredig yn nalgylchoedd afonydd.
- Hyrwyddo gwerthuso, asesu a datblygu cynhyrchion ynni carbon isel fel sector marchnad niche cynhyrchiol newydd ³⁹.

4.9.4 Dangosyddion

Dylai'r dangosyddion allbwn a chanlyniadau a nodir adlewyrchu cyfraniad yr ERDF yn unig.

Allbwn

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
Nifer y prosiectau trawsffiniol yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth neu'n ymateb i her newid yn yr hinsawdd	0	9
Nifer y prosiectau cydweithredol yn gwarchod ac/neu wella'r amgylchedd naturiol.	0	9

Canlyniadau

	Gwaelodlin	Targed

³⁹ Mae Adroddiad UK Stern (2006) yn awgrymu fod y farchnad fyd-eang ar gyfer cynnyrch ynni carbon-isel yn debygol fod yn werth o leiaf \$500 biliwn y flwyddyn erbyn 2050.

		Terfynol
Nifer y cysylltiadau trawsffiniol newydd a sefydlwyd	0	9
Nifer y mesurau a weithredwyd sy'n ymateb i her newid yn yr hinsawdd	0	9
Nifer y gwelliannau yr ymgwymerwyd â hwy	0	9
Nifer y prosiectau sy'n lledaenu canlyniadau i randdeiliaid ac/neu gymunedau neu adroddiadau a gyhoeddwyd	0	9

4.10 Thema 2 – Adfywio Cymunedau'n Gynaliadwy

4.10.1 Sail resymegol dros Ymyriad Cronfa Strwythurol

Mae Dimensiwn Tiriogaethol y Polisi Cydlyniant fel y mae wedi ei amlinellu yng Nghanllawiau Strategol y Gymuned yn rhoi cefnogaeth bwysig wrth ddatblygu cyfres o ymyriadau fydd yn mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd ardal y rhaglen. Mae'r canllawiau hefyd yn cyfeirio at yr angen i gynnal gweithlu iach. Ar sail hyn mae cymhelliant i annog datblygiad cymunedol cryf. Trwy adeiladau a chynnal cymunedau cryf yn unig y gellir cael rhanbarthau cryf all fod yn atyniadol ar gyfer datblygu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae datblygu a meithrin cyfalaf cymdeithasol⁴⁰ yn hanfodol er mwyn cynnal cydlyniant cymdeithasol. Y ffordd orau i wneud hyn yw trwy feithrin a thwf cymunedau cryf yn y rhanbarth trawsffiniol sy'n hollbwysig i gefnogi twf a chreu swyddi. Trwy ymwneud pobl â'i gilydd y ceir y math cywiraf o gydweithredu trawsffiniol. Bydd y thema hon yn ceisio meithrin datblygiad cymunedau ar ddwy ochr y rhanbarth. Er gwaethaf llwyddiant economaidd cymharol y ddwy ran o'r rhanbarth mae llawer o broblemau o hyd. Mae mudo o gefn gwlad, gostyngiad mewn gweithgarwch gwirfoddol, pocedi o amddifadedd economaidd, a chaethiwed i gyffuriau'n arbennig wedi cyfuno i niweidio ffabrig llawer o gymunedau.

Mae rhaglen 2000-2006 wedi hwyluso datblygiad cymunedol ar sawl lefel wahanol ac mae'r rhaglen hon yn ceisio adeiladu ar y cynnydd a wnaed i godi cydweithredu trawsffiniol i lefel arall. Trwy ddod â chymunedau o'r ddwy wlad at ei gilydd mae cyfle o bwys i ddysgu oddi wrth ein gilydd ac i ddatblygu dulliau a safbwyntiau gwahanol sy'n gallu darparu gwerth ychwanegol a gwella atyniad cymunedau eraill yn y rhanbarth ac o fewn ardaloedd ehangach y ddwy wlad.

4.10.2 Prif Amcanion

- Hwyluso a hyrwyddo gweithgareddau ar y cyd er mwyn sicrhau cymunedau byw yn ardaloedd trefol a gwledig y rhanbarth.

⁴⁰ Mae cyfalaf cymdeithasol yn cyfeirio at y cysylltiadau rhwng unigolion – rhwydweithiau cymdeithasol a'r safonau cyffredin o ddwyochredd a dibynadwyedd sy'n codi ohonynt

- Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd ar y cyd ar gyfer adfywio cynaliadwy, gan roi cydnabyddiaeth i'r amgylchedd naturiol, asedau adeiledig a diwylliant a threftadaeth y rhanbarth trawsffiniol.

4.10.3 Gweithrediadau Dangosol

- Ymchwil ac asesiadau effaith ar y cyd i newidiadau cymdeithasol a chymunedol, gan gynnwys newid demograffaid, effeithiau prosiect adfywio mawr ar gymunedau; hwyluso cymhwysio ymarferol sy'n rhoi manteision i'r rhanbarth.
- Cymunedau lleol yn ymwneud yn weithredol â datblygu dulliau ar y cyd o hyrwyddo a hwyluso cynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys ymgorffori mewn fudwyr, lleiafrifoedd ieithyddol, a'r rheini nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.
- Cymorth i fentrau a chyfnewidiadau trawsffiniol i gyfrifo/aseinio a gwerth economaidd i adnoddau cymdeithasol ac economaidd sydd tu allan i'r farchnad (er enghraifft gwerth hanfodol tirwedd⁴¹, gwlyptir, gwasanaeth cymunedol wedi'i seilio ar wirfoddolwyr) fel mewnbwn i ddatblygu cynaliadwy ac adfywio cymunedau lleol.
- Cymorth i ddatblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwarchod/gwella'r amgylchedd ar y cyd.
- Datblygu gallu o fewn cymunedau i ymgysylltu a rhannu arfer gorau a syniadau mewn adfywio cymunedol, amgylcheddol ac economaidd arloesol.
- Hyrwyddo a datblygu mentrau treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol (Cymraeg / Gwyddeleg) gyda phwyslais ar gefnogi datblygiad economaidd yr ardal drawsffiniol.
- Rhannu arfer gorau ar adfywio economaidd o fewn y gymuned ehangach gan gynnwys mentrau cymdeithasol sy'n darparu manteision uniongyrchol sy'n berthnasol ar draws ffiniau.
- Datblygu trosglwyddo a chyfnewid gwybodaeth mewn hyrwyddo iechyd a lles.

4.10.4 Dangosyddion

Dylai'r dangosyddion allbwn a chanlyniadau a nodir adlewyrchu cyfraniad yr ERDF yn unig.

Allbynnau

⁴¹ Pe bai adnodd o'r fath ddim yn bodoli'n naturiol beth fyddai'r gost i'w rhoi yn y fan honno

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
Nifer y prosiectau ar y cyd yn canolbwyntio ar weithredu adfywio cymunedol cynaliadwy.	0	14

Canlyniadau

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
Nifer y cysylltiadau cymunedol, menter gymdeithasol neu ddiwylliannol newydd a sefydlwyd	0	7
Nifer y mesurau newydd a roddwyd ar waith	0	14
Nifer y swyddi newydd uniongyrchol gros a grewyd	0	6

Blaenoriaeth 3 – Cymorth Technegol

4.11 Cyflwyniad

O dan y Flaenoriaeth hon, bydd gwariant sy'n unol ag Erthygl 46 o Reoliad Comisiwn (EC) Rhif 1083/2006 yn gymwys i dalu'r costau yr eir iddynt gan yr Awdurdod Rheoli (neu asiantaethau yn gweithredu ar ei ran) mewn cysylltiad â rheoli'r Rhaglen Weithredol yn gyffredinol.

4.12 Amcanion

Amcan cyffredinol y Flaenoriaeth yw cefnogi rheoli, gwerthuso a monitro'r Rhaglen Weithredol.

4.13 Thema Cymorth Technegol

O dan y Thema gall yr ERDF, yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir yn Erthygl 46 (1) (b), gefnogi meysydd fel paratoi, rheoli, monitro, gwerthuso, gwybodaeth a gweithgareddau rheoli'r Rhaglen Weithredol ynghyd â gweithgareddau i atgyfnerthu'r gallu gweinyddol i weithredu'r Gronfa.

4.14 Grwpiau Targed/Buddiolwyr

Dyma restr ddangosol o'r rhai sy'n debygol o dderbyn budd o'r Flaenoriaeth hon:

Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
 Awdurdodau Lleol yn ardal y rhaglen
 Uned Rheoli Cyllidol ERDF
 Adran Gyllid

4.15 Gweithrediadau Dangosol

Bydd y gweithrediadau dangosol a ganlyn yn gymwys o dan y Thema hon;

- gwariant cysylltiedig â pharatoi, dethol, gwerthuso a monitro cymorth a gweithrediadau;
- gwariant ar gyfarfodydd y Pwyllgor Monitro a Phwyllgor(au) Llywio cysylltiedig â rhoi cymorth ar waith;
- gwariant cysylltiedig ag archwiliadau a gwirio gweithrediadau yn y fan a'r lle;
- gwariant ar gamau gwybodaeth cysylltiedig â'r Rhaglen Weithredol;
- cyllid ar gyfer Swyddogion Datblygu yng Nghymru ac Iwerddon ymhlith pethau eraill, i feithrin ceisiadau prosiect, adeiladu gallu a hwyluso a chydlynu partneriaethau a phrosiectau trawsffiniol;
- cymorth ar gyfer paratoi cynigion prosiect, cyngor ar gymhwyster ac adeiladau ceisiadau;
- cyllid i gynorthwyo'r Gyd-ysgrifenyddiaeth Dechnegol yn Iwerddon a'r Pwynt Cyswllt yng Nghymru i gyflawni ei swyddogaeth;

4.16 Dangosyddion

Dylai'r dangosyddion allbwn a chanlyniadau a nodir adlewyrchu cyfraniad yr ERDF yn unig.

Allbynnau

	Gwaelodlin	Targed Terfynol
Nifer y swyddi newydd uniongyrchol gros a grëwyd	0	10
Sefydlu Cyd-ysgrifenyddiaeth Dechnegol	0	1
Sefydlu cronfa ddata prosiect	0	1
Nifer y Digwyddiadau Cyhoeddusrwydd	0	14
Nifer y cylchlythyrau a gynhyrchwyd	0	6
Nifer y gwerthusiadau a'r astudiaethau a gafodd eu cynnal	0	3
Sefydlu Gwefan Rhaglen	0	1

PENNOD 5

Cymorth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chynlluniau Ariannol

Ar ôl i'r Cyngor Ewropeaidd gytuno ar y perspectifau ariannol cyffredinol ar gyfer y cyfnod 2007-2013, ar 4 Awst 2006, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd y dadansoddiadau blynyddol sefydlog o'r ymrwymadau ariannol ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth o 2007 hyd 2013. Yn dilyn trafodaethau mewnol yn y DU ac Iwerddon, mae'r ddwy Aelod-wladwriaeth wedi dod i'r penderfyniad y dyrennir cyfanswm o €52,695,295 o ERDF o'u priod ddyraniadau o dan Gydweithio Tiriogaethol, tuag at Raglen Iwerddon- Cymru.

Mae Erthygl 53 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006 yn mynnu mai'r gyfradd cyd-ariannu ERDF uchaf sy'n gymwys o dan y Rhaglen Weithredol hon yw 75% felly rhaid i'r dyraniad ariannol cenedlaethol ddarparu o leiaf 25% o arian cyfatebol. Mae'r Awdurdodau Rhaglennu wedi pennu mai'r gyfradd gymorth fydd yn cael ei mabwysiadu ar gyfer y Rhaglen Weithredol hon fydd 75% o gyfanswm y gwariant cyhoeddus. Fel y darparwyd o dan y Rheoliadau, lluniwyd y Rhaglen Ariannol ar gyfer y rhaglen hon ar sail cyfanswm y gwariant cyhoeddus cymwys. Ar sail hyn bydd cyfanswm y gwariant cyhoeddus a gyd-ariennir o dan y Rhaglen hon dros € 70 miliwn, tra bod cyfanswm y gwariant preifat ychwanegol dangosol a ragamcenir yn €2 miliwn.

Fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 37.1(e) o'r Rheoliad Cyffredinol (1083/2006) paratowyd Cynllun Ariannu sy'n cynnwys dau dabl. Mae'r tabl cyntaf yn rhoi dadansoddiad ar gyfer cyfanswm dyraniad yr ERDF ar lefel rhaglen bob blwyddyn, ynghyd â'r cymheiriaid cenedlaethol sy'n cyd-fynd. Mae'r ail dabl yn nodi ar gyfer y cyfnod rhaglennu cyfan, i'r Rhaglen Weithredol ac ar gyfer pob Blaenoriaeth, cyfanswm cyfraniad y Gymuned a'r cymheiriaid cenedlaethol a chyfradd y cyfraniad gan y Cronfeydd.

Mae'r Cynllun ariannol sy'n cynnwys y ddau dabl hyn ar gael yn Atodiad 1.

Yn ogystal, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 37.1(d) darperir dadansoddiad dangosol fesul categori o'r defnydd a raglennwyd o'r cyfraniad o'r Cronfeydd i'r Rhaglen Weithredol yn Atodiad 2.

Yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006 sy'n mynnu fod yn rhaid i gymorth grant fod yn "gyson â gweithgareddau, polisïau a blaenoriaethau'r Gymuned ac yn ategu offerynnau ariannol eraill y Gymuned" bydd adnoddau'n cael eu dyrannu fel a ganlyn:

Blaenoriaeth 1 - 57% o'r holl adnoddau

Blaenoriaeth 2 - 37% o'r holl adnoddau

Blaenoriaeth 3 - 6% o'r holl adnoddau

Dylai dyrannu 57% o'r adnoddau sydd ar gael i Flaenoriaeth 1 a 37% i Flaenoriaeth 2 ganiatáu ar gyfer crynodiad digonol o arian ym mhob ardal i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gefnogi Canllawiau Strategol y Gymuned ar Gydlyniant, a strategaethau Lisboa a Gothenburg. Dylai'r penderfyniad i ganolbwyntio ar ddwy thema ym mhob blaenoriaeth fod o gymorth hefyd yn hyn o beth a seiliwyd hyn i raddau ar brofiad rhaglen 2000-06 oedd yn cynnwys chwe mesur rhwng y ddwy flaenoriaeth.

PENNOD 6

Cyfatebolrwydd â Rhaglenni/Cronfeydd eraill

Yn unol ag Erthygl 12.7 Rheoliad ERDF, mae'r Bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am gyfatebolrwydd â rhaglenni eraill a ariennir gan yr UE, yn benodol â gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a chan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF).

Er mwyn sicrhau y defnyddir ac y sianelir arian yr UE yn y ffordd orau bosibl i hybu datblygiad cynaliadwy, dylid cydweithio i wella cyfatebolrwydd a synergedd rhwng amrywiol feysydd mecanweithiau cyd-ariannu'r Gymdeithas ac eraill, megis polisi cydlyniant, datblygiad gwledig, LIFE+, Ymchwil a Datblygiad Technolegol (RTD), y Rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi (CIP) a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF).

Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sicrhau y sefydlir strwythurau ag Awdurdodau Rheoli rhaglenni eraill sy'n gweithredu yn y rhanbarth trawsffiniol i sicrhau bod cymorth y cronfeydd yn gyson â gweithgareddau, polisiâu a blaenoriaethau'r Gymuned ac yn ategu offerynnau ariannol eraill y Gymuned, ac na chaiff ymdrechion eu dyblygu.

6.1 Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chynlluniau Strategaeth Genedlaethol (NSP) Datblygu Gwledig 2007-2013

Mae Polisi Cronfa Amaethyddiaeth newydd Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yn cynnwys mesurau penodol i ffermio a mesurau i gefnogi datblygiad yr economi wledig ehangach. Yn ystod y cyfnod rhwng 2007 a 2013, ni fydd EAFRD yn rhan o'r 'cronfeydd strwythurol'.

Yng Nghymru ac Iwerddon, bydd polisi datblygu gwledig 2007-2013 yn canolbwyntio ar y tri phrif faes a nodir yn y rheoliad datblygu gwledig newydd:

- 1) Cynyddu cystadleurwydd y sector amaethyddol drwy roi cefnogaeth i ailstrwythuro,
- 2) Gwellu'r amgylchedd a chefn gwlad drwy roi cefnogaeth i reoli tir,
- 3) Cryfhau ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig a hybu arallgyfeirio gweithgareddau economaidd drwy fesurau sy'n targedu'r sector ffermio a ffactorau gwledig eraill.

Mae pedwerydd maes (LEADER) yn prif ffrydio'r strategaethau datblygu lleol a ddatblygwyd drwy ddull gweithredu o'r gwaelod i fyny, ac a ariannwyd yn flaenorol dan y fenter LEADER.

Ni fydd y Rhaglen 2007-2013 hon yn targedu gweithgareddau sy'n gymwys am gyllid dan raglenni EAFRD. Fodd bynnag, dan y Flaenoriaeth Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy, mae'r rhaglen yn cynorthwyo'r amcan i geisio sicrhau y gall pobl a chymunedau ddatblygu a thyfu'n gryfach mewn cytgord â'r amgylchedd. Bydd gweithgareddau a ariennir dan y Flaenoriaeth hon yn ategu ymdrechion EAFRD.

6.2 Cronfa Pysgodfeydd Ewrop

Yn yr un modd ag EAFRD, ni fydd Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF), fydd yn gweithredu rhwng 2007 a 2013, yn rhan o'r "cronfeydd strwythurol".

Cynigir rhoi blaenoriaeth i bedair echelin :

- mesurau i addasu'r fflyd bysgota;
- dyframaeth, prosesu a masnachu pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaeth;
- mesurau o gyd-ddiddordeb;
- datblygu parthau arfordirol lle ceir pysgota yn gynaliadwy ;

Bydd y Rhaglen Weithredol hon yn ategu ymdrechion EFF yn benodol drwy fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu ac arloesi morol ac amgylcheddol a thrwy hybu adfywio cymunedau'n gynaliadwy.

6.3 Rhaglenni Gweithredol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

IWERDDON

Mae'r ardal gymwys yn rhan o ranbarth NUTS II ehangach sy'n gymwys am gymorth dan elfen Cystadleurwydd y cronfeydd strwythurol. Bydd gan y rhanbarth ei raglen Gystadleurwydd ddynodedig ei hun fydd â thair blaenoriaeth benodol.

1. Arloesi a'r Economi Wybodaeth
2. Yr Amgylchedd a Hygyrchedd
3. Blaenoriaeth Datblygu Trefol Cynaliadwy (Cronfa Gateways and Hubs)

Yr un fydd Awdurdod Rheoli'r ddwy raglen Cystadleurwydd yn ogystal â'r Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol hon.

Bydd y Rhaglen Weithredol hon yn ategu gweithgarwch dan y rhaglen ERDF ranbarthol drwy fynd i'r afael â materion o bryder trawsffiniol mewn perthynas ag arloesi a'r economi wybodaeth a datblygiad cynaliadwy.

CYMRU

Mae CMC y pen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn is na 75% o gyfartaledd yr UE25, felly bydd yn gymwys am gyllid llawn dan Amcan Gydgyfeirio Persbectif Ariannol 2007-2013.

Bydd pum prif flaenoriaeth ar gyfer gwariant ERDF o fewn y Rhaglen Gydgyfeirio;

1. Datblygu'r economi seiliedig ar wybodaeth
2. Gwella cystadleurwydd busnesau
3. Datblygu seilwaith strategol
4. Creu amgylchedd busnes deniadol
5. Datblygu cymunedau cynaliadwy

Awdurdod Rheoli'r rhaglen hon fydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, fydd hefyd yn darparu cyfleusterau swyddfa gyswllt Cymru ar gyfer y Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol.

Bydd y Rhaglen Weithredol hon yn ategu gweithgaredd dan raglenni ERDF cenedlaethol drwy fynd i'r afael â materion o bryder trawsffiniol mewn perthynas ag arloesi a'r economi wybodaeth a drwy ddatblygu cymunedau cynaliadwy.

Gan fod y ddau bartner yn rhan ganolog o raglenni cenedlaethol a ariennir gan ERDF, byddant mewn sefyllfa i sicrhau y bydd pob prosiect a ddewisir ar gyfer y rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol hon yn gydategol ac na fyddant yn dyblygu gweithgarwch dan raglenni ERDF a ariennir yn genedlaethol.

Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd – Meysydd Trawsgenedlaethol a Rhynggranbarthol

Mae Cymru ac Iwerddon gyfan yn rhan o'r ardaloedd cymwys ar gyfer Rhaglen Gogledd Orllewin Ewrop a Rhaglen Drawsgenedlaethol Ardal yr Iwerydd.

Mae Rhaglen Gogledd Orllewin Ewrop wedi'i seilio ar bedair blaenoriaeth weithredol:

1. Datblygu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth Gogledd Orllewin Ewrop drwy elwa ar ein gallu i arloesi
2. Rheoli adnoddau naturiol a risgiau naturiol a thechnolegol yn gynaliadwy
3. Gwella cysylltedd yn Gogledd Orllewin Ewrop drwy hyrwyddo atebion deallus a chynaliadwy ar gyfer Trafnidiaeth a TGCh
4. Hybu cymunedau cryf a ffyniannus ar lefel drawsgenedlaethol

Mae Rhaglen Ardal yr Iwerydd wedi'i seilio ar bedair blaenoriaeth weithredol:

1. Hyrwyddo Rhwydweithiau Trawsgenedlaethol, Entrepreneuriaid ac Arloesi
2. Amddiffyn, Diogelu a Chyfoethogi Amgylchedd yr Arfordir a'r Môr yn Gynaliadwy

3. Gwella Hygyrchedd a Chysylltiadau Mewnol
4. Hyrwyddo Synergeddau Trawsgenedlaethol ar gyfer Datblygu Trefol a Rhanbarthol Cynaliadwy

Mae'r rhaglenni hyn yn cwmpasu ardal ddaearyddol llawer ehangach, ond mae eu blaenoriaethau'n ategu'r hyn a gyflawnir yn y rhaglen hon. Maent yn ymgorffori rhai themâu tebyg o ran natur a gallai cyfleoedd godi i rannu profiadau ac arferion gorau rhwng y Rhaglenni. Er enghraifft, gallai prosiect llwyddiannus yn y Rhaglen drawsffiniol fod yn sail i gydweithrediad ehangach yn ddiweddarach drwy'r Rhaglenni trawsgenedlaethol. I'r gwrthwyneb, gallai syniadau sy'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith ar lefel drawsgenedlaethol gynnwys meysydd fyddai o ddiddordeb i ddatblygiad trawsffiniol. Mae'r ddau Awdurdod Cenedlaethol yn rhan o bob un o'r Rhaglenni hyn, a gallant fynd i'r afael ag unrhyw faterion cyfatebolrwydd fel y bo'n briodol wrth weithredu'r Rhaglen drawsffiniol.

Mae Cymru ac Iwerddon gyfan hefyd yn gymwys am gefnogaeth dan y Rhaglen Rhynggranbarthol.

Mae ganddi ddwy flaenoriaeth, sef

1. Arloesi a'r Economi Wybodaeth
2. Yr Amgylchedd ac Atal Risg

Mae'r Rhaglen hon yn cwmpasu'r UE27 cyfan yn ogystal â Norwy a'r Swistir, ond mae ei blaenoriaethau'n ategu'r hyn a gyflawnir yn y rhaglen hon. Maent yn ymgorffori rhai themâu tebyg o ran natur ac, fel ar y lefel drawsgenedlaethol, gallai cyfleoedd hefyd godi i rannu profiadau ac arferion gorau rhwng y Rhaglenni. Mae'r ddau Awdurdod Cenedlaethol yn rhan o'r elfen Ryngranbarthol a gallant fynd i'r afael ag unrhyw faterion cyfatebolrwydd fel y bo'n briodol wrth weithredu'r Rhaglen drawsffiniol.

6.4 Rhaglenni Gweithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

IWERDDON

Yn Iwerddon, mae Rhaglen Weithredol ESF yn cael ei datblygu ar lefel genedlaethol o amgylch dwy flaenoriaeth:

1. Hyfforddiant ac Addysg i Wella Hyblygrwydd y Gweithlu
2. Cyfranogiad ac Ysgogiad y Gweithlu.

Bydd y rhaglen weithredol hon yn ategu gweithgareddau'r rhaglen genedlaethol a ariennir gan ESF drwy geisio mynd i'r afael â materion trawsffiniol cyffredin mewn perthynas â materion sgiliau penodol BBaChau, cymwysterau lefel uwch,

edrych ar faterion sgiliau sectorau penodol sy'n gyffredin i'r ardal drawsffiniol ac ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu.

CYMRU

Bydd pedair prif flaenoriaeth ar gyfer gwariant ESF dan y Rhaglen Gydgyfeirio:

1. Rhoi'r sgiliau angenrheidiol i bobl ifanc gael gwaith
2. Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd
3. Codi lefelau sgiliau a gwella hyblygrwydd y gweithlu
4. Creu'r Cysylltiadau – moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus

Bydd y rhaglen weithredol hon yn ategu gweithgareddau'r rhaglenni cenedlaethol hyn a ariennir gan ESF drwy geisio mynd i'r afael â materion trawsffiniol cyffredin mewn perthynas â materion sgiliau penodol BBaChau, cymwysterau lefel uwch, edrych ar faterion sgiliau sectorau penodol sy'n gyffredin i'r ardal drawsffiniol ac ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu.

6.5 Y Seithfed Rhaglen Fframwaith Ymchwil

Cynhelir y 7^{fed} Rhaglen Fframwaith i gyfrannu at greu cymdeithas sy'n seiliedig ar wybodaeth, gan adeiladu ar Faes Ymchwil Ewropeaidd. Bydd yn cryfhau rhagoriaeth mewn ymchwil wyddonol a thechnolegol drwy'r pedair rhaglen ganlynol: cydweithredu, syniadau, pobl a galluoedd.

Un o ganolbwyntiau allweddol y Rhaglen Weithredol hon fydd agenda Lisboa. Mae hybu ac annog arloesi, yr economi wybodaeth, entrepreneuriaeth ac ymchwil a datblygu o fewn y Rhanbarth oll yn gydrannau hanfodol ar gyfer sicrhau mwy o gystadleurwydd ar gyfer y dyfodol, ac yn ategu nod gyffredinol y 7^{fed} Fframwaith.

Yn Rhaglen Weithredol yn cydategu a chydgefnogi'r gweithgareddau gaiff eu hariannu dan y 7^{fed} Fframwaith.

6.6 Y Ffin rhwng Rhaglenni Gweithredol ERDF, EAFRD ac EFF

Yn ystod y cam dylunio, rhoddwyd ystyriaeth briodol i osgoi dyblygu ymdrechion rhwng rhaglenni. Mae'r rhaglenni wedi'u cynllunio i fod yn gydategol ac yn synergaid â'i gilydd. Wrth eu gweithredu, caiff strwythurau eu sefydlu gan Awdurdodau Rheoli pob rhaglen i ddarparu manylion y ffiniau ac i sicrhau cydweithrediad a chyfatebolrwydd rhwng y Rhaglenni. Yn ogystal, oherwydd y

gofynion am gyd-brosiectau trawsffiniol a'r defnydd o'r Egwyddor Partner Arweiniol, ni ddylai gweithgareddau a ariennir gan y rhaglen hon ddyblygu ymdrechion, ond yn hytrach eu hategu dan y rhaglenni eraill a ariennir trwy un ffynhonnell a weithredir ar lefel Aelod-wladwriaeth.

PENNOD 7

Y Themâu Trawsbynciol

7.1 Cyflwyniad

Yn unol ag Erthyglau 16 a 17 y Rheoliad Cyffredinol⁴², mae'r Rhaglen Weithredol yn cynnwys gwybodaeth am y camau a gymerwyd i ddangos y dilynir amcanion y Cronfeydd yn y fframwaith datblygu cynaliadwy a hefyd i osgoi unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, hil neu darddiad ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol yn ystod amrywiol gamau gweithredu'r Cronfeydd ac yn arbennig wrth wneud cais amdanynt.

Mae themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a datblygiad cynaliadwy wedi'u hintegreiddio i bob un o raglenni'r Gronfa Strwythurol 2007-2013 yng Nghymru ac Iwerddon. Mae wedi adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed wrth integreiddio'r themâu trawsbynciol i gyflwyno rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2000-2006. Er bod gan Raglen Iwerddon-Cymru 2000-2006 drydedd thema drawsbynciol, sef Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), ni chaiff hon ei chynnwys fel thema drawsbynciol yn rhaglen ar gyfer 2007-2013 oherwydd y cynnydd sylweddol a wnaed eisoes wrth brif ffrydio TGCh drwy holl brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol. Y dymuniad yw gallu trin pob un o'r themâu fel hyn yn y dyfodol, ond nid ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eto gyda chyfleoedd cyfartal a datblygiad cynaliadwy.

Ers cychwyn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-2006, mae'r themâu trawsbynciol wedi cael eu gosod o fewn cyd-destun polisi datblygol. Mae Llywodraethau Cynulliad Cymru ac Iwerddon wedi datblygu polisiau ar draws amrediad eu cyfrifoldebau statudol, gan gynnwys datblygiad cynaliadwy a chyfle cyfartal, ac mae pob un o'r rhain yn cysylltu'n uniongyrchol â themâu trawsbynciol y Rhaglen hon.

Mae'r berthynas rhwng y themâu trawsbynciol a Blaenoriaethau/Themâu yn amrywio drwy'r Rhaglen. Y dull gorau yw i noddwyr prosiectau geisio dulliau realistig o weithredu, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae eu prosiectau'n eu cynnig i hybu cyfle cyfartal a datblygiad cynaliadwy.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi crynodebau o'u seiliau rhesymegol ac amcanion y ddwy thema drawsbynciol. Maent hefyd yn cynnig amcanion penodol a gweithgareddau posibl i ddangos sut y gallai pob Blaenoriaeth gyflawni'r nodau hynny.

⁴² Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006

7.2 Cyfle Cyfartal

Mae Rheoliad y Cyngor 1083/2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau sicrhau yr hyrwyddir cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac yr integreiddir y persbectif rhyw yn ystod amrywiol gamau gweithredu'r Cronfeydd. Mae hefyd yn gofyn i'r Aelod-wladwriaethau gymryd camau priodol i osgoi unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, hil neu darddiad ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol yn ystod amrywiol gamau gweithredu'r Cronfeydd ac yn arbennig wrth wneud cais amdanynt. Yn benodol, mae hygyrchedd ar gyfer pobl anabl yn un o'r meini prawf y dylid ei barchu wrth ddiffinio gweithrediadau a gydariennir gan y Cronfeydd ac y dylid rhoi ystyriaeth iddo yn ystod yr amrywiol gamau gweithredu⁴³.

Mae Canllawiau Strategol y Gymuned yn galw ar Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau i ddilyn amcan cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ar bob cam o baratoi a gweithredu rhaglenni a phrosiectau. Gellir gwneud hyn drwy gamau penodol i hybu cydraddoldeb neu fynd i'r afael â gwahaniaethu, yn ogystal â drwy roi ystyriaeth ofalus i sut y gallai prosiectau eraill a rheolaeth y cronfeydd effeithio ar fenywod a dynion.

Yn ogystal â'r angen i hybu cydraddoldeb rhywiol, mae'n bwysig bod y Rhaglen yn mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n wynebu anfanteision lluosog. Mae hefyd angen trechu'r rhwystrau i gydbwysedd bywyd a gwaith a datblygu dulliau integredig o helpu pobl â phroblemau iechyd, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn, pobl anabl a rhieni unigol.

Mae deddfwriaeth Iwerddon, y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gofyn am ddehongliad ehangach o gyfle cyfartal na rhyw yn unig. Y nod yw hybu mynediad cyfartal i bawb at addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith a gynigir gan y Rhaglen ni waeth beth fo'u rhyw, anabledd, tarddiad ethnig, crefydd neu gred, oed na chyfeiriadedd rhywiol, gan barchu natur ddwyieithog nifer o gymunedau'r rhanbarth. Bydd sicrhau bod cyfleoedd ar gael i holl ddinasyddion y rhanbarth trawsffiniol yn cyfrannu at dwf yn yr economi, yn unol ag agenda Lisboa ar gyfer swyddi a thwf a *Strategaeth Gyflogaeth Ewrop*. Mae'r Canllawiau Cyflogaeth o fewn *Strategaeth Gyflogaeth Ewrop* hefyd yn pwysleisio bod cyfle cyfartal a threchgu gwahaniaethu yn hanfodol er mwyn gwneud cynnydd⁴⁴.

O fewn rhanbarth Cymru a rhai rhannau o ranbarth trawsffiniol Iwerddon, mae dimensiwn ieithyddol sylweddol i'r gwaith o hybu cyfle cyfartal. Gall y cyfrwng ieithyddol a'r fformat hygyrch a ddefnyddir i gyflwyno cyfleoedd effeithio ar gyfranogiad, yn enwedig gan bobl sy'n siarad Cymraeg, Gwyddeleg neu iaith arall fel iaith gyntaf, neu bobl anabl. Yn yr un modd, bydd pobl ar ymylon cymdeithas yn parhau i gael eu hallgáu os na allant gael gafael ar wasanaethau a chyfleoedd am nad ydynt yn teimlo y gallant gyfathrebu'n effeithiol. Rhaid dylunio datblygiadau economaidd ac addysgol i roi ystyriaeth i bwysigrwydd iaith

⁴³ Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006, Erth.16

⁴⁴ Canllawiau Cyflogaeth Ewrop,

fel agwedd ddiffiniol ar rai cymunedau, a dylid nodi mai Cymraeg yw iaith y mwyafrif o hyd mewn rhai cymunedau gwledig yng Nghymru. Dylid gwneud darpariaethau yn unol â hynny er mwyn osgoi'r perygl y gallai'r datblygiadau eu hunain ychwanegu at ddirywiad ieithyddol a diwylliannol ac effeithio'n anffafriol ar gymeriad y cymunedau dan sylw.

7.2.1 Amcan Cyfle Cyfartal

Amcan allweddol y Rhaglen o ran cyfle cyfartal yw hybu mynediad cyfartal i bawb at yr addysg, yr hyfforddiant, y gwaith a'r cyfleoedd eraill y mae'r Rhaglen yn eu cynnig, ni waeth beth fo'u rhyw, anabledd neu darddiad ethnig, gan barchu natur ddwyieithog nifer o'r cymunedau yn yr ardal drawsffiniol.

7.2.2 Gweithredu ar Lefel Prosiect

Er mwyn mynd i'r afael â chyfle cyfartal ar lefel ymarferol wrth eu gweithredu, bydd rhaid i brosiectau roi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Sicrhau cyfleoedd cyfartal i ferched er mwyn lleihau ffactorau galwedigaethol fertigol a llorweddol o ran rhyw ac i leihau'r bwch cyflog rhwng dynion a menywod
- Rhoi ystyriaeth i anghenion penodol menywod a dynion sydd dan anfantais, yn anabl neu o gefndiroedd du neu leiafrifoedd ethnig
- Sicrhau cyfleoedd cyfartal i siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg a rhoi ystyriaeth i effaith gweithgareddau ar gymunedau dwyieithog
- Ystyried effaith diwylliant y cymunedau penodol yr anelir y gweithgareddau atynt
- Hyrwyddo pob gweithgaredd mewn fformat hygyrch, gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg lle bo hynny'n briodol
- Mynd i'r afael â chyfrifoldebau am blant a chyfrifoldebau gofal eraill a materion sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd teuluol

Bydd arweiniad ar lefel gweithgaredd yn cael ei baratoi ynghyd ag enghreifftiau o arferion gorau fydd yn darparu gwybodaeth benodol am sut y gall hyrwyddwyr prosiectau fynd i'r afael â datblygiad cynaliadwy o fewn cynlluniau eu prosiect. Bydd cyngor arbenigol ar gael o bob ffynhonnell berthnasol i bartneriaethau sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu prosiectau.

7.2.3 Dethol Prosiectau a Dangosyddion Rhaglenni

Er mwyn sicrhau y rhoddir digon o bwys ar gyflwyno'r themâu trawsbynciol ar lefel Rhaglen a phrosiect, gosodir dangosyddion penodol drwy'r Rhaglen wrth baratoi cynlluniau gweithredu ar gyfer pob blaenoriaeth. Yn ogystal, bydd meini prawf dethol y prosiect yn sicrhau y caiff prosiectau eu harchwilio ar y sail eu bod yn cydymffurfio ac yn hybu cyfleoedd cyfartal. Caiff arbenigwyr ar Gyfle Cyfartal eu cynrychioli ar Bwyllgor(au) Llywio'r Rhaglenni i sicrhau bod y prosiectau a ddetholir yn cydymffurfio ag amcan cyfle cyfartal y rhaglen.

7.3 Datblygiad Cynaliadwy

Nod Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE, yn unol â Strategaeth Lisboa dros dwf a swyddi, yw datblygu Ewrop sy'n fwy ffyniannus, yn lanach ac yn decach. Mae Datblygu Cynaliadwy yn gysyniad troswaol. Mae Cytuniad yr UE yn ei gwneud yn ofynnol integreiddio datblygu cynaliadwy i bob un o bolisiâu Ewrop, fel eu bod yn cyfrannu mewn modd integredig i fodloni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Nod Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE, a fabwysiadwyd gan y Cyngor Ewropeaidd yn Gothenburg fis Mehefin 2001, ac a adnewyddwyd ym Mehefin 2006, yw ceisio cysoni datblygiad economaidd, cydlyniant cymdeithasol ac amddiffyn yr amgylchedd. Mae monitro cynnydd tuag at y nod troswaol hwn yn rhan hanfodol o'r Strategaeth⁴⁵. Mae materion amgylcheddol yn ddimensiwn allweddol o'r Polisi Cydlyniant yn ystod 2007 – 2013, tra bod hybu twf cynaliadwy yn un o gonglfeini Agenda Lisboa a Gothenburg.

Caiff y cysyniad o integreiddio amgylcheddol bellach ei dderbyn yn llawnach fel un o nodweddion deddfwriaeth, polisi llywodraethol a rhaglenni datblygu cenedlaethol. Ceir gwell gwerthfawrogiad o bwysigrwydd rhannu cyfrifoldeb am yr amgylchedd gan bob un o sectorau cymdeithas a cheir gwell mynediad i'r cyhoedd at wybodaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Yn unol â hyn, mae Rheoliad y Cyngor 1083/2006 yn nodi y bydd camau a gymerir dan y Cronfeydd yn ymgorffori, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, flaenoriaethau'r Gymuned o blaid datblygu cynaliadwy drwy gryfhau twf, cystadleurwydd a chyflogaeth, cynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd⁴⁶. Bydd amcanion y Cronfeydd yn cael eu dilyn yn y fframwaith datblygu cynaliadwy ac yng ngwaith y Gymuned o hybu'r nod o warchod a gwella'r amgylchedd fel y nodir yn Erthygl 6 y Cytuniad⁴⁷. Mae Datblygu Cynaliadwy - er bodloni anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol - yn amcan sylfaenol dan y Cytuniadau. Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â pholisiâu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mewn modd sy'n cyfnerthu'i gilydd. Bydd methu â gwrthdroi tueddiadau sy'n bygwth ansawdd bywyd y dyfodol yn cynyddu'r costau i gymdeithas yn fawr neu'n gwneud y tueddiadau hynny'n anwrthdroadwy.

Er bod amgylchedd y rhanbarth trawsffiniol o safon uchel ar y cyfan, mae pwysau ar yr amgylchedd yn cynyddu. Mae'r pwysau hyn yn ganlyniad i dwf economaidd cyflym, yn arbennig yn y sectorau cludiant ac ynni, poblogaethau sy'n cynyddu a threfoli, newidiadau mewn arferion amaethyddol a defnydd o dir a chynnydd yn y gwastraff a gynhyrchir. Mae newid yn yr hinsawdd hefyd wedi ychwanegu'n sylweddol at y pwysau ar yr amgylchedd. Mae angen ymwybyddiaeth a gwyliadwriaeth er mwyn amddiffyn yr ased hwn, a'i wella lle bo'r angen, er budd a mwynhad cenedlaethau'r presennol a rhai'r dyfodol. Cynigir heriau sylweddol

⁴⁵ Ireland's Environment 2004, Trydydd Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd yr EPA

⁴⁶ Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006, Erth. 3

⁴⁷ Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006, Erth.16

os yw Cymru ac Iwerddon am wella eco-ffeithlonrwydd a chynnal dull mwy cynaliadwy tuag at ddatblygu.

Mae'r ymrwymiad i egwyddor datblygu cynaliadwy, o ran dylunio gweithrediadau a mesur eu heffaith ar yr amgylchedd, yn tanategu'r Rhaglen Weithredol hon. Yn hyn o beth, roedd y rhaglen yn gaeth i ofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (SEA)⁴⁸, a droswyd yn gyfraith yn yr Aelod-wladwriaethau. Er bod yr Adroddiad Sgrinio wedi dod i'r canlyniad nad oedd angen Adroddiad Amgylcheddol llawn, mae'r Awdurdod Rheoli wedi ymrwymo'i hun i sicrhau y caiff effeithiau amgylcheddol y Rhaglen eu monitro wrth ei gweithredu. Ni fydd y Rhaglen hon yn ariannu unrhyw weithgaredd fydd yn gwneud difrod i safleoedd a warchodir yn statudol.

7.3.1 Amcan Datblygu Cynaliadwy

Yr amcan cyffredinol yw gwella asedau amgylcheddol o fewn y rhanbarth ac ar yr un pryd hybu defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd er budd y gymdeithas a'r economi.

7.3.2 Gweithredu ar Lefel Prosiect

Er mwyn mynd i'r afael â datblygu cynaliadwy ar lefel ymarferol wrth eu gweithredu, bydd prosiectau yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- bod pob gweithgaredd yn cydnabod ac yn gwneud defnydd priodol o gryfderau amgylcheddol yr ardal drawsffiniol, heb leihau ansawdd amgylcheddol yr ardal,
- bod y Rhaglen yn hybu'n weithredol y cyfleoedd amgylcheddol a glustnodwyd mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at fudd yr economi a'r gymdeithas,
- y cymerir camau i ymateb i'r gwendidau amgylcheddol a glustnodwyd,
- nad yw gweithredoedd prosiectau yn niweidio nac yn difrodi safleoedd NATURA 2000,
- ac y cymerir camau i ddeall ac ymateb yn briodol i fygythiadau amgylcheddol yr ardal.

Bydd arweiniad ar lefel gweithgaredd yn cael ei baratoi ynghyd ag enghreifftiau o arferion gorau fydd yn darparu gwybodaeth benodol am sut y gall hyrwyddwyr prosiectau fynd i'r afael â datblygiad cynaliadwy o fewn cynlluniau eu prosiect. Bydd cyngor arbenigol ar gael o bob ffynhonnell berthnasol i bartneriaethau sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu prosiectau.

Cynrychiolir sefydliadau datblygu cynaliadwy allweddol y rhanbarth trawsffiniol ar y Pwyllgor Llywio er mwyn sicrhau bod y prosiectau a ddetholir yn cydymffurfio ag amcan datblygu cynaliadwy'r rhaglen.

⁴⁸ Cyfarwyddeb 2001/42/EC ar Asesu Effeithiau Cynlluniau a Rhaglenni penodol

7.3.3 Dethol Prosiectau a Dangosyddion Rhaglenni

Er mwyn sicrhau y rhoddir digon o bwys ar gyflwyno'r themâu trawsbynciol ar lefel Rhaglen a phrosiect, gosodir dangosyddion penodol drwy'r Rhaglen wrth baratoi cynlluniau gweithredu ar gyfer pob blaenoriaeth. Yn ogystal, bydd meini prawf dethol y prosiect yn sicrhau y caiff prosiectau eu harchwilio ar y sail eu bod yn cydymffurfio ac yn hybu cyfle cyfartal.

Mae targedau datblygu cynaliadwy a osodir ar lefel y gweithgareddau a gaiff eu cefnogi gan y rhaglen hefyd yn sbardun pwysig i annog prosiectau i fynd i'r afael ag amcanion datblygu cynaliadwy'r rhaglen, a byddant yn cael eu cynnwys fel gofyniad wrth gymeradwyo prosiectau.

PENNOD 8

Gweithredu

8.1 Cyflwyniad

Nod y bennod hon yw disgrifio gweithdrefnau gweithredu Rhaglen Weithredol Iwerddon/Cymru sy'n unol â darpariaethau Erthygl 37.1(g) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y Rheoliad Cyffredinol).

8.2 Trefniadau Rheoli a Monitro

Yr Awdurdod Rheoli, dan reolaeth Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, fydd yn gyfrifol am reoli Rhaglen Iwerddon-Cymru. Yr Awdurdod Rheoli fydd yn gyfrifol am reoli a goruchwyllo gweithrediad y rhaglen weithredol yn unol ag egwyddorion rheolaeth ariannol gadarn. Bydd yr Awdurdod Rheoli a'r Pwyllgor Monitro yn cyflawni eu rôl fonitro gan gyfeirio at ddangosyddion y rhaglen a dangosyddion ariannol. Caiff cyfrifoldebau'r Awdurdod Rheoli mewn perthynas â Chymru eu nodi mewn Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr Awdurdod Rheoli, Yr Adran Gyllid a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Caiff strwythur rheoli ar y cyd ei sefydlu i reoli, cydlynu a monitro gweithrediad y Rhaglen. Bydd y strwythur yn cynnwys:

- Awdurdod Rheoli.
- Awdurdod Ardystio.
- Cydysgrifenyddiaeth Dechnegol.
- Pwyllgor Monitro.
- Pwyllgorau Llywio.

Yn ogystal â'r cyd-strwythurau hyn, ac o dynnu ar brofiad blaenorol, bydd swyddfa gyswllt yn cael ei sefydlu yng Nghymru. Bydd y swyddfa gyswllt hon (fydd yn rhan o'r Gydysgrifenyddiaeth) yn cydweithio'n agos â'r Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol a'r Swyddogion Datblygu i hyrwyddo'r Rhaglen a chynorthwyo partneriaid prosiect i weithredu prosiectau o ansawdd uchel.

Yr Awdurdod Rheoli

Yr Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen Weithredol Iwerddon-Cymru 2007-13 fydd Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain. Diffinnir cyfrifoldebau'r Awdurdod Rheoli o ran rheoli'r rhaglen weithredol dan Erthygl 60 y Rheoliad Cyffredinol, ac maent yn cynnwys:

- a) sicrhau y detholir gweithrediadau i'w hariannu yn unol â'r meini prawf sy'n gymwys i'r rhaglen weithredol a'u bod yn cydymffurfio, drwy gydol cyfnod eu gweithredu, â rheolau'r Gymuned a chenedlaethol cymwys;
- b) bodloni ei hun bod gwariant pob buddiolwr sy'n cymryd rhan mewn gweithrediad wedi'i ddilysu gan y rheolwr y cyfeirir ato yn Erthygl 16 (1) y rheoliad ERDF;
- c) sicrhau bod yna system gyfrifiadurol ar gyfer cofnodi a storio cofnodion cyfrifon pob gweithrediad dan y rhaglen weithredol ac y cesglir data ar weithredu sy'n angenrheidiol ar gyfer rheolaeth ariannol, monitro, dilysiadau, archwiliadau a gwerthuso;
- d) sicrhau bod buddiolwyr a chyrff eraill sy'n rhan o weithrediad gweithrediadau yn cynnal naill ai system gyfrifo ar wahân neu god cyfrifo digonol ar gyfer yr holl drafodion sy'n ymwneud â'r gweithrediad heb amharu ar reolau cyfrifo cenedlaethol;
- e) sicrhau y cyflawnir gwerthusiadau o'r rhaglenni gweithredol y cyfeirir atynt yn Erthygl 48(3) yn unol ag Erthygl 47 y Rheoliad Cyffredinol;
- f) sefydlu gweithdrefnau i sicrhau y caiff pob dogfen sy'n ymwneud â gwariant ac archwiliadau sy'n ofynnol i sicrhau trywydd archwilio digonol, eu dal yn unol â gofynion Erthygl 90 y Rheoliad Cyffredinol;
- g) sicrhau bod yr Awdurdod Ardystio'n derbyn pob gwybodaeth angenrheidiol ar y gweithdrefnau a'r dilysiadau a gyflawnir mewn perthynas â gwariant, er diben ardystio;
- h) arwain gwaith y Pwyllgor Monitro a darparu'r dogfennau gofynnol i ganiatáu monitro ansawdd gweithrediad y Rhaglen Weithredol gyda golwg ar ei amcanion penodol;
- i) llunio'r adroddiadau blynyddol a therfynol ar weithrediad ac, ar ôl cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Monitro, eu cyflwyno i'r Comisiwn;
- j) sicrhau cydymffurfiaid â'r gofynion o ran gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a nodir yn Erthygl 69 y Rheoliad Cyffredinol;
- k) darparu gwybodaeth i'r Comisiwn i'w alluogi i werthuso prosiectau mawr;
- l) cyd-gadeirio'r Pwyllgor Monitro a darparu'r ysgrifenyddiaeth ar ei gyfer.

Lleolir yr Awdurdod Rheoli yng Nghynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain yn Waterford, Iwerddon. Mae'r manylion cyswllt llawn i'w gweld yn www.seregassembly.ie.

Cydysgrifenyddiaeth Dechnegol

Bydd Cydysgrifenyddiaeth Dechnegol bwrpasol yn cael ei sefydlu dan reolaeth yr Awdurdod Rheoli i gyflwyno'r Rhaglen. Bydd yr ysgrifenyddiaeth hon wedi'i lleoli yn Waterford. Bydd swyddfa gyswllt Cymru, a leolir o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhan o'r Ysgrifenyddiaeth.

Caiff manylion ei thasgau a'i chyfrifoldebau ar gyfer gweinyddu'r Rhaglen o ddydd i ddydd eu cytuno yng nghyfarfod cyntaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, lle caiff rhaglen waith yr Ysgrifenyddiaeth ei chyflwyno. Fodd bynnag, bydd cyfrifoldebau allweddol yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys:

- Cynorthwyo'r Awdurdod Rheoli i sicrhau y rheolir ac y gweithredir y Rhaglen yn gywir ac yn effeithlon;
 - Paratoi a darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar yr Awdurdodau Rheoli ac Ardystio i fodloni eu cyfrifoldebau;
 - Gwasanaethu'r Pwyllgor Monitro a'r Pwyllgorau Llywio, gan gynnwys paratoi papurau ar eu cyfer a drafftio cofnodion cyfarfodydd;
 - Gweithredu a dilyn ymlaen â phob penderfyniad a wneir gan y Pwyllgor Monitro a'r Pwyllgorau Llywio;
 - Creu ffurflenni cais a chanllawiau i ymgeiswyr;
 - Cynorthwyo ymgeiswyr a chysylltu â'r Swyddogion Datblygu yn ystod y broses o ddatblygu a gweithredu'r prosiect;
 - Cynnal asesiad gweinyddol o geisiadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion yr UE a Chenedlaethol ac â'r meini prawf a gytunwyd ar gyfer dethol prosiectau'r Rhaglen;
 - Rhoi gwybod am ganlyniad ceisiadau am grantiau, gan gynnwys rhoi cynnig grant i ymgeiswyr llwyddiannus;
 - Cynorthwyo'r Awdurdod Rheoli i brosesu taliadau i fuddiolwyr;
 - Monitro cynnydd prosiectau drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd gan hyrwyddwyr prosiectau;
 - Cydymffurfio ag ymrwymadau o ran gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys gweithredu strategaeth Gwybodaeth a Chyfathrebu;
 - Rheoli'r gyllideb Cymorth Technegol;
- Disgrifir y defnydd o Gymorth Technegol ar gyfer creu adnoddau i'r Ysgrifenyddiaeth yn y Flaenoriaeth Cymorth Technegol. Gall y Pwyllgor Monitro bennu tasgau a chyfrifoldebau pellach.

Lleolir y Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol yng Nghynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain yn Waterford, Iwerddon. Mae'r manylion cyswllt llawn i'w gweld yn www.seregassembly.ie.

Lleolir Swyddfa Gyswllt Cymru yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ym Merthyr Tudful, Cymru. Mae'r manylion cyswllt llawn i'w gweld yn www.seregassembly.ie.

Swyddogion Datblygu

Ar sail profiadau cadarnhaol cyfnodau rhaglenni blaenorol, bydd Swyddogion Datblygu'n cael eu lleoli yng Nghymru ac Iwerddon er mwyn hwyluso gweithredu'r rhaglen yn y ddwy awdurdodaeth. Caiff gwaith y Swyddogion Datblygu ei gydlynu gan y Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd yn cynorthwyo'r broses o ddatblygu prosiectau. Yn

ogystal, bydd y Swyddogion Datblygu'n chwarae rôl o ran cynghori ymgeiswyr ar baratoi a gweithredu prosiectau. Cyfrifoldeb y ddwy awdurdodaeth yw penderfynu sut y trefnir hyn. Bydd y Swyddogion Datblygu hefyd yn ymwneud â hyrwyddo'r Rhaglen.

Aelodaeth y Pwyllgor Monitro

Caiff Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ei sefydlu o fewn tri mis i benderfyniad y Comisiwn i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol. Bydd aelodaeth y Pwyllgor Monitro yn cynnwys cynrychiolwyr:

- yr Awdurdod Rheoli
- yr Adran Gyllid
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Leol a Rhanbarthol
- Sector yr amgylchedd
- Partneriaid Cymdeithasol (all gynnwys cynrychiolwyr y sectorau preifat a gwirfoddol, y gellir cytuno ar eu haelodaeth yn ôl trefniadau sefydliadol yr Aelod-wladwriaethau priodol)
- Bydd cynrychiolaeth y Comisiwn yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Monitro mewn rôl ymgynghorol, yn yr un modd â chyrrff statudol priodol fydd yn cynrychioli pob un o'r themâu trawsbynciol: cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy.

Ar y cyfan, cyfyngir aelodaeth i gynrychiolwyr ar gyfer pob un o'r buddiannau uchod. Lle bo'n ymarferol ac yn briodol, gall y Pwyllgor Monitro hefyd gynnwys cynrychiolwyr asiantaethau gweithredu a buddiannau sectoraidd fel aelodau. Caiff cydbwysedd rhwng y rhywiau ei hybu ar y Pwyllgor Monitro. Caiff y Pwyllgor Monitro ei gadeirio ar y cyd gan yr Awdurdod Rheoli a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Monitro

Dan Erthygl 65 Rheoliad y Cyngor, bydd y Pwyllgor Monitro'n bodloni'i hun o ran effeithiolrwydd ac ansawdd gweithrediad gwariant a gydariennir gan yr UE, yn unol â'r darpariaethau canlynol:

- a) bydd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r meini prawf ar gyfer dethol gweithrediadau a ariennir o fewn chwe mis i gymeradwyo'r rhaglen weithredol, ac yn cymeradwyo unrhyw ddiwygiad i'r meini prawf hynny yn unol ag anghenion y rhaglen;
- b) o dro i dro, bydd yn adolygu'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni targedau penodol y rhaglen weithredol ar sail dogfennau a gyflwynir gan yr Awdurdod Rheoli;
- c) bydd yn archwilio canlyniadau gweithrediad, yn arbennig cyflawniad y targedau a osodwyd ar gyfer pob echelin flaenoriaeth a'r gwerthusiadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 48 (3);

- d) bydd yn ystyried ac yn cymeradwyo'r adroddiadau blynyddol a therfynol ar weithredu y cyfeirir atynt yn Erthygl 67;
- e) bydd yn cael ei hysbysu am yr adroddiad rheoli blynyddol, neu o ran o'r adroddiad sy'n cyfeirio at y rhaglen weithredol dan sylw, ac o unrhyw sylwadau perthnasol y gall y Comisiwn eu gwneud ar ôl archwilio'r adroddiad hwnnw neu mewn perthynas â rhan honno'r adroddiad;
- f) gall gynnig unrhyw ddiwygiad neu archwiliad o'r rhaglen weithredol i'r Awdurdod Rheoli sy'n debygol o'i gwneud yn bosibl cyrraedd amcanion y cronfeydd y cyfeirir atynt yn Erthygl 3, neu wella ei reolaeth, gan gynnwys ei reolaeth ariannol; a
- g) bydd yn ystyried ac yn cymeradwyo unrhyw gynnig i ddiwygio cynnwys penderfyniad y Comisiwn ar gyfraniad y Cronfeydd.

Rheolau a Gweithdrefnau'r Pwyllgor Monitro

Yn amodol ar gydymffurfio â'r egwyddorion a nodir yn y paragraff blaenorol, a fframwaith sefydliadol, cyfreithiol ac ariannol Iwerddon a'r Deyrnas Unedig, bydd y Pwyllgor Monitro'n gyfrifol am lunio rheolau ei weithdrefnau ei hun a'u cytuno â'r Awdurdod Rheoli er mwyn ymarfer ei fwriadau yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol.

Y Pwyllgor Llywio

Bydd un neu fwy o Bwyllgorau Llywio'n cael eu sefydlu gan y Pwyllgor Monitro. Caiff aelodau'r Pwyllgor Llywio eu dewis o gynrychiolwyr yr Awdurdod Rheoli, Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Gyllid, adrannau perthnasol eraill y llywodraeth, asiantaethau gwladwriaethau a buddiannau sectoraidd gyda chylch gorchwyl polisi sy'n ymwneud â Blaenoriaethau a Themâu'r Rhaglen Weithredol, ac Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol. Gall un o gynrychiolwyr y Comisiwn gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor mewn rôl ymgynghorol. Caiff cydbwysedd rhwng y rhywiau ei hybu ar y Pwyllgor Llywio. Bydd cynrychiolwyr Cydraddoldeb a Datblygu Cynaliadwy hefyd yn aelodau o'r pwyllgor(au).

Prif dasg y Pwyllgor Llywio yw cyd-ddethol prosiectau mewn cydymffurfiaid â'r weithdrefn a'r meini prawf dethol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Monitro yn unol ag Erthygl 65.

Adroddiad Gweithredu Blynyddol a Therfynol

Yn unol ag Erthygl 67 y Rheoliad Cyffredinol, bydd yr Awdurdod Rheoli'n cyflwyno adroddiad gweithredu blynyddol i'r Comisiwn o 2008 ymlaen, erbyn 30 Mehefin fan bellaf, ac yn cyflwyno adroddiad terfynol ar weithredu erbyn 31 Mawrth 2017. Caiff yr adroddiadau blynyddol a therfynol hyn eu harchwilio a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Monitro cyn eu hanfon at y Comisiwn.

Adolygiad Gweithredu Blynyddol

Yn unol ag Erthygl 68 y Rheoliad Cyffredinol, bob blwyddyn, pan gyflwynir yr adroddiad blynyddol ar weithredu y cyfeirir ato yn Erthygl 67, bydd y Comisiwn a'r Awdurdod Rheoli'n archwilio'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r rhaglen weithredol, prif ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol, y gweithrediad ariannol a ffactorau eraill gyda golwg ar wella gweithrediad.

Gellir hefyd archwilio unrhyw agwedd ar weithrediad y system drin a rheoli a godwyd yn yr adroddiad rheoli blynyddol diwethaf, y cyfeirir ato yn Erthygl 62(1)(d)(i). Ar ôl yr archwiliad hwn, gall y Comisiwn wneud sylwadau wrth yr Aelod-wladwriaeth a'r Awdurdod Rheoli, fydd yn hysbysu'r Pwyllgor Llywio am hynny. Bydd yr Aelod-wladwriaeth yn hysbysu'r Comisiwn am y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r sylwadau hynny.

8.3 Trefniadau Trin a Rheoli Arian

Heb amharu ar gyfrifoldeb y Comisiwn am weithredu cyllideb gyffredinol yr Undeb Ewropeaidd, bydd Iwerddon a'r Deyrnas Unedig yn cymryd cyfrifoldeb yn y lle cyntaf am reolaeth ariannol y cymorth.

Bydd trin a rheoli arian yn cynnwys cyfres o weithrediadau ardystio a dilysu cyd-gloedig ar draws gwahanol haenau o reolwyr. Yn unol ag Erthygl 71(1) y Rheoliad Cyffredinol, o fewn deuddeng mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol, bydd yr awdurdodau Gwyddelig yn cyflwyno disgrifiad o'r systemau hyn i'r Comisiwn, gan gynnwys yn benodol yr awdurdodau rheoli ac ardystio a chyrrff canolraddol, yr awdurdod archwilio ac unrhyw gyrff eraill sy'n cynnal archwiliadau dan ei gyfrifoldeb.

Cyflwynir adroddiad gyda'r disgrifiad hwn fydd yn nodi canlyniadau asesiad o sefydlu'r systemau ac yn rhoi barn ar eu cydymffurfiad ag Erthyglau 58 i 62 y Rheoliad Cyffredinol. Yr Awdurdod Archwilio fydd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad asesu hwn.

Amlinellir rolau a chyfrifoldebau penodol y gwahanol haenau hyn yn y paragraffau canlynol.

Ceir siart llif yn rhoi manylion y trefniadau trin a rheoli arian ar gyfer cael gafael ar arian ERDF dan y rhaglen hon yn Atodiad VI.

Rôl yr Awdurdod Ardystio

Mae Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain wedi'i ddynodi fel yr Awdurdod Ardystio er mwyn ardystio datganiadau gwariant a cheisiadau am daliad cyn eu hanfon at y Comisiwn. Bydd swyddogaethau'r Awdurdod Ardystio'n cael eu cyflawni gan Uned Gyllid y Cynulliad Rhanbarthol, sy'n swyddogaethol

annibynnol ar yr Awdurdod Rheoli. Bydd pennaeth yr Awdurdod Ardystio'n adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr y Cynulliad Rhanbarthol.

Bydd yr Awdurdod Ardystio'n gyfrifol am:

- a) lunio datganiadau gwariant a cheisiadau am daliad ardystiedig, a'u cyflwyno i'r Comisiwn;
- b) ardystio bod:
 - i) y datganiad gwariant yn gywir, wedi deillio o systemau cyfrifo dibynadwy ac wedi'i seilio ar ddogfennau ategol dilysadwy,
 - ii) y gwariant a ddatgenir yn cydymffurfio â rheolau perthnasol y Comisiwn a chenedlaethol ac wedi digwydd mewn perthynas â gweithrediadau a ddetholwyd i gael cyllid yn unol â'r meini prawf sy'n gymwys i'r rhaglen ac yn cydymffurfio â rheolau'r Comisiwn a rheolau cenedlaethol;
- c) sicrhau, er dibenion ardystio, ei fod wedi cael gwybodaeth ddigonol gan yr Awdurdod Rheoli am y gweithdrefnau a'r dilysiadau a gyflawnwyd mewn perthynas â'r gwariant a gynhwysir yn y datganiadau gwariant;
- d) rhoi ystyriaeth, er dibenion ardystio, i ganlyniadau pob archwiliad a gynhaliwyd gan neu dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Ardystio;
- e) cynnal cofnodion cyfrifo cyfrifiadurol o'r gwariant a ddatganwyd i'r Comisiwn;
- f) cadw cofnod o symiau adferadwy a symiau a dynnwyd yn ôl yn dilyn canslo'r cyfan neu ran o'r cyfraniad ar gyfer gweithrediad. Caiff symiau adferadwy eu had-dalu i gyllideb gyffredinol yr Undeb Ewropeaidd, cyn cau'r rhaglen weithredol, drwy eu tynnu o'r datganiad gwariant nesaf.

Caiff Cyfrif Banc ar y Cyd ei sefydlu yn enw'r Awdurdod Ardystio. Bydd y Cyfrif Banc ar y Cyd yn cynnwys dau is-gyfrif; un ar gyfer ariannu prosiectau (Blaenoriaeth 1 a 2) a'r llall ar gyfer Cymorth Technegol (Blaenoriaeth 3). Ar gais gwasanaethau awdurdodi'r Awdurdod Rheoli, bydd yr Awdurdod Ardystio'n trosglwyddo taliadau ERDF yn uniongyrchol i'r partneriaid arweiniol cyn gynted ag y bo modd. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â rheolau'r Comisiwn a rheolaeth ariannol gadarn, bydd yr Awdurdod Ardystio'n swyddogaethol annibynnol ar wasanaethau awdurdodi'r Awdurdod Rheoli.

Lleolir yr Awdurdod Ardystio yng Nghynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain yn Waterford, Iwerddon. Mae'r manylion cyswllt llawn i'w gweld yn www.seregassembly.ie.

Rôl yr Awdurdod Rheoli

Yr Awdurdod Rheoli fydd yn bennaf gyfrifol am gywirdeb rheolaeth a gweithrediad y gweithrediadau hynny dan y Rhaglen Weithredol a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol (Erthygl 60 y Rheoliad Cyffredinol). Mae'n gyfrifol am

gasglu gwybodaeth ddibynadwy a sicrhau y cedwir cyfrifon priodol i ddangos bod y gweithrediadau'n gywir ac yn cydymffurfio â rheolau'r Gymuned.

Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sefydlu rheolaethau mewnol i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn o wariant a gydariennir gan yr UE. Bydd tasgau rheoli arian a rheoli'r Rhaglen Weithredol yn gyffredinol yn cael eu cyflawni gan adrannau/unedau ar wahân o fewn yr Awdurdod Rheoli. Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sicrhau yr hysbysir y Buddiolwyr yn llawn am eu cyfrifoldebau o ran rheolaeth ariannol gwariant a gydariennir gan yr UE. Bydd yn sicrhau cydymffurfiad â rheolau'r Gymuned mewn perthynas â chaffael cyhoeddus. Yn amodol ar unrhyw arweiniad a gyhoeddir gan yr Awdurdod Ardystio, bydd yr Awdurdod Rheoli'n cynnal hapwiriadau o ddogfennau ffynhonnell sy'n cefnogi ceisiadau am daliad a gydariennir cyn awdurdodi pob cais gwariant a'i anfon ymlaen i'r Awdurdod Ardystio.

Yr Awdurdod Archwilio

Uned Rheoli Ariannol ERDF, a leolir yn yr Adran Gyllid yn Iwerddon ac sy'n swyddogaethol annibynnol ar yr Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Ardystio, sydd wedi'i dynodi'n Awdurdod Archwilio. Bydd yn gyfrifol am ddilysu gweithrediad effeithiol y system drin a rheoli. Bydd yr Uned Rheoli'n gyfrifol am archwiliadau systemau a haparchwiliadau gwariant cysylltiedig â'r Cronfeydd. Yr Uned fydd aelod Gwyddelig a chadeirydd y Grŵp Archwilwyr.

Yn unol ag Erthygl 14(2) Rheoliad ERDF (EC) Rhif 1080/2006, caiff yr Awdurdod Archwilio ei gynorthwyo yng Nghymru gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef aelod y Deyrnas Unedig y Grŵp Archwilwyr.

Bydd yr Awdurdod Archwilio'n benodol gyfrifol am:

- a) sicrhau y cynhelir archwiliadau i ddilysu gweithrediad effeithiol trefn drin a rheoli'r rhaglen weithredol;
- b) sicrhau y cynhelir archwiliadau ar weithrediadau, ar sail sampl priodol, i ddilysu'r gwariant sy'n cael ei ddatgan;
- c) cyflwyno i'r Comisiwn, o fewn naw mis i gymeradwyo'r rhaglen weithredol, strategaeth archwilio sy'n cynnwys y cyrff fydd yn cynnal yr archwiliadau y cyfeirir atynt uchod, y dull a ddefnyddir, dull samlo'r archwiliadau ar weithrediadau a chynllunio dangosol archwiliadau, i sicrhau yr archwilir y prif gyrff a bod yr archwiliadau'n ymestyn yn gyfartal dros gyfnod y rhaglen;
- d) erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn o 2008 i 2015:
 - i) cyflwyno adroddiad rheolaeth blynyddol i'r Comisiwn sy'n nodi canfyddiadau'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis blaenorol, yn gorffen ar 30 Mehefin y flwyddyn dan sylw, yn unol â strategaeth archwilio'r rhaglen weithredol a chan adrodd ar unrhyw ddiffygion a ganfuwyd yn y systemau ar gyfer trin a rheoli'r rhaglen.

- Bydd yr adroddiad cyntaf, y dylid ei gyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2008, yn cynnwys y cyfnod o 1 Ionawr 2007 i 30 Mehefin 2008. Bydd y wybodaeth am yr archwiliadau a gynhelir ar ôl 1 Gorffennaf 2015 yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad rheolaeth terfynol fydd yn cefnogi'r datganiad terfynu y cyfeirir ato isod;
- ii) cyhoeddi barn, ar sail y rheolaethau a'r archwiliadau a gyflawnwyd dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Archwilio, ar p'un a yw'r system drin a rheoli'n gweithredu'n effeithiol, er mwyn darparu sicrwydd rhesymol bod y datganiadau gwariant a gyflwynir i'r Comisiwn yn gywir ac, o ganlyniad, sicrwydd rhesymol bod y trafodion sylfaenol yn gyfreithlon ac yn gyson;
 - iii) cyflwyno, lle bo'n berthnasol dan Erthygl 88, datganiad terfynu rhannol sy'n asesu cyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r gwariant dan sylw;
- e) cyflwyno datganiad terfynu i'r Comisiwn erbyn 31 Mawrth 2017 fan bellaf, yn asesu dilysrwydd y cais i dalu'r balans terfynol a chyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r trafodion sylfaenol a gynhwysir yn y datganiad gwariant terfynol, a ategir gan adroddiad rheolaeth terfynol.

Bydd yr Awdurdod Archwilio'n sicrhau bod y gwaith archwilio'n rhoi ystyriaeth i safonau archwilio a dderbynnir yn rhyngwladol.

Yn unol ag Erthygl 71 y Rheoliad Cyffredinol, o fewn 12 mis i gymeradwyo'r Rhaglen, bydd yr Awdurdod Rheoli'n cyflwyno "disgrifiad o'r systemau, gan gynnwys yn benodol drefniadaeth a gweithdrefnau:

(a) yr awdurdodau rheoli ac ardystio a'r cyrff canolraddol;

(b) yr awdurdod archwilio ac unrhyw gyrff eraill sy'n cynnal archwiliadau dan ei gyfrifoldeb".

Lleolir Uned Rheoli Ariannol ERDF yn yr Adran Gyllid yn Iwerddon. Mae'r manylion cyswllt llawn i'w gweld yn www.finance.gov.ie.

Rheolwyr Lefel Gyntaf

Yn ôl Erthygl 16 Rheoliad (EC) 1080/2006, bydd pob aelod-wladwriaeth yn sefydlu system ar gyfer dilysu cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau i brosiectau. Bydd y system hefyd yn dilysu cadernid y gwariant a'i gydymffurfiaid â rheolau'r Comisiwn a rheolau cenedlaethol ar gymhwysedd gwariant a chaffael cyhoeddus.

Dynodwyd Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain yn Awdurdod Rheolaeth Lefel Gyntaf yn Iwerddon, a Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r Awdurdod Rheolaeth Lefel Gyntaf yng Nghymru. Caiff yr Awdurdodau Rheolaeth Lefel Gyntaf priodol eu cynorthwyo gan y Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol, y dirprwyir y tasgau gwirio

rheolaeth iddi fel rhan o'r system taliadau grant. Y Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol fydd yn gyfrifol am gynnal dilysiadau gweinyddol ar gyfer pob cais am ad-daliad gan fuddiolwyr, a bydd hefyd yn cynnal hap-ddilysiadau ar weithrediadau unigol yn Iwerddon. Yng Nghymru, bydd y dasg hon o hap-ddilysu'n cael ei chyflawni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ar sail arweiniad a ddarperir gan yr Awdurdod Rheoli.

Ceir manylion dull ac ehangder y dirprwyo yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y bydd yr Awdurdod Rheoli a'r Aelod-wladwriaethau'n ei lofnodi.

Bydd y Rheolwyr Lefel Gyntaf yn adrodd i'r Aelod-wladwriaethau sy'n eu dynodi ac i'r Awdurdod Rheoli.

Cymhwysedd Gwariant

Yn unol ag Erthygl 56 y Rheoliad Cyffredinol, ni fydd gwariant yn gymwys i gael cefnogaeth y Gymuned oni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer gweithrediadau y penderfynodd yr Awdurdod Rheoli neu'r Pwyllgor Llywio arnynt, yn unol â meini prawf dethol a osodwyd gan y Pwyllgor Monitro. Yn unol ag Erthygl 34 y Rheoliad Cyffredinol, dim ond ar gyfraniadau ERDF y Rhaglen Iwerddon/Cymru y gall unrhyw brosiect Iwerddon/Cymru elwa. Ni ellir ariannu gweithrediad gan fwy nag un o Raglenni'r Gronfa Strwythurol ar yr un pryd.

Rhaid i gyfraniad ERDF fod yn gyson â'r cynllun ariannol a nodwyd yn y penderfoniad i gymeradwyo'r Rhaglen. Yn unol ag Erthygl 53 y Rheoliad Cyffredinol, bydd arian ERDF yn cyfrannu hyd at 75% o gyfanswm y costau cymwys.

Yn achos buddsoddiadau mewn seilwaith sy'n cynhyrchu refeniw net sylweddol a buddsoddiadau mewn cwmnïau, mae terfynau uchaf eraill o ran cyfraniadau ERDF yn gymwys, fel y nodir yn Erthygl 55 y Rheoliad Cyffredinol. Caiff cyfradd grant ERDF ei diffinio yn ôl y prosiect a chaiff ei gymhwyso i gyfanswm y gwariant cymwys y gwneir cais amdano.

Bydd gwariant newydd, a ychwanegir adeg addasu rhaglen weithredol y cyfeirir ati yn Erthygl 33 y Rheoliad Cyffredinol, yn gymwys o ddyddiad cyflwyno'r cais i addasu'r Rhaglen Weithredol i'r Comisiwn.

Nodir rheolau cymhwysedd gwariant ar lefel genedlaethol yn amodol ar Erthygl 13 Rheoliad ERDF (1080/2006). Nodir Rheolau Cymhwysedd y Gymuned gyfan sy'n gymwys i Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol yn Erthyglau 48-53 y Rheoliad Gweithredu (1828/2006). Maent yn cynnwys yr holl wariant gaiff ei ddatgan dan y Rhaglen Weithredol.

Y dyddiad cychwyn ar gyfer cymhwysedd gwariant y Rhaglen Weithredol yw 1 Ionawr 2007. Nid yw gwariant yr eir iddo cyn hynny'n gymwys am gymorth dan y

Rhaglen Weithredol hon, ac ni ddylai'r gweithrediadau fod wedi'u cwblhau cyn dyddiad cychwyn y cymhwysedd.

Buddiolwyr

Y Buddiolwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond gwariant cymwys gwirioneddol, a gwariant sy'n dod o dan delerau'r prosiect fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywio, a gyflwynir ar ddogfennau cais er diben hawlio taliad cefnogaeth grant ERDF. Bydd gofyn iddynt sicrhau bod yna lwybr archwilio amlwg mewn perthynas ag arian yr UE, ac y caiff pob cais ei ategu gydag anfonebau taledig neu, lle na ellir gwneud hynny, gyda dogfennau cyfrifo o'r un gwerth tystiolaethol.

Egwyddor Partner Arweiniol

Bydd y Rhaglen yn gweithredu'r Egwyddor Partner Arweiniol yn unol ag Erthygl 20 Rheoliad ERDF.

Talu Grantiau

Ar ôl i brosiectau gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywio, a'u cymeradwyo ganddo, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn dod â'r ceisiadau i ben gyda phartneriaid y prosiect yn unol ag unrhyw ofynion ychwanegol a benodwyd gan y Pwyllgor Llywio.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnig llythyrau cynnig grant ar ran yr Awdurdod Rheoli. Caiff y rhain eu cydarwyddo gan y Partner Arweiniol a bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cadw copi gwreiddiol wedi'i lofnodi gan bob partner. Mae cyfraniadau ERDF yn cael eu hymrwymo ar lefel Rhaglen ar y dyddiad y mae partneriaid y prosiect yn cydarwyddo'r llythyr cynnig.

Yr Awdurdod Ardystio, sy'n annibynnol ar y Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol, fydd yn gyfrifol am drefniadau talu'r grant. Bydd ceisiadau am daliad ar gyfer prosiectau y mae cynigion grant wedi'u cyhoeddi ar eu cyfer yn dod i law Adran Taliadau'r Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol. Rhaid i bob cais am daliad fod wedi'i ategu gydag anfonebau neu ddogfennau cyfrifo eraill, wedi'u hardystio'n briodol. Rhaid darparu adroddiadau llawn ar gynnydd gyda cheisiadau am daliad o leiaf bob chwe mis.

Bydd yr Adran Taliadau'n gwirio'r ceisiadau am daliad yn erbyn y llythyr cynnig grant a phapurau'r prosiect ac yn sicrhau cysondeb â thargedau perfformiad ac amodau cymhwysedd. Bydd yr Adran Taliadau hefyd yn cynnal gwiriadau rheolaeth, yn unol ag Erthygl 16 Rheoliad ERDF, er mwyn dilysu cyflwyniad y cynhyrchion a'r gwasanaethau a gyd-ariannwyd, cadernid y gwariant gaiff ei ddatgan a chydymffurfiad gwariant o'r fath â rheolau'r Gymuned a rheolau Cenedlaethol. Os ydynt yn dderbyniol, bydd yr Awdurdod Rheoli'n argymhell gwneud y taliad. Gydag awdurdodiad yr Awdurdod Rheoli, bydd yr Awdurdod

Ardystio'n gwneud y taliadau a gymeradwyir i'r Partner Arweiniol. Bydd swyddogaethau gwirio ac awdurdodi taliadau'n cael eu rhannu rhwng y Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol /yr Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Ardystio annibynnol.

Gwneir y taliadau, mewn Ewros, gan yr Awdurdod Ardystio o'r Cyfrif Banc ar y Cyd i gyfrif banc y Partneriaid Arweiniol.

Trowch at Atodiad VII i weld siart llif taliadau sy'n egluro hyn ymhellach.

Adrodd ar Anghysondebau

O fewn dau fis i ddiwedd pob chwarter, bydd yr Awdurdod Ardystio'n adrodd wrth y Comisiwn ar unrhyw anghysondebau sydd wedi bod yn destun canfyddiad barnwrol neu weinyddol sylfaenol, yn unol ag Erthygl 28 y Rheoliad Gweithredu. Yn ogystal, hysbysir hefyd am unrhyw weithdrefnau a sefydlwyd mewn perthynas ag anghysondebau yr adroddwyd arnynt yn flaenorol o fewn dau fis i ddiwedd pob chwarter, yn unol ag Erthygl 30 y Rheoliad Gweithredu.

Defnydd o'r Ewro

Yr Ewro a ddefnyddir ar gyfer pob swm a nodir yn y Rhaglen Weithredol, datganiadau gwariant ardystiedig, ceisiadau am daliadau ac adroddiadau gwariant. Defnyddir yr Ewro ar gyfer pob llythyr cynnig grant, cymeradwyaethau prosiect a cheisiadau am daliad mewn perthynas â gwariant a gyd-ariannwyd gan yr UE (Erthygl 81 y Rheoliad Cyffredinol). Mewn Ewro y nodir yr holl drafodion ariannol a gyflawnir dan y rhaglen hon, gan gynnwys taliadau i bob partner arweiniol.

Trosqlywddo Data yn Electronig

Bydd yr Awdurdodau Gwyddelig yn darparu dogfennau a gwybodaeth berthnasol i'w fewnbynnu i'r system gyfrifiadurol a sefydlwyd gan y Comisiwn i'r pwrpas o ganiatáu cyfnewid data'n ddiogel rhwng y Comisiwn a phob Aelod-wladwriaeth.

Bydd y Comisiwn a'r awdurdodau a ddynodwyd gan yr Aelod-wladwriaeth, a'r cyrff y dirprwywyd y dasg honno iddynt, yn cofnodi'r dogfennau y maent yn gyfrifol amdanynt ar y system gyfrifiadurol yn y fformat gofynnol er cyfnewid data, ac yn eu diweddarau.

Bydd costau rhyngwynebu rhwng y system gyfrifiadurol gyffredin ar gyfer cyfnewid data a'r systemau cyfrifiadurol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac unrhyw gostau addasu systemau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i fodloni'r gofynion dan y Rheoliad Cyffredinol, yn gymwys dan Gymorth Technegol dan Erthygl 46 y Rheoliad hwnnw.

Mae system gyfrifiadurol wrthi'n cael ei datblygu yn yr Adran Gyllid i'r pwrpas hwn. Caiff y system ei defnyddio i fonitro pob gwariant a gydariennir gan yr UE. Caiff data ei fewnbynnu gan yr Awdurdod Rheoli ac mae mecanweithiau'n cael eu datblygu i gefnogi trosglwyddo data gan y cyrff hyn.

Mae'r System Gyfrifiadurol Wyddelig wedi'i dylunio i gefnogi rhaglennu, monitro ariannol a ffisegol a gwneud a monitro taliadau. Mae wedi'i seilio ar gymhwysiad cleient/gweinydd gan alluogi'r Awdurdod Rheoli, yr Adran Gyllid a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio'r gronfa ddata ganolog. Caiff pob gwybodaeth am gynnydd ariannol a ffisegol, wedi'i chodeiddio'n briodol, gan gynnwys adroddiadau blynyddol, sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r Comisiwn Ewropeaidd i fodloni ei gyfrifoldebau dan Reoliadau'r Cronfeydd Strwythurol, ei throsglwyddo'n electronig i'r Comisiwn gan yr Awdurdodau Rheoli ac Ardystio fel bo'n briodol. Bydd amlder y trosglwyddo electronig yn cydymffurfio â'r gofynion rheolaethol fe y cytunwyd rhwng y Comisiwn a'r Awdurdod Rheoli a'r Adran Gyllid.

Cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol

Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sicrhau bod gweithrediadau a ariennir gan y Cronfeydd yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cytuniad, gydag offerynnau a fabwysiedir oddi tano a chyda polisiau a gweithrediadau'r Gymuned ym maes cystadleuaeth.

8.4 Gwerthuso

Diben gwerthuso yw gwella ansawdd, effeithiolrwydd a chysondeb y cymorth a geir gan y Cronfeydd a strategaeth a gweithrediad y Rhaglenni Gweithredol o ran y problemau strwythurol penodol sy'n effeithio ar y Rhanbarth, gan roi ystyriaeth hefyd i'r amcan datblygu cynaliadwy ac i ddeddfwriaeth berthnasol y Gymuned o ran effaith amgylcheddol ac asesiad amgylcheddol strategol.

Cynhelir gwerthusiadau gan arbenigwyr sy'n swyddogaethol annibynnol ar awdurdodau'r rhaglen. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi yn ôl y rheolau perthnasol ar fynediad at ddogfennau. Caiff gwerthusiadau eu hariannu o'r gyllideb ar gyfer cymorth technegol. Yr Awdurdod Rheoli fydd yn trefnu i gynhyrchu a chasglu'r data angenrheidiol a defnyddio'r amrywiol fathau o wybodaeth a ddarperir gan y system fonitro.

Rhag-werthusiad

Cynhaliwyd Rhag-werthusiad o'r Rhaglen Weithredol yn unol ag Erthygl 48 y Rheoliad Cyffredinol.

Gwerthusiad Rheolaidd

Yn ystod cyfnod y rhaglennu, bydd yr Awdurdod Rheoli'n cynnal gwerthusiadau wedi'u cysylltu â monitro'r Rhaglen Weithredol, yn enwedig lle bo monitro'r rhaglenni'n datgelu gwriad sylweddol oddi wrth y nodau a osodwyd i gychwyn neu lle ceir cynigion i adolygu'r Rhaglen Weithredol. Caiff y canlyniadau eu hanfon i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen Weithredol ac i'r Comisiwn.

Ôl-werthusiad

Cyfrifoldeb y Comisiwn mewn partneriaeth â'r Aelod-wladwriaethau a'r Awdurdod Rheoli yw'r ôl-werthusiad. Caiff yr ôl-werthusiad ei drefnu dan y trefniadau cyffredinol ar gyfer cydgysylltu gwerthusiadau. Bydd yn archwilio i ba raddau y defnyddiwyd adnoddau, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rhaglenni'r Gronfa a'r effaith economaidd-gymdeithasol, yn dod i gasgliadau ar gyfer y polisi ar gydlyniant economaidd a chymdeithasol, yn clustnodi'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at lwyddiant neu fethiant gweithrediad y Rhaglen Weithredol ac yn canfod arferion gorau. Caiff ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2015.

8.5 Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

Yr Awdurdod Rheoli fydd yn gyfrifol am wybodaeth a chyhoeddusrwydd ar y Rhaglen Weithredol. Bydd gweithgareddau gwybodaeth yn cael eu hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol a darpar fuddiolwyr gyda'r nod o amlygu rôl cyllid y Gymuned a sicrhau tryloywder.

Caiff logo'r UE ei arddangos ar bob deunydd cyhoeddusrwydd, ffurflenni cais, llythyrau cynnig neu gymeradwyo grant, yn ogystal ag ar arwyddion prosiectau fel sy'n ofynnol dan y Rheoliad Gweithredu ar weithredu'r Rhaglen Weithredol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynorthwyo'r Awdurdod Rheoli i ddatblygu a gweithredu eu strategaeth gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer y Rhaglen Weithredol.

Caiff Cynllun Gweithredu Cyfathrebu ei lunio mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Monitro, yn unol ag Erthygl 2 y Rheoliad Gweithredu, i'w gyflwyno i'r Comisiwn o fewn pedwar mis i ddyddiad mabwysiadu'r Rhaglen Weithredol. Bydd y Cynllun yn nodi manylion ar gyfer cyflawni hyn, gan gynnwys:

Bydd y cynllun cyfathrebu'n cynnwys y canlynol o leiaf:

- (a) y nodau a'r grwpiau targed;
- (b) y strategaeth a chynnwys y mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd y bydd yr Aelod-wladwriaeth neu'r Awdurdod Rheoli'n eu cymryd, wedi'u hanelu at ddarpar fuddiolwyr, buddiolwyr a'r cyhoedd, gydag ystyriaeth i'r gwerth a ychwanegir gan gymorth y Gymuned ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol;
- (c) y gyllideb ddangosol ar gyfer gweithredu'r cynllun;
- (d) y cyrff neu'r adrannau gweinyddol sy'n gyfrifol am weithredu mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd;

- (e) arwydd o sut y caiff y mesurau gwybodaeth a chyhoedduswydd eu gwerthuso o ran tryloywder, ymwybyddiaeth o raglenni gweithredol a'r rôl y mae'r Gymuned yn ei chwarae.

Bydd yr Awdurdod Rheoli'n hysbysu'r Pwyllgor Monitro am gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu Cyfathrebu, y mesurau gwybodaeth a chyfathrebu a gyflawnir a'r dull cyfathrebu a ddefnyddir. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Weithredu'r Rhaglen Weithredol yn cynnwys enghreifftiau o sut y gweithredwyd y cynllun cyfathrebu, y trefniadau ar gyfer camau gwybodaeth a chyfathrebu yn y dyfodol a, lle bo'n berthnasol, cyfeiriad y wefan sy'n cynnwys y wybodaeth hon. Dylai'r adroddiad hefyd amlinellu unrhyw newidiadau mawr i'r cynllun cyfathrebu. Cynhelir gwerthusiad o'r mesurau cyfathrebu yn 2010.

Bydd yr Awdurdod Rheoli, yn unol â'r cynllun cyfathrebu, yn sicrhau y lledaenir y Rhaglen Weithredol yn eang, gan gynnwys manylion cyfraniadau ariannol y Cronfeydd dan sylw, a'i fod ar gael i bawb sydd â diddordeb. Bydd hefyd yn sicrhau y bydd gwybodaeth o ran y cyfleoedd ariannu a gynigir gan gyd-gymorth y Gymuned a'r Aelod-wladwriaethau drwy'r Rhaglen Weithredol hon yn cael ei lledaenu mor eang ag sy'n bosibl.

Yn y mesurau gwybodaeth a chyfathrebu, bydd yr Awdurdod Rheoli'n cynnwys cyrff megis awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac asiantaethau datblygu; cymdeithasau masnach a phroffesiynol; partneriaid economaidd a chymdeithasol; sefydliadau anllywodraethol; sefydliadau sy'n cynrychioli busnes; canolfannau gwybodaeth am Ewrop a chynrychiolaethau'r Comisiwn yn yr Aelod-wladwriaethau; a sefydliadau addysgol, fydd yn gallu lledaenu gwybodaeth am y Rhaglen Weithredol yn eang.

Bydd yr Awdurdod Rheoli'n sicrhau y caiff y mesurau gwybodaeth a chyfathrebu eu gweithredu yn unol â'r cynllun cyfathrebu, gan geisio cael cymaint o sylw ag sy'n bosibl yn y cyfryngau drwy ddefnyddio pob math a dull addas o gyfathrebu ar y lefel diriogaethol briodol. Bydd yr Awdurdod Rheoli'n dynodi person cyswllt i fod yn gyfrifol am wybodaeth a chyfathrebu ac yn hysbysu'r Comisiwn yn unol â hynny.

Bydd buddiolwyr yn gyfrifol am hysbysu'r cyhoedd am y cymorth ariannol a gawsant gan y rhaglen hon drwy ddulliau gwybodaeth priodol. Bydd buddiolwyr hefyd yn sicrhau bod y bobl hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithrediad neu weithgaredd prosiect wedi cael gwybod ei fod wedi'i ariannu'n rhannol gan yr ERDF. Bydd buddiolwyr yn darparu hysbysiad amlwg o'r ffaith bod y gweithrediad neu'r prosiect sy'n cael ei weithredu wedi cael ei ddewis dan y Rhaglen Weithredol hon a'i fod yn cael ei gyd-ariannu gan ERDF.

8.6 Hyrwyddo'r Rhaglen ac annog prosiectau o ansawdd

Bydd Partneriaid y Rhaglen yn ceisio targedu'r cyhoedd yn fwy cyffredinol i'w gwneud yn ymwybodol o'r cyfleoedd a ddarperir gan y Rhaglen. Drwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd, bydd y Rhaglen yn ceisio cyfranogiad pawb ac yn hwyluso hyn drwy sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer cael gafael ar adnoddau mor llyfn ac effeithlon ag sy'n bosibl heb gyfaddawdu ar ddiwydrwydd ariannol priodol.

Caiff y Rhaglen ei hyrwyddo drwy gynhyrchu prosiectau newydd yn rhagweithiol ac annog partneriaid y prosiectau i ymroi i ddatblygu gwir gyd- brosiectau. Caiff gwybodaeth ei lledaenu ar bob cam i hwyluso cyfnewid barn a chydweithio.

Bydd y Strategaeth Gwybodaeth a Chyfathrebu'n cynnwys:

- Dyddiau gwybodaeth
- Gwefan gyda chyfleusterau chwilio am bartner
- Paratoi a dosbarthu pecyn gwybodaeth.

Pwy gaiff wneud cais?

Ystyrir amrywiaeth eang o weithredwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r sectorau economaidd a chymdeithasol ehangach fel darpar fuddiolwyr. Bydd y rhain yn cynnwys cyrff megis:

- Awdurdodau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol
- Asiantaethau a gefnogir yn Gyhoeddus a chan y Wladwriaeth
- Sefydliadau Addysg Uwch, Colegau a Sefydliadau Ymchwil
- Mentrau preifat, sefydliadau'r sector Gwirfoddol a Chymunedol

Rhaid i bob partner ffurfiol mewn gweithrediadau a gymeradwyir fod naill ai'n gyrff cyhoeddus neu'n gyrff cyfwerth â chyrff cyhoeddus⁴⁹.

Sut mae gwneud cais am gyllid?

Caiff ffurflen gais safonol ei chynnwys yn y pecyn cais a gwybodaeth. Caiff hwn ei ddsbarthu'n eang a bydd ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth ac oddi ar y wefan.

⁴⁹ "...Caiff sefydliadau sydd, o safbwynt cyfreithiol, yn gyfwerth â sefydliadau preifat gymryd rhan mewn prosiectau dan y Rhaglen fel cyrff cyfwerth â chyrff cyhoeddus os:
o ydynt yn gorff cyfreithiol.
o ydynt yn gweithredu fel sefydliad nad yw'n gwneud elw yng nghyd-destun y prosiect – nid yw hyn yn eithrio cwmnïau sy'n gweithredu ar sail gwneud elw mewn cyd-destunau eraill.
o ydynt yn sicrhau bod holl ganlyniadau'r prosiect ar gael i'r cyhoedd am ddim. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gall y cyhoedd gael gafael ar ganlyniadau'r prosiect.
o caiff gweithgareddau'r prosiect eu cynnal yn unol ag egwyddor gwir gostau.
o caiff gweithgareddau'r prosiect eu cynnal yn unol â rheolau tendr cyhoeddus, h.y. Cyfarwyddeb 2004/18/EC Senedd Ewrop a Chyngor 31 Mawrth 2004 ar gyd-drefnu gweithdrefnau er dyfarnu contractau gweithiau cyhoeddus, contractau cyflenwi cyhoeddus a chontractau gwasanaeth cyhoeddus."

Bydd y pecyn hefyd yn cynnwys yr holl arweiniad angenrheidiol i gynorthwyo partneriaid y prosiect. Caiff ymgeiswyr eu hannog i geisio cymorth y Swyddogion Datblygu a'r Ysgrifenyddiaeth fel bo'n briodol, fydd yn hanfodol er mwyn osgoi cael eu gwrthod oherwydd diffyg cydymffurfiaid â'r meini prawf cymhwysedd. Cyn rhoi ceisiadau am brosiectau ar agenda'r Pwyllgorau Llywio, byddant yn destun asesiad technegol cynhwysfawr, fydd yn lleihau oediadau ac yn galluogi'r PLLau i weithredu ar lefel fwy strategol.

Dyddiad cyntaf cymhwysedd gwariant dan y Rhaglen hon yw 1 Ionawr 2007.

Sut y caiff prosiectau eu dethol?

Yn unol ag Erthygl 65(a) y Rheoliad Cyffredinol, bydd y Pwyllgor Monitro'n cymeradwyo'r meini prawf dethol o fewn chwe mis i gymeradwyo'r Rhaglen. Caiff gweithdrefn asesu a dethol ar y cyd ei sefydlu, gyda'r Pwyllgor Llywio'n cael y gair olaf ar ddethol prosiectau unigol.

Bydd y weithdrefn ddethol yn cael ei seilio ar broses gwneud penderfyniadau dryloyw a'r egwyddorion canlynol:

- Gwir brosiect ar y cyd sy'n gweithredu ar ddwy ochr yr ardal drawsffiniol
- Ansawdd y prosiect
- Rheolaeth gadarn ar adnoddau ariannol
- Cysondeb â bodloni'r meini prawf cymhwysedd
- Cyfatebolrwydd â gweithredoedd a gefnogir dan raglenni Ewropeaidd eraill.

Bydd rhaid i fuddiolwyr prosiect gydweithio mewn o leiaf dwy o'r pedair ffordd ganlynol, fel yn ôl Erthygl 20 Rheoliad ERDF;

- Cyd Ddatblygu
- Cyd Weithredu
- Cyd Staffio
- Cydariannu

Nodir y manylion gweithredol yn y pecyn gwybodaeth gyda'r ffurflenni cais.

8.7 Prosiectau Mawr

Dan Erthygl 12.9 rheoliad ERDF, ni ragwelir unrhyw brosiectau mawr dan y Rhaglen Weithredol hon.

8.8 Rhanbarthau dros Newid Economaidd

Os yw rhanbarthau o fewn ardal y prosiect yn rhan o'r fenter Rhanbarthau dros Newid Economaidd, mae'r Awdurdod Rheoli'n ei ymrwmo'i hun i:

a) wneud y trefniadau angenrheidiol i gefnogi gweithredoedd arloesol sy'n cael effaith drawsffiniol/drawsgenedlaethol sy'n ymwneud â chanlyniadau'r rhwydweithiau;

b) rhagweld pwynt ar agenda'r Pwyllgor Monitro o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod awgrymiadau perthnasol ar gyfer y rhaglen, ac i wahodd cynrychiolwyr y rhwydweithiau (fel arsylwyr) i adrodd ar gynnydd gweithgareddau'r rhwydwaith;

c) disgrifio'r gweithredoedd a gynhwysir o fewn menter Rhanbarthau dros Newid Economaidd yn yr Adroddiad Blynyddol.

8.9 INTERACT II

Rhaid rhoi sylw arbennig i'r gwasanaethau a ddarperir gan raglen INTERACT II. Mae'r rhaglen UE gyfan hon yn canolbwyntio ar drefn lywodraethol dda ar gydweithrediad tiriogaethol ac yn darparu cefnogaeth ar sail angen i randdeiliaid sy'n ymwneud â gweithredu rhaglenni dan yr amcan Cydweithrediad Tiriogaethol Ewropeaidd. Grwpiau targed pennaf INTERACT yw'r awdurdodau a sefydlir yn unol â Rheoliadau'r Cyngor 1083/2006 ac 1080/2006, yn ogystal â chyrff eraill sy'n ymwneud â gweithredu rhaglenni. Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o raglen INTERACT ar gyfer cyrff gweithredu'r rhaglen hon, anogir y defnydd o wasanaethau a dogfennau INTERACT yn ogystal â chymryd rhan yn seminarau INTERACT. Mae costau perthnasol yn gymwys dan Gymorth Technegol.

ATODIAD I

(a) Aelodau Adrannau ac Asiantaethau yn Iwerddon a fynychodd gyfarfodydd/fu'n darparu mewnbwn ynglŷn â datblygiad y rhaglen newydd

Enterprise Ireland

POBAL

FAS – Awdurdod Hyfforddiant a Chyflogaeth Iwerddon

Adran Materion Cymunedol, Gwledig a Gaeltacht

Adran Gyllid

Failte Ireland – Awdurdod Datblygu Twristiaeth Iwerddon

Sefydliad Morol

Adran Treftadaeth Amgylcheddol a Llywodraeth Leol

Adran Drafnidiaeth

(b) Aelodau Grŵp Ffrwd Waith Cydweithio Tiriogaethol Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru

CCAUC – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

CGGC – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

FFORWM – Colegau a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru

CLILC - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Tîm Swyddogion Datblygu INTERREG IIIA

Fforwm Economaidd

Sector Preifat

ATODIAD II

Sefydliadau a ddarparodd ymatebion ysgrifenedig ffurfiol i'r ymgynghoriad cyhoeddus

- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyngor Sir Y Fflint
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Education Training and Counselling Cyf
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Prifysgol Cymru Bangor, Ysgol Gwyddorau Morol
- Cyngor Sir Ddinbych
- Fforwm Crefft Cymru Cyf
- Cyngor Sir Benfro
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Prifysgol Cymru Bangor, Arloesi Prifysgolion
- Grŵp Cydlynw INTERREG IIIA Gogledd Orllewin Cymru
- Cyngor Sir Conwy
- Chwaraeon Dŵr Cymru Rhyngwladol
- Partneriaeth Datblygu Economaidd Ceredigion
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru

ATODIAD III

Cynlluniau cyllidebu ar gyfer y Rhaglen Weithredol

Tabl 1: Cynllun ariannu'r rhaglen, gan nodi ymrwymiad blynyddol ERDF i'r rhaglen Weithredol

Blwyddyn fesul ffynhonnell ar gyfer y rhaglen, mewn ewros:

	ERDF
2007	6,838,422
2008	7,016,025
2009	7,238,428
2010	7,508,733
2011	7,786,085
2012	8,028,915
2013	8,278,687
Cyfanswm terfynol 2007-2013	52,695,295

Tabl 2 :Cynllun ariannol y Rhaglen Weithredol gan nodi dyraniad ERDF i'r rhaglen, y cyfraniadau cyhoeddus a phreifat cenedlaethol a'r gyfradd ad-dalu yn ôl blaenoriaeth ar gyfer cyfnod llawn y rhaglen.

Gwneir taliadau fel ad-daliadau o'r gwir wariant yn ôl y cynllun a ganlyn⁵⁰.

Echelinau blaenoriaeth fesul ffynhonnell ariannu (mewn ewrso)

						Er gwybodaeth	
	Ariannu cymunedol (a)	Arian Cyhoeddus Cenedlaethol (b)	Arian preifat cenedlaethol (c)	Cyfanswm arian (d)=(a)+(b)+(c)	Cyfradd cyd-ariannu (e)=(a)/(d)	Cyfraniadau EIB	Arian arall ⁵¹
Echel blaenoriaeth 1 Gwybodaeth, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer twf	29,720,147	9,906,716	-	39,626,863	75%		1,000,000
Echel blaenoriaeth 2 Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy	19,813,431	6,604,477	-	26,417,908	75%		1,000,000
Echel Blaenoriaeth 3 Cymorth Technegol	3,161,717	1,053,906	-	4,215,623	75%		-
CYFANSWM	52,695,295	17,565,099	-	70,260,394	75%		2,000,000

⁵⁰ Adeiladwyd y Cynllun Ariannol yn seiliedig ar gyfanswm y gwariant cymwys cyhoeddus.

⁵¹ Yn cynnwys arian preifat cenedlaethol lle caiff echelinau blaenoriaeth eu mynegi mewn costau cyhoeddus.

ATODIAD IV

TABL 1: CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN THEMA BLAENORIAETH

BLAENORIAETH 1 – Gwybodaeth, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer Twf

01	Gweithgareddau Ymchwil a Datblygiadau Technolegol mewn canolfannau ymchwil	€5,750,000
03	Trosglwyddo technoleg a gwella rhwydweithiau cydweithio rhwng busnesau bach (BbaCh), rhwng y busnesau hyn a rhai eraill a phrifysgolion, sefydliadau ôl addysg uwchradd o bob math, awdurdodau rhanbarthol, canolfannau ymchwil a phlegynau gwyddonol a thechnolegol (<i>parciau gwyddonol a thechnolegol, 'technopole', ac ati</i>)	€6,753,000
04	Cymorth i Ymchwil a Datblygiadau Technolegol, yn arbennig mewn BBaChau (<i>gan gynnwys mynediad at wasanaethau Ymchwil a Datblygiadau Technolegol mewn canolfannau ymchwil</i>)	€5,329,088
62	Datblygu systemau a strategaethau dysgu gydol oes mewn cwmnïau; hyfforddiant a gwasanaethau ar gyfer gweithwyr er mwyn iddynt gyflawni eu hyblygrwydd i newid; hyrwyddo entrepreneuriaeth ac arloesi	€7,500,000
64	Datblygu gwasanaethau penodol ar gyfer cyflogi, hyfforddi, a chefnogi mewn cysylltiad ag ailstrwythuro sectorau a chwmnïau, a datblygu systemau ar gyfer rhagweld newidiadau a gofynion y dyfodol o ran swyddi a sgiliau	€4,388,059

**BLAENORIAETH 2 – NEWID YN YR HINSAWDD AC ADFYWIO
CYNALIADWY**

43	Effeithiolrwydd ynni, cyd-gynhyrchu, rheoli ynni	€4,000,000
49	Lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd	€6,750,000
51	Hyrwyddo bioamrywiaeth a gwarchod natur (gan gynnwys Natura 2000)	€2,459,614
61	Prosiectau integredig ar gyfer adfywio dinesig a gwledig	€6,603,817

BLAENORIAETH 3 – CYMORTH TECHNEGOL

85	Paratoi, gweithredu, monitro ac arolygu	€ 2,100,000
86	Gwerthuso ac astudiaethau; gwybodaeth a chyfathrebu	€ 1,061,717

TABL 2	CODAU AR GYFER Y MATH O DDIMENSIWN CYLLID	
Cod	Math o gyllid	
01	Cymorth nad oes rhaid ei ad-dalu	€ 52,695,295

TABL 3:	CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN TIRIOGAETHOL	
Cod	Math o diriogaeth	
08	Ardal cydweithio drawsffiniol	€ 52,695,295

**DADANSODDIAD DANGOSOL O'R CYFRANIAD CYMUNEDOL FESUL
CATEGORI YN Y RHAGLEN WEITHREDOL**

Rhif cyfeirnod Comisiwn: _____

Enw'r rhaglen: Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Iwerddon Cymru

Dyddiad y penderfyniad Comisiwn diwethaf ar gyfer y Rhaglen Waith dan sylw:

___/___/___

(mewn ewros)

Dimensiwn 1 Thema blaenoriaeth	
Cod	Swm
*	**
01	5,750,000
03	6,753,000
04	5,329,088
62	7,500,000
64	4,388,059
43	4,000,000
49	6,750,000
51	2,459,614
61	6,603,817
85	2,100,000
86	1,061,717
CYFANSWM	52,695,295

(mewn ewros)

Dimensiwn 2 Math o gyllid	
Cod	Swm
*	**
01	52,695,295
CYFANSWM	52,695,295

(mewn ewros)

Dimensiwn 3 Tiriogaeth	
Cod	Swm
*	**
08	52,695,295
CYFANSWM	52,695,295

* Dylai'r categorïau gael eu codio ar gyfer pob dimensiwn gan ddefnyddio'r dosbarthiad safonol.

** Swm amcangyfrifedig y cyfraniad cymunedol ar gyfer pob categori.

ATODIAD V – Crynodeb Gweithredol o'r adroddiad Rhagwerthusiad

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

Cefndir. Yr adroddiad hwn yw Rhagwerthusiad Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Iwerddon-Cymru 2007-13. Cafodd ei baratoi gan Fitzpatrick Associates Economic Consultants, Dulun, gydag Old Bell 3 Cyf a CRG Research Cyf yng Nghymru, ar ran Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain. Y Cynulliad yw'r Awdurdod Rheoli ar gyfer y Rhaglen ar ran Llywodraethau Iwerddon a Chymru.

Mae'r Rhaglen Iwerddon-Cymru newydd yn olynydd i'r rhaglenni INTERREG II a IIIA Iwerddon-Cymru blaenorol, oedd yn cwmpasu cyfnodau 1994-99 a 2000-06 yn eu tro. Mae'n cael ei gyd-ariannu o dan Amcan Cydweithio Tiriogaethol newydd y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n disodli INTERREG. Pwrpas yr amcan newydd yw '*ymroi i ddatblygu ar integreiddiad cytûn a chytbwys tiriogaeth yr Undeb trwy gefnogi cydweithio rhwng ei wahanol gydrannau ar faterion o bwysigrwydd Cymunedol ar lefel trawsffiniol, trawswladol a rhyngranbarthol*'. Bydd gweithredoedd yn cael eu hariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a byddant yn ffocysu ar raglenni integredig, wedi'u rheoli gan un awdurdod, sy'n dilyn blaenoriaethau Cymunedol allweddol sy'n gysylltiedig ag agendâu Lisboa a Gothenburg.

Cylch Gorchwyl: Nod rhagwerthusiadau yw gwneud gwelliannau i raglennu cyn iddo ddechrau trwy dynnu ar brofiad rhaglenni tebyg blaenorol. Felly, mae Cylch Gorchwyl manwl y gwerthusiad yn cynnwys:

- a) gwerthusiad o'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a pherthnasedd y Rhaglen ddrafft i'r anghenion a nodwyd;
- b) gwerthusiad o sail resymegol y Rhaglen ddrafft a'i chysondeb;
- c) gwerthusiad o'r modd y mae'r strategaeth yn cydlynu gyda pholisïau rhanbarthol a chenedlaethol a Chanllawiau Strategol y Gymuned;
- d) gwerthusiad o ganlyniadau disgwylidig ac effeithiau'r Rhaglen;
- e) gwerthusiad o'r systemau gweithredu arfaethedig.

Mae pob un o'r materion hyn yn cael sylw unigol yn adrannau olynol y crynodeb hwn. Hefyd, trafodir pob mater yn fanylach yn y prif adroddiad.

2. Dadansoddiad a Pherthnasedd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar gyfer rhanbarth trawsffiniol Iwerddon-Cymru wedi'u cynnwys ym Mhennod 2 y Rhaglen ddrafft. Cefnogir y rhain yn eu tro gan ddadansoddiad manylach, fydd yn cael ei gyhoeddi naill ai fel atodiad i'r Rhaglen neu fel dogfen ategol arall.

Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol: Mae'r dadansoddiad sosio-economaidd yn cynnwys dadansoddiad cryno, sy'n rhan o ddogfen y Rhaglen, a dadansoddiadau eraill mwy manwl sydd yn y dogfennau ategol. At ei gilydd, mae'r dadansoddiad yma'n eithaf trwyadl, ac mae'n cynnwys swm sylweddol o dystiolaeth fanwl sy'n bodloni anghenion y Comisiwn Ewropeaidd yn fras (h.y. nodi nodweddion penodol tiriogaethol ac ystyried anghenion yr ardal dan sylw). Mae hefyd yn defnyddio'r prif benawdau yng Nghanllawiau Strategol y Gymuned i strwythuro'r deunydd, sy'n helpu i ddangos bod yna gyswllt clir rhwng y Rhaglen ddrafft a'r Canllawiau.

Yn gyffredinol, mae dangosyddion cyd-destun wedi'u cyflwyno'n dda, ac ymhlith y newidynnau economaidd-gymdeithasol allweddol sy'n cael triniaeth arbennig o fanwl yn y dadansoddiad mae demograffeg, allbwn economaidd, incymau a safonau byw, a thueddiadau'r llafurlu. Mae rhannau eraill y dadansoddiad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer newidynnau allweddol eraill (e.e. sgiliau ac addysg, dysgu gydol oes), ond mae peth o'r dystiolaeth hon naill ai'n eithaf "cudd" neu mae angen ei chefnogi gyda gwybodaeth bellach sy'n seiliedig ar dystiolaeth. At hyn, mae'r dadansoddiad o sefyllfaoedd Cymru ac Iwerddon wedi'i integreiddio'n dda, sydd wedi helpu i esmwytho'r broses o baratoi dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar y cyd ac o nodi anghenion a heriau cyffredin.

Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau: Mae'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau yn y Rhaglen ddrafft yn cynnwys dadansoddiad unigol ar gyfer rhannau Gwyddelig a Chymraeg y rhanbarth trawsffiniol, yn ogystal â dadansoddiad ar y cyd ar gyfer yr ardal gyfan. Mae'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau yn debyg o ran ansawdd i'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, gan ei fod yn eithaf trylwyr a chynhwysfawr, ac mae ychwanegu'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar y cyd yn ddatblygiad a groesewir sy'n ychwanegu at y ddealltwriaeth o'r Strategaeth Ddatblygu a'r Blaenoriaethau sy'n dilyn.

Ar yr un pryd, gellid gwneud rhai gwelliannau bach i'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau fyddai'n helpu i esbonio a chyfiawnhau ymhellach yr anghenion a nodwyd a'r Strategaeth Ddatblygu a'r ymyriadau Blaenoriaeth a ddewiswyd. Mae'r gwelliannau hyn yn gysylltiedig â'r cyswllt

rhwng casgliadau allweddol a wneir yn y dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau a'r dystiolaeth a ddarperir i'w cefnogi.

Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar y cyd yn dal i roi crynodeb da o'r cysylltiadau allweddol rhwng y dadansoddiadau Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar gyfer Iwerddon a Chymru. O ganlyniad i hyn, mae'r heriau a'r anghenion cyffredin sy'n wynebu'r rhanbarth trawsffiniol yn cael eu nodi'n glir, sy'n cyfiawnhau perthnasedd y Strategaeth Ddatblygu, Blaenoriaethau a Themâu a ddewiswyd.

3. Sail resymegol a Chysondeb y Rhaglen

Amcanion: Mae Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Iwerddon-Cymru ddrafft yn rhoi datganiad clir o amcanion ar ffurf amcan cyffredinol y Rhaglen a'i hamcanion Blaenoriaeth a Thema cysylltiedig.

Amcan cyffredinol y Rhaglen yw datblygu'r rhanbarth Trawsffiniol ymhellach trwy ddull integredig at faterion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a thechnolegol. Wrth wneud hyn, mae'r rhaglen yn ceisio:

- cyfrannu at allu pellach y rhanbarth i gystadlu ac i ddatblygu'n gynaliadwy;
- gwella ei lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cyffredinol;
- datblygu'r ardal mewn ffordd fwy cydlynol, cytbwys a chynaliadwy, ac felly cyfrannu at allu pellach y diriogaeth Gymunedol i gystadlu'n fyd-eang.

Bydd yr amcan hwn yn cael ei symud ymlaen a'i ddarparu trwy ddwy brif Flaenoriaeth allweddol, a chanddynt ddwy Thema ganolog:

- *Blaenoriaeth 1: Gwybodaeth, Arloesedd a Sgiliau ar gyfer Twf* - yn cynnwys Thema Arloesi a Chystadleurwydd (Blaenoriaeth 1, Thema 1) a Thema Sgiliau ar gyfer cystadleurwydd ac Integreiddio Cyflogaeth (Blaenoriaeth 1, Thema 2);
- *Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd ac Adfywio Cynaliadwy* – yn cynnwys Thema Newid yn yr Hinsawdd a Datblygu Cynaliadwy (Blaenoriaeth 2, Thema 1) a Thema Adfywio Cymunedau'n Gynaliadwy (Blaenoriaeth 2, Thema 2).

Hefyd, bydd y Strategaeth Ddatblygu'n ceisio adeiladu ar lwyddiannau'r Rhaglenni INTERREG blaenrol trwy ariannu ymyriadau i ymdrin â rhai o'r newidiadau allweddol ar sail drawsffiniol.

Sail resymegol: Mae yna gyswilt clir rhwng (a) yr anghenion a nodwyd yn y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau a (b) y Strategaeth Ddatblygu, Blaenoriaethau a Themâu a nodwyd yn y Rhaglen ddrafft. Mae'r cyswilt hwn, sy'n cael ei ddangos yn Adran 3.1 y Rhaglen ddrafft, yn amlygu heriau cyffredin ar gyfer rhannau Gwyddelig a Chymreig y rhanbarth trawsffiniol (fel y nodwyd yn y dadansoddiadau economaidd-gymdeithasol a Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) ac yn asesu lefel y cyfle ym mhob achos i ymyrryd ar sail drawsffiniol. Yn ei dro, mae hyn wedi darparu sail ar gyfer dethol ardaloedd eang i gydweithio o dan y Rhaglen, er bod nifer o achosion lle gall honiadau a wnaed am yr achos dros ymyrfod wedi'u seilio i raddau mwy ar dystiolaeth.

Ymddengys bod y sail resymegol dros ymyriad cyhoeddus, fel y'i cyflwynwyd ar lefel Blaenoriaeth a lefel Thema, wedi'i seilio ar ganlyniadau'r dadansoddiadau economaidd-gymdeithasol a Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau a phennu heriau cyffredin. Yn gyffredinol, mae'r sail resymegol dros ymyriad cyhoeddus yn y meysydd a ddewiswyd hefyd yn ymddangos yn ddigon cadarn. Ar yr un pryd, mae'r drafodaeth ar y sail resymegol yn gyffredinol ei natur mewn rhai rhannau, a gellid cyflwyno'r sail resymegol dros dethol y Strategaeth Ddatblygu, Blaenoriaethau a Themâu a ddewiswyd yn fwy clir.

Fodd bynnag, bydd Cynllun Gweithredu manwl, y bydd yr Awdurdod Rheoli a'i bartneriaid Rhaglen yn bwriadu ymgymryd ag ef, yn helpu i ymdrin â'r mater hwn a gwella'r ffordd y caiff Blaenoriaethau a Themâu unigol eu targedu.

Cysondeb: Mae'r Strategaeth Ddatblygu'n arddangos cryn dipyn o gysondeb. Mae'r strategaeth, fel y mae wedi'i chyflwyno, yn ceisio adeiladu ar lwyddiannau'r Rhaglenni INTERREG blaenorol, trwy ddatblygu ymyriadau i ymdrin â heriau cyffredin a nodwyd yn y rhanbarth Trawsffiniol, a gellid cysylltu'r Blaenoriaethau a'r Themâu a ddewiswyd yn uniongyrchol â'r Strategaeth hon.

At hyn, mae'r dewis o Flaenoriaethau a Themâu yn y Rhaglen ddrafft i'w ganmol am ddangos mwy o ffocws nag a gafwyd o dan raglenni INTERREG blaenorol, sy'n awgrymu bod ymdrech wedi'i wneud i ddysgu gwersi trwy'r rhaglenni blaenorol. Nawr, er enghraifft, dim ond dwy Thema gysylltiedig sydd gan bob Blaenoriaeth o dan y Rhaglen ddrafft, lle'r oedd gan y ddwy Flaenoriaeth o dan Raglen INTERREG IIIA Iwerddon-Cymru gyfanswm o chwe Mesur eang posibl (sy'n cyfateb i Themâu).

Yn ogystal, nid oes unrhyw wrthdaro amlwg rhwng y Blaenoriaethau a'r Themâu a ddewiswyd, er bod ffocws pob Blaenoriaeth yn gwbl wahanol i'w gilydd. Yn ogystal â hyn, ychydig iawn o risgiau sy'n perthyn i'r dewis o Flaenoriaethau a Themâu o safbwynt polisi, yn arbennig o ystyried mai bach yw'r Rhaglen.

4. Cydlyniant y Strategaeth gyda Pholisïau Allweddol

Cydlyniant: Ar lefel eang, mae'r Rhaglen ddrafft yn arddangos lefel briodol o gydlyniant â pholisïau a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol ar lefel Gwyddelig, Cymreig ac UE. Y rheswm am hyn yw yr ymddengys bod gan y Themâu allweddol y potensial i gefnogi a chyflenwi amcanion polisi perthnasol yn Iwerddon, yng Nghymru ac yn yr UE.

Yn arbennig, mae gan y Rhaglen ddrafft gysylltiadau cryf â'r nodau allweddol sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Lisboa, Strategaeth Gothenburg, a Chanllawiau Strategol y Gymuned, sy'n cynnwys:

- hyrwyddo gwybodaeth, arloesi ac entrepreneuriaeth;
- creu mwy o swyddi a gwell swyddi;
- cyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd, cynyddu'r defnydd o ynni glân, a rheoli adnoddau naturiol yn fwy cyfrifol;
- brwydro yn erbyn tlodi ac allgáu cymdeithasol.

At hyn, mewn cyd-destun Gwyddelig a Chymreig, mae'r Rhaglen ddrafft yn arddangos ei bod yn ffitio mewn ffordd debyg ag amcanion polisi allweddol. Er enghraifft, mae'n unol ag amcanion arloesi, entrepreneuriaeth, sgiliau a dysgu sydd mewn dogfennau polisi Gwyddelig allweddol fel y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol a'r Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol, ac mae ei hamcanion a'i gweithgareddau bwriedig hefyd yn ategu polisïau sectoraidd neu thematig allweddol yn Iwerddon. Hefyd, mae'n cefnogi amcanion polisi Cymraeg allweddol, gan gynnwys blaenoriaethau "Cymru: Economi yn Ffynnu" (strategaeth datblygu economaidd Cymru), sy'n ceisio helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol trwy entrepreneuriaeth ac arloesi, gwella'r sylfaen sgiliau yng Nghymru, a darparu hyfforddiant sy'n cael ei arwain gan y galw.

Un feirniadaeth bosibl ar y Rhaglen ddrafft yw mai dim ond ar lefel gyffredin, "pennawd" y mae ei chydlyniant â'i chyd-destun polisi allanol yn amlwg. Fodd bynnag, gellid ystyried y mater hwn ymhellach fel rhan o'r Cynllun Gweithredol manwl ar gyfer y Rhaglen ddrafft.

Cyfatebolrwydd: Mae'n eithaf clir, o'r disgrifiad o raglenni a chronfeydd eraill, bydd buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen ddrafft yn cyflenwi gweithgareddau'r Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd, a hefyd na fydd yn dyblygu buddsoddiad o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EARDF) na Chynlluniau Strategaeth Genedlaethol Datblygu Gwledig. Ar gyfer yr ERDF, Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Seithfed Rhaglenni Fframwaith Ymchwil, fodd bynnag, mae'n llai clir yn union sut y bydd buddsoddiad o dan y Rhaglen ddrafft yn wahanol i fuddsoddiad o dan y rhaglenni a'r cronfeydd hyn.

Wedi dweud hyn, bydd peirianweithiau'n cael eu rhoi ar waith i helpu i sicrhau bod y Rhaglen yn cyflenwi rhaglenni a chronfeydd eraill. Er enghraifft;

- yr Awdurdod Rheoli fydd Awdurdod Rheoli'r Rhaglen Cystadleurwydd Amcan 2 ERDF yn rhan Wyddelig y rhanbarth Trawsffiniol hefyd;
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) fydd yr Awdurdod Rheoli ar gyfer Rhaglen Cydgyfeirio Amcan 1 ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd;
- wrth ei gweithredu, bydd strwythurau'n cael eu rhoi ar waith o fewn pob un o'r Awdurdodau Rheoli ar gyfer rhaglenni perthnasol i nodi manylion y llinellau terfyn ac i sicrhau cydlyniant a chyfatebolrwydd rhwng y rhaglenni.

5. Canlyniadau ac Effeithiau Disgwyliedig

Mae'r dangosyddion allweddol a gyflwynwyd yn y Rhaglen ddrafft yn cynnwys dangosyddion allbwn a chanlyniad, sydd wedi'u darparu ar gyfer pob un o'r pedair Thema allweddol. Mae hyn yn unol â gofynion yr UE. Mae 27 o ddangosyddion allbwn ac 15 o ddangosyddion canlyniad wedi'u rhestru ar draws y pedair Thema.

Mae'r ffaith bod cyfres o ddangosyddion wedi cael eu datblygu ar gyfer y Rhaglen ddrafft ei hun yn enghraifft o arfer da, ac mae llai o ddangosyddion o gymharu â'r Rhaglen INTERREG IIIA, ac fe ddylai hyn helpu i sicrhau bod y system dangosyddion yn cael eu cadw ar lefel y gellir ei rheoli. Yn ogystal â hyn, mae'r dangosyddion yn helpu i roi gwell syniad o'r hyn fydd yn digwydd o dan bob Blaenoriaeth a Thema.

Ar yr un pryd, mae yna nifer o wersi i'w dysgu o'r profiad o ddefnyddio dangosyddion o dan Raglen INTERREG III Iwerddon-Cymru, y dylid eu hystyried naill ai yn y cyfnod Rhaglen ddrafft neu'r cyfnod Cynllun Gweithredol manwl:

- mae angen i realaeth, dibynadwyedd ac ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer y dangosyddion fod yn gadarn. Yn ogystal â hyn, mae angen i ddiffiniadau'r holl ddangosyddion fod yn glir ac wedi'u cymhwyso'n unffurf ar draws pob prosiect;
- o ran targedau, mae'n rhaid i'r tybiaethau sy'n sail i dargedau fod yn gwbl gadarn. Ar gyfer rhai dangosyddion, rhaid hefyd cofio na ellir priodoli eu cyflawniad i'r Rhaglen hon yn unig.

Rydym yn deall bod tîm drafftio'r Rhaglen wedi cynnal mwy o waith ar ddangosyddion ers cyhoeddi'r Rhaglen ddrafft, gan wneud ymdrech arbennig i leihau nifer y dangosyddion ymhellach gan eu clymu'n fwy uniongyrchol hefyd ag amcanion Themâu allweddol.

6. Trefniadau Gweithredu

Mae'r disgrifiad o'r trefniadau gweithredu, fel ag y maent yn y Rhaglen ddrafft, yn adlewyrchu gofynion rheoliadau'r UE yn agos iawn. O safbwynt cyfreithiol a rheoleiddiol, felly, mae'r trefniadau'n ymddangos yn dderbyniol, er mai ychydig iawn o fanylion ychwanegol sydd wedi'u darparu y tu hwnt i'r gofynion hyn. Yn ogystal â hyn, ymddengys bod y trefniadau gweithredu arfaethedig yn adeiladu ar gryfderau'r Rhaglenni INTERREG blaenorol. Ymhlith y dystiolaeth bod gwersi o'r fath wedi'u dysgu mae:

- defnyddio'r Gydysgrifenyddiaeth Dechnegol i weinyddu'r Rhaglen yn hytrach na chael unedau gweinyddu cyfochrog yn nwy ran y rhanbarth Trawsffiniol;
- defnyddio Pwyllgorau Llywio i asesu prosiectau (gan ddod â chynrychiolwyr arbenigol at ei gilydd o ddwy ran y rhanbarth);
- defnyddio Swyddogion Datblygu, a ystyrid, mewn gwerthusiadau blaenorol o Raglenni INTERREG, yn echelbinnau darparu'r Rhaglenni hynny;
- y bwriad i barhau i ddefnyddio "gwefan gyda chyfleusterau chwilio partner" yn rhan ganolog o'r Cynllun Gwybodaeth a Chyfathrebu, sy'n gallu chwarae rhan allweddol wrth helpu noddwyr prosiectau posibl newydd i ddod ymlaen.


Yn gyffredinol, mae rôl y gwahanol gyrff sy'n cael eu cynnig yn y Rhaglen ddrafft yn glir iawn, er nad yw'n gwbl amlwg beth yw ystyr rôl y Pwyllgor(au) Llywio yn "monitro gweithrediad prosiectau yn gydlynol". Fodd bynnag, rydym yn deall y bydd tîm drafftio'r Rhaglen yn ymdrin â hyn. Ymhlith y meysydd eraill fyddai'n elwa o well eglurdeb o ran trefniadau gweithredu, yn y Cynllun Gweithredu manwl diweddarach mae'n debyg, mae:

- manylion o sut y mae'r Rhaglen ddrafft yn bwriadu osgoi oedi hir oedd yn nodweddiadol o'r broses dethol a gwerthuso prosiectau yn y Rhaglen INTERREG IIIA;
- angen amlwg i sicrhau bod yr wybodaeth a'r profiad a enillwyd yng Nghymru o dan y Rhaglen INTERREG IIIA yn cael eu trosglwyddo i Iwerddon,

oherwydd gallai methu sicrhau pontio di-dor yma beryglu rhediad llyfn y Rhaglen;

- manylion pellach am y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer trosglwyddo data electronig o dan y Rhaglen.

Siart Ilif ar y Drefn Trin a Rheoli Arian
Atodiad VI i Dynnu i Lawr Arian ERDF o dan Raglen Weithredol
Iwerddon Cymru 2007 – 2013



Yn talu arian ERDF i'r Awdurdod Ardystio er mwyn ad-dalu gwir wariant ERDF


Yn archwilio datganiadau gwariant ERDF gan Awdurdodau Rheoli ac yn ardystio hawliadau am daliadau i Gomisiwn UE i dynnu arian ERDF i lawr. Cyd-drefnu adroddiadau afreoleidd-dra a wneir gan yr Awdurdod Rheoli. Talu derbynebaw.

Cyd-drefnu ac archwilio adroddiadau gwariant gan fuddiolwyr terfynol a chyflwyno datganiad gwariant wedi'i ardystio i'r Awdurdod Ardystio. Cynnal gwiriadau rheoli Erthygl 60 ar ddychweliadau gwariant a wneir gan fuddiolwyr. Cyd-drefnu adroddiadau afreoleidd-dra i'w trosglwyddo i'r Awdurdod Ardystio.

Cynnal gwaith a chyflwyno hawliadau am daliadau i'r Gydysgrifenyddiaeth. Caiff pob hawliad am dâl ei gefnogi gan anfonebau â derbynneb a

ATODIAD VII

Siart Llif ar y System Daliadau ar gyfer Grantiau i Fuddiolwyr o dan Raglen Weithredol Iwerddon Cymru 2007 - 2013



Siart o'r sefydliad ar gyfer Cynulliad Rhanbarthol y De a'r Dwyrain 2007

